Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**




# Y Swyddfa Gyfathrebiadau
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

**Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020**

# Y Swyddfa Gyfathrebiadau
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

**Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020**

Cyflwynir i'r Senedd yn unol â Pharagraffau 11 a 12 Atodlen 1 Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

Gorchmynnir gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 21 Gorffennaf 2020.

Cyflwynir i Lywodraeth yr Alban gan Weinidogion yr Alban

Cyflwynir i Lywodraeth Cymru gan
Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS Prif Weinidog Cymru

OGL

© Hawlfraint Ofcom 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom ar: ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk.

ISBN 978-1-5286-2043-7
CCS0320313510-001
SG/2020/106

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Hobbs the Printers Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Neges y Cadeirydd | 4 |
| | Adroddiad y Prif Weithredwr | 6 |

## A Adroddiad Perfformiad

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Trosolwg | 9 |
| 2. | Adolygu Perfformiad | 12 |
| 3. | Prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd | 41 |
| 4. | Gwaith yn y gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol | 44 |
| 5. | Sut rydym yn gweithio a chyda phwy rydym yn gweithio | 48 |
| 6. | Adolygiad Ariannol | 53 |
| 7. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | 59 |
| 8. | Adroddiad Cynaliadwyedd | 61 |

## B Adroddiad Atebolrwydd

| | | |
|---|---|---|
| 9. | Llywodraethu | 65 |
| 10. | Ein Bwrdd | 67 |
| 11. | Datganiad Llywodraethu | 74 |
| 12. | Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio | 89 |
| 13. | Adroddiad Taliadau | 95 |
| 14. | Ein Gweithwyr | 102 |
| 15. | Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 106 |
| 16. | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig | 107 |

## C Datganiadau Ariannol


| | | |
|---|---|---|
| 17. | Datganiad o incwm net cynhwysfawr | 111 |
| 18. | Datganiad am y sefyllfa ariannol | 112 |
| 19. | Datganiad am newidiadau mewn ecwiti | 113 |
| 20. | Datganiad am y llifoedd arian parod | 114 |
| 21. | Nodiadau i'r cyfrifon | 115 |

## D Atodiadau

| | | |
|---|---|---|
| A1. | Adran 400 | 156 |
| A2. | Datganiadau rheoleiddio | 157 |
| A3. | Rhaglen ymchwiliadau | 161 |
| A4. | Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu | 162 |
| A5. | Gorfodi a pheirianneg sbectrwm | 166 |
| A6. | Trwyddedu sbectrwm | 167 |
| A7. | Cynaliadwyedd | 173 |
| A8. | Clirio 700 MHz | 176 |

# Neges y Cadeirydd

## Yr Arglwydd Burns, GCB



Wrth i gymdeithas ddod i delerau ag effaith Covid-19, mae'r cyfyngiadau symud ar draws Prydain a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi pwysleisio rôl hollbwysig rhwydweithiau band eang a symudol i gefnogi ein heconomi ac i sicrhau bod pobl yn gallu cysylltu â'i gilydd – ni waeth pa mor bell ydyn nhw oddi wrth ei gilydd.

Wrth wynebu'r heriau hyn, mae'r rhwydweithiau hynny wedi perfformio'n dda – gan adlewyrchu'n rhannol y camau y mae Ofcom, y Llywodraeth a'r diwydiant wedi'u cymryd dros y flwyddyn diwethaf i sicrhau gwell cysylltiadau band eang a symudol i bobl ar hyd a lled y DU.

Mae dros 95% o'r eiddo yn y DU yn gallu derbyn band eang cyflym iawn erbyn hyn, gydag oddeutu chwech o bob deg yn manteisio ar hynny. Mae'r dechnoleg ffeibr llawn ddiweddaraf yn cyrraedd 12% o eiddo, ac mae'r ffigur hwnnw'n cynyddu'n gyflym. Hefyd, mae nifer y cartrefi a'r swyddfeydd sy'n methu cael cysylltiad band eang teilwng mewn unrhyw ffordd wedi gostwng i oddeutu 190,000. Ym mis Mawrth, roddem wedi cyflwyno gwasanaeth band eang cyffredinol y Llywodraeth, gan roi'r hawl i bob cartref a busnes wneud cais am gysylltiad teilwng.

O ran gwasanaethau symudol, roeddem wedi paratoi i arwerthu tonnau awyr newydd i gefnogi'r galw cynyddol am ddata ar ffonau clyfar, ac i fraenaru'r tir ar gyfer gwasanaethau 5G arloesol.

Rydym hefyd wedi bod yn canolbwyntio eleni ar sicrhau tegwch i gwsmeriaid ffôn, band eang a theledu drwy dalu – yn enwedig y rheini sydd mewn sefyllfa fwy bregus oherwydd oedran neu amgylchiadau ariannol. Mae'r bobl hyn wedi bod yn flaenoriaeth i Ofcom erioed; ac wrth i filiynau o bobl fregus deimlo holl effaith Covid-19, rhaid rhoi blaenoriaeth i anghenion y bobl hynny.

Eleni, roeddem wedi llwyddo i sicrhau bod darparwyr band eang mwyaf y DU yn gostwng prisiau ar gyfer cwsmeriaid sydd gyda nhw ers tro – llawer ohonynt yn bobl hŷn – ac wedi cyflwyno mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer pobl fregus.

Mae Ofcom eisiau i bawb gael bargen deg. Roeddem wedi cyflwyno rheolau ym mis Chwefror a oedd yn mynnu bod yr holl gwsmeriaid yn cael gwybod pan fydd eu contract ar fin dod i ben, ac yn cael gweld y prisiau gorau sydd ar gael iddynt. Fel y gwnaed gyda band eang, roeddem wedi adolygu prisiau gwasanaethau symudol ac wedi sicrhau bod yr holl brif ddarparwyr – heblaw am Three – yn ymrwymo i ostwng prisiau ar gyfer cwsmeriaid sydd gyda nhw ers tro. Roeddem hefyd wedi'i gwneud yn haws o lawer i newid darparwr symudol gyda dim ond neges destun syml.

Yn sgil hynny, mae miliynau o gwsmeriaid yn debygol o arbed arian dros y blynyddoedd nesaf. Ond mae angen i bobl gael eu gwarchod hefyd rhag camgymeriadau a allai gostio arian iddynt. Roeddem wedi rhoi dirwyon eleni, gan gynnwys dirwy o £1.4m i Giffgaff, cwmni gwasanaethau symudol, am godi gormod ar gwsmeriaid, a dirwy o £245,000 i BT ar ôl iddo godi gormod ar rai cwsmeriaid EE am wneud ymholiadau rhifau ffôn.

Mae gwarchod pobl rhag niwed yn rhan ganolog o waith Ofcom – nid dim ond ym maes telegyfathrebu, ond ym maes darlledu hefyd. Eleni roeddem wedi cynnal mwy o ymchwiliadau i raglenni teledu a radio er mwyn rhoi sylw i broblemau fel iaith casineb a thrin unigolion yn annheg. Cofnodwyd 82 achos lle'r oedd ein rheolau wedi cael eu torri. Roeddem wedi rhoi amryw o ddirwyon, gan gynnwys dirwy o £200,000 i RT, sianel deledu ar gyfer newyddion, am beidio â dangos didueddrwydd dyladwy; a dirwyon o £100,000 a £200,000 i gyn-ddeiliaid trwydded Peace TV a Peace TV Urdu, am ddarlledu iaith casineb a chynnwys tramgwyddus iawn.

Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o ddarlledwyr yn gweithio'n galed i gynnal y safonau uchel sy'n golygu bod ein diwydiannau creadigol yn ennyn eiddigedd ar hyd a lled y byd. Ond, mae'r diwydiant wedi wynebu heriau eithriadol eleni, wrth i Covid-19 effeithio ar refeniw hysbysebu ac atal llawer o raglenni rhag cael eu cynhyrchu. Mae cefnogi'r diwydiant darlledu yn y DU yn dal yn un o'n blaenoriaethau, a phrofwyd gwerth y diwydiant unwaith eto gyda ffigurau gwylio a gwrando uchel yn ystod y pandemig.

Fel darlledwr cyhoeddus mwyaf y DU, mae gan y BBC rôl ganolog i'w chwarae. Eleni, dangosodd ein hadolygiad o ddarpariaeth newyddion y gorfforaeth – a'n hadroddiad blynyddol ar ei pherfformiad – fod amrywiaeth ac ansawdd cynnwys y BBC yn dal i daro'r nod ar gyfer miliynau o bobl. Ond, mae'n rhaid i'r BBC ddenu mwy o bobl iau, ac ymdrechu i gynrychioli cymdeithas y DU yn ei chyfanrwydd yn ei raglenni.

Roedd ein canfyddiadau ynghylch y BBC yn seiliedig ar ymchwil ymysg gwylwyr a gwrandawyr. Mae gwrando ar safbwyntiau ac anghenion pobl wrth iddyn nhw newid yn dal yn gwbl sylfaenol i'n gwaith rheoleiddio ym mhob sector.

Er enghraifft, rydym hefyd wedi cynnal arolwg mawr o anghenion a blaenoriaethau defnyddwyr gwasanaethau post – wrth i nifer y llythyrau leihau, a nifer y parseli barhau i gynyddu. Wrth i fwy a mwy o barseli gael eu danfon, roedd gweithwyr post yn ganolog i'r gwaith o gadw ein heconomi i symud eleni, gyda'r rhan fwyaf o weithgarwch gwerthu yn digwydd ar-lein o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud; a bydd ein hymchwil defnyddwyr yn helpu i siapio'r ffordd y byddwn ni'n rheoleiddio'r Post Brenhinol yn y dyfodol, mewn cyfnod o newid mawr i'r diwydiant.

Y Fonesig Melanie Dawes sy'n arwain ein gwaith, ac roedd yn bleser gennyf ei chroesawu fel ein Prif Weithredwr newydd ym mis Mawrth. Mae gan Melanie gyfoeth o brofiad, yn fwyaf diweddar fel Ysgrifennydd Parhaol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, lle'r oedd hefyd yn Hyrwyddwr Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Gwasanaeth Sifil.

Bydd Melanie yn goruchwylio gwaith mewn meysydd pwysig – yr ymateb i Covid-19 yn ogystal â pharatoi at gylch gwaith newydd posib i fynd i'r afael â niwed ar-lein, a helpu ein sector i addasu wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mewn byd o newid, ansicrwydd a chyfleoedd newydd, nid yw nodau sylfaenol Ofcom wedi newid: hybu gwasanaethau gwell i gartrefi a busnesau, diogelu pobl rhag niwed, a sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Y Fonesig Melanie Dawes, y Prif Weithredwr



Roedd yn fraint gennyf ddod yn Brif Weithredwr Ofcom ym mis Mawrth. Dim ond pythefnos ar ôl dechrau ar fy rôl, roedd Ofcom – fel cymaint o sefydliadau – wedi newid dros nos i weithio gartref, ac yn ailystyried ein rôl wrth i'r wlad ymdopi ag argyfwng Covid-19.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae cynnal rhwydweithiau cyfathrebu ledled y DU yn bwysicach nag erioed. Mae'r sectorau mae Ofcom yn eu rheoleiddio wedi bod yn allweddol wrth helpu teuluoedd, busnesau ac unigolion yn ystod y pandemig.

Roedd darparwyr telegyfathrebiadau wedi sicrhau bod gwasanaethau llinell dir, band eang a symudol yn gadarn, ac wedi cymryd camau penodol i gynorthwyo eu cwsmeriaid. Roedd darlledwyr wedi addasu eu hamserlenni er mwyn parhau i ddarparu rhaglenni o safon uchel, a darparu gwasanaethau newyddion o safon uchel sy'n darparu'r wybodaeth gywir. Roedd cwmnïau gwasanaethau post a pharseli wedi sicrhau eu bod yn dal i ddanfon y rhain drwy gydol y cyfnod o gyfyngiadau symud.

Roedd gweithwyr allweddol ym maes cyfathrebu ymysg y rheini a lwyddodd i gadw'r DU i symud yn ystod y cyfnod hwn – o'r peirianwyr telegyfathrebu a gweithwyr post a fu'n ein helpu i gadw mewn cysylltiad, gan gynnwys tîm bach o beirianwyr Ofcom, i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a fu'n rhoi gwybodaeth ddibynadwy i wylwyr a gwrandawyr.

Hyd yn oed cyn Covid-19, roeddem yn gweld datblygiadau parhaus a chyflym ym myd cyfathrebu, a oedd yn cael eu sbarduno gan newid cymdeithasol, economaidd a thechnolegol.

Eleni, dangosodd ein gwaith ymchwil bod arferion gwylio'r wlad yn newid yn gyflym, gyda bron i hanner y cartrefi yn y DU yn tanysgrifio i wasanaethau ffrydio teledu erbyn hyn. Mae pobl ifanc bellach yn gwylio hanner yn llai o deledu traddodiadol o'i gymharu â degawd yn ôl, ac yn treulio dros awr ar YouTube bob dydd.

Ar yr un pryd, mae pedwar o bob pump sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn y DU yn poeni am brofiadau niweidiol ar-lein. Ddechrau 2021, byddwn ni'n dechrau cyflawni dyletswyddau newydd i reoleiddio cynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar wasanaethau rhannu fideos yn y DU. I adlewyrchu'r rôl newydd hon – a'r newidiadau ehangach o ran sut mae pobl yn cyfathrebu – lansiodd Ofcom y rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, sy'n ehangu a chynyddu ein gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau drwy bob math o waith ymchwil a digwyddiadau.

Ym mis Chwefror, dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer fframwaith rheoleiddio ehangach i ddiogelu rhag niwed ar-lein. Os byddwn ni'n cael ein penodi yn rheoleiddiwr, rydym yn barod i ddatblygu rheolau effeithiol a chymesur sy'n adlewyrchu'r nodau sy'n cael eu hamlinellu mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

Mae newidiadau o ran arferion wrth ddefnyddio'r cyfryngau a thechnoleg yn dal i drawsnewid y byd darlledu. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dangos eu gwerth yn ystod argyfwng Covid-19, gyda ffigurau gwylio uwch nag erioed. Ond maen nhw'n wynebu cystadleuaeth gref gan gwmnïau

technoleg enfawr byd-eang a gwasanaethau ffrydio sy'n cael eu hariannu'n dda – Disney+ yw'r un diweddaraf, a lansiwyd yn y DU ym mis Mawrth.

I adlewyrchu'r newidiadau hyn, rydym wedi ymgynghori'n eang – ac wedi cynnal digwyddiadau ar hyd a lled y DU – er mwyn clywed barn cynulleidfaoedd, academyddion a seneddwyr ynghylch sut dylid ailddiffinio darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer yr oes ddigidol. Eleni, byddwn ni'n ymgynghori ynghylch pa wasanaethau y dylid eu darparu – a sut byddan nhw'n cael eu cyflwyno, eu hariannu a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y cyfyngiadau symud o ganlyniad i Covid-19, mae miliynau o bobl a busnesau wedi gorfod addasu i weithio gartref – gan ddibynnu'n fwy nag erioed, ac ym mhob cornel o'r DU, ar wasanaethau band eang a symudol da. Mae hyn wedi pwysleisio pwysigrwydd buddsoddi mewn rhwydweithiau â chyflymder gigabit sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Mae Ofcom wedi bod yn gweithio i gefnogi hynny. Rydym yn addasu ein prosesau rheoleiddio i gefnogi buddsoddiadau mewn rhwydweithiau band eang ffeibr newydd, gyda rheolau prisio sy'n sicrhau elw teg i fuddsoddwyr yn y dyfodol, gan sicrhau bod pobl yn dal yn gallu fforddio gwasanaeth band eang da heddiw.

Hefyd, mae angen gwell cysylltiadau ar bobl pan fyddan nhw ar grwydr. Rydym yn paratoi i arwerthu sbectrwm newydd i gefnogi rhwydweithiau 5G, ac rydym yn sicrhau bod gweithredwyr gwasanaethau symudol yn cadw at eu hymrwymiadau i gyflwyno signal 4G o ansawdd da mewn rhannau anghysbell o'r DU o fewn chwe blynedd. Roeddem wedi rhoi cyngor technegol ar eu targedau, a oedd wedi cael sêl bendith y gweithredwyr a'r Llywodraeth, ac rydym yn sicrhau bod y targedau'n gyfreithiol rwymol.

Fel y rheoleiddiwr, rydym yn cydnabod yr heriau i'n sectorau yn sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd difrifol Covid-19. Wrth i'r wlad addasu i gyfnod newydd, byddwn ni'n dal i geisio rheoleiddio mewn ffordd synhwyrol a chefnogol – gan ddal cwmnïau'n atebol, a sicrhau eu bod yn gwasanaethu eu cwsmeriaid a'u cynulleidfaoedd yn unol â'r safonau uchaf posib.

Yn fwy na dim, mae'n rhaid i gwmnïau barhau i drin pobl yn deg. Yn dilyn ymyriadau gan Ofcom, mae cwmnïau telegyfathrebiadau bellach yn talu iawndal yn awtomatig pan fydd pethau'n mynd o'i le. Maen nhw'n dweud wrth gwsmeriaid beth yw statws eu contract, yn darparu cyflymderau band eang sicr, ac yn gadael i bobl newid yn rhwydd i ddarparwr arall.

Rhaid i Ofcom hefyd barhau i addasu ac arloesi fel rheoleiddiwr. Rydym yn penodi arbenigwyr i'n helpu i ddefnyddio data'n fwy effeithiol yn ein penderfyniadau, ac i ddeall y defnydd diweddaraf o ddata yn y diwydiant. Hefyd, mae ein tîm Technoleg yn adeiladu ar ei waith i sicrhau bod cwmnïau telegyfathrebiadau'n cadw eu rhwydweithiau'n gryf, wrth i Lywodraeth y DU gynllunio i roi dyletswyddau ychwanegol i Ofcom er mwyn diogelu ein rhwydweithiau 5G a ffeibr rhag bygythiadau seiber.

Yn olaf, rydym wedi adrodd yn ôl eto eleni ar nodweddion gwarchodedig gweithwyr ym myd teledu a radio, gan bwysleisio ymhle y dylid ehangu cyfleoedd. Am y tro cyntaf, rydym wedi casglu data am gefndir economaidd-gymdeithasol pobl ym myd teledu; ac rydym wedi sefydlu Panel Cynghori ar Amrywiaeth sy'n cynnwys arbenigwyr ar y diwydiant, a fydd yn cynnig syniadau newydd am sut gall darlledwyr ddenu'r talentau gorau o bob rhan o gymdeithas.

O'n rhan ni, mae Ofcom wrthi'n rhoi bywyd newydd i'w strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, yn cynllunio targedau newydd ac yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cynrychioli'r gwledydd rydym yn eu gwasanaethu. Bydd hyn yn flaenoriaeth bersonol i mi, fel Prif Weithredwr newydd Ofcom.



ADRAN A

# Adroddiad Perfformiad

Mae’r adran hon yn egluro sut rydym wedi ein trefnu i gyflawni ein dyletswyddau a sut hwyl rydym wedi’i chael arni o ran ein hamcanion strategol sydd wedi’u nodi yn ein Cynllun Gwaith Blynyddol, yr effaith ar ddefnyddwyr a’r canlyniadau, a’r camau nesaf rydym yn eu cymryd.

# 1. Trosolwg

## Gwybodaeth am Ofcom

Mae defnyddwyr a busnesau yn y DU yn dibynnu ar wasanaethau cyfathrebu bob dydd. Mae cael gwasanaethau cyfathrebu dibynadwy a chadarn ar draws y DU yn bwysicach nawr nag erioed, ac mae hynny'n rhan hollbwysig o ymateb y DU i'r coronafeirws. Gyda nifer o fusnesau'n newid i weithio o bell a gydag ysgolion ar gau, mae rhwydweithiau band eang a symudol yn gweld newid o ran y patrymau galw; erbyn hyn mae llawer o deuluoedd ar-lein ar yr un pryd yn ystod y dydd, er mwyn gweithio a dysgu o gartref.

Fel rheoleiddiwr y DU, ein cenhadaeth ni yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys rheoleiddio telegyfathrebiadau symudol a band eang, gwasanaethau teledu, radio, fideo ar-alw, post, diogelwch a chadernid gwasanaethau a rhwydweithiau telegyfathrebiadau, ac rydym yn sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae ein gwaith yn helpu defnyddwyr a busnesau yn y DU i gael y budd mwyaf o wasanaethau cyfathrebu, ac yn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau lle bynnag maen nhw yn y DU.

Rydym yn sicrhau tegwch a diogelwch i ddefnyddwyr rhag arferion cyfrwys ac rydym yn mynd ati i gefnogi cystadleuaeth pan fo'n briodol i sicrhau canlyniadau da.

Y flaenoriaeth i'n sectorau dros y misoedd nesaf yw cynnal y gefnogaeth i ddefnyddwyr a busnesau, a sicrhau bod y rhwydweithiau'n dal yn gadarn ac yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn hollbwysig ein bod ni'n gweithredu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu diogelu rhag twyll ac arferion drwg, yn enwedig pobl hŷn neu fregus.

Ledled y DU, mae gennym dimau o beirianwyr a thechnegwyr (wedi'u dynodi'n weithwyr allweddol) sy'n rhan hollbwysig o'r gwaith o sicrhau bod y tonnau awyr yn ddiogel ac yn gweithio. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant a'r Llywodraeth i wneud yn siŵr nad yw cwsmeriaid telegyfathrebiadau'n colli cysylltiad, a'u bod yn cael cymorth yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.

Rydym yn goruchwylio'r gwasanaeth post cyffredinol, sy'n golygu bod rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon a chasglu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos, a pharseli bum niwrnod yr wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf ar draws y DU.

Rydym yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, ac mae ein dyletswyddau wedi'u nodi mewn statud, sy'n golygu ein bod yn atebol i Senedd y DU. Ein blaenoriaeth ydy cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr, lle gall defnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac rydym yn cyflawni hyn drwy roi gwybodaeth i chi a hyrwyddo cystadleuaeth ymysg y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio.

## Ein pwerau a'n dyletswyddau

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol[1].

Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw 'hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol'.

Gyda gwasanaethau post, rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond ni allwn ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am wasanaethau post neu delegyfathrebiadau. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) rydym wedi'u cymeradwyo. Ond rydym yn delio â chwynion gan unigolion am wasanaethau teledu a radio.

Mae ein dyletswyddau cyfreithiol yn llywio cyfeiriad ein gwaith, a'n prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:


- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd uchel yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu;
- a bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

[1] Mae'r rhain yn cynnwys y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, y Ddeddf Telegraffi Di-Wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau'r Economi Ddigidol 2010 a 2017 a'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

## Ein gwerthoedd

Er mwyn ein helpu gyda'n gwaith yn hyrwyddo dewis, sicrhau safon ac atal niwed, mae angen i ni wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer yr holl ddefnyddwyr a dinasyddion yn y DU. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i bob rhan o'n sefydliad fod yn amrywiol a meithrin diwylliant cynhwysol. Ein nod yw cyflawni hyn drwy fabwysiadu ein pedwar gwerth: cydweithio, grymuso, ystwythder a rhagoriaeth.

Mae ein gwerthoedd yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn trin ein gilydd, sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd, sut rydym yn uniaethu â'n rhanddeiliaid, sut rydym yn barnu perfformiad a sut rydym yn cydweithio i gyflawni ein blaenoriaethau. Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac yn cefnogi'r sefydliad rydym ni eisiau bod.



**Cydweithio**



**Grymuso**



**Ystwythder**



**Rhagoriaeth**

# 2. Adolygu Perfformiad

## Uchafbwyntiau 2019/20

**Darpariaeth band eang a symudol gwell – *lle bynnag fyddwch chi***

- **Rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang (USO)** – Ofcom sy'n gyfrifol am weithredu'r USO. Ers mis Mawrth 2020, mae defnyddwyr wedi gallu gwneud cais am gysylltiad band eang teilwng.
- **Buddsoddi mewn rhwydweithiau ffeibr llawn** – eleni, rydym wedi amlinellu ein fframwaith rheoleiddio arfaethedig i gefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr llawn (Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol). O dan gynlluniau presennol darparwyr, mae'n bosib y byddai o leiaf 50% o'r DU yn gallu cael darpariaeth ffeibr llawn o fewn pum mlynedd.
- **Rhwydwaith Gwledig a Rennir** – roeddem wedi rhoi cyngor technegol i'r Llywodraeth ynghylch cynigion gweithredwyr rhwydweithiau symudol ar gyfer 'rhwydwaith gwledig a rennir' (SRN), a fydd yn helpu i gynyddu'r ddarpariaeth 4G ar draws y DU.
- **Rhannu mynediad i sbectrwm** – roeddem wedi cadarnhau cynlluniau i ganiatáu rhannu mynediad mewn nifer o fandiau sbectrwm, ac wedi bwrw ymlaen â'n rhaglen waith i ryddhau mwy o sbectrwm er mwyn gallu lansio gwasanaethau symudol newydd, fel 5G.

---

**Tegwch i Gwsmeriaid**

- O dan ein rhaglen **Tegwch i Gwsmeriaid,** roeddem wedi cyhoeddi fframwaith yn amlinellu sut byddwn ni'n barnu a yw cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg gan gwmnïau telegyfathrebiadau a theledu drwy dalu.
- Y llynedd, roedd pob un o ddarparwyr mwyaf y DU wedi gwneud **ymrwymiad pwysig i roi tegwch yn gyntaf.**
- **Newid darparwr** – rydym wedi'i gwneud yn haws i gwsmeriaid adael eu cwmni gwasanaethau symudol presennol, ac wedi cyflymu'r broses honno, drwy adael iddyn nhw newid drwy anfon neges destun syml. Rydym hefyd wedi'i gwneud yn haws i newid darparwr band eang a chael sicrwydd o gyflymder penodol.
- Erbyn hyn, mae'n rhaid i gwmnïau band eang, ffôn a theledu drwy dalu **ddweud wrthych chi pan fydd eich contract yn dod i ben,** a rhoi gwybod i chi am y cynigion gorau sydd ar gael ganddyn nhw.

---

**Cefnogi darlledu yn y DU**

- **Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr** – roeddem wedi cyhoeddi adolygiad pum mlynedd o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (2014-18), i sbarduno sgwrs genedlaethol ynghylch sut gellid diogelu manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y dyfodol.
- **Adolygiad o gynyrchiadau rhanbarthol** – roeddem wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer darlledu yn y sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r gwaith o wneud rhaglenni y tu allan i Lundain, a'r meini prawf sy'n diffinio cynhyrchiad rhanbarthol.

- **Amlygrwydd cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPG)** – roeddem wedi cyhoeddi datganiad gyda diwygiadau i'r Cod cyfeiryddion rhaglenni electronig, i wneud yn siŵr ei bod hi'n dal yn hawdd dod o hyd i'r prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Disgwylir y bydd y diwygiadau'n dod i rym yn 2021.
- **Gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS)** – roeddem wedi gweithio gyda darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw, grwpiau defnyddwyr a'r Llywodraeth ynghylch sut dylai rheoliadau sydd ar y gweill wneud y gwasanaethau hyn yn fwy hygyrch.
- **Gorfodi'r Cod Darlledu** – roeddem wedi cofnodi 82 achos o dorri'r Cod, ac wedi rhoi saith sancsiwn i ddarlledwyr, gan gynnwys chwe chosb ariannol a oedd yn gysylltiedig â'r canlynol:
  - » cynnwys niweidiol
  - » torri'r rheolau sy'n gysylltiedig â throseddu, anhrefn, casineb a cham-drin
  - » torri'r rheolau didueddrwydd dyladwy.

---

**Codi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein**

- **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau** – roeddem wedi ehangu ein gweithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau drwy lansio'r rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau. Mae rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn dwyn ynghyd sefydliadau ac unigolion sydd ag arbenigedd mewn llythrennedd yn y cyfryngau, gyda'r nod cyffredin o wella sgiliau ar-lein oedolion a phlant yn y DU, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hynny.
- **Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein** – roeddem wedi cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn, sy'n ystyried sut mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau a chynnwys ar y rhyngrwyd, a'u hagweddau at fod ar-lein. Ochr yn ochr â hyn, roeddem wedi diweddaru ein dadansoddiad a'n hymchwil ar agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau.
- **Niwed ar-lein** – roeddem wedi cyhoeddi mwy o waith ymchwil manwl yn archwilio profiadau pobl o niwed ar-lein. Roeddem hefyd wedi edrych ar sut gallai deallusrwydd artiffisial helpu i gymedroli cynnwys ar-lein wrth symud ymlaen dros y pum mlynedd nesaf.

---

**Rhwydweithiau Cryf a Diogel**

- **Diogelwch a chadernid rhwydweithiau'r DU** – rydym yn gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y broses ddeddfwriaethol a fydd yn rhoi pwerau newydd i Ofcom ar gyfer Gofynion Diogelwch Telegyfathrebiadau, gyda'r nod o wella lefelau diogelwch yn y sector telegyfathrebiadau.

---

**Amrywiaeth a Chynhwysiant**

- **Adroddiadau ar Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal** – roeddem wedi cyhoeddi adroddiadau amrywiaeth ar gyfer radio a theledu. Am y tro cyntaf, roeddem wedi casglu data ar gefndir economaidd-gymdeithasol y gweithlu teledu.

## Y cynnydd sydd wedi'i wneud yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

Rydym yn cyhoeddi ein Cynllun Gwaith Blynyddol bob blwyddyn. Mae'r cynllun hwn yn egluro pa waith rydym yn bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn ar draws y DU a'i gwledydd er mwyn cyflawni ein diben.

Roedd ein meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2019/20 wedi cael eu datblygu yn unol â'n dyletswyddau a'n nodau strategol. Mae ein blaenoriaethau'n ystyried cyd-destun y farchnad a, phan fo'n bosibl, yn ceisio adlewyrchu ymatebion i ymgyngoriadau â rhanddeiliaid.

Mae'r adran hon yn egluro'r gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r meysydd blaenoriaeth, a beth maen nhw'n ei olygu i bobl ac i fusnesau.

**RAG cyflawni sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau'n brydlon:**

| | |
|---|---|
| mae'r prosiect wedi cael ei gwblhau, neu mae disgwyl iddo gael ei gwblhau heb oedi. | (gwyrdd) |
| mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fydd y prosiect yn cael ei gwblhau, neu mae oedi'n debygol. | (ambr) |
| mae'n bosib na fydd y prosiect yn cael ei gwblhau, neu y bydd oedi sylweddol. | (coch) |



# Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi

**Hybu buddsoddi a gwella darpariaeth band eang a symudol, er mwyn i bawb elwa**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang ("USO")** – dynodi darparwyr a gosod gofynion. | **Band eang** (mis Ionawr 2020)<br>a) mae 27.7m o gartrefi (95%) bellach yn gallu cael gafael ar fand eang cyflym iawn (30Mbit yr eiliad) (27.1m o gartrefi ym mis Ionawr 2019);<br>b) mae dros 3.5 miliwn o gartrefi (12%) bellach yn gallu cael cysylltiad band eang ffeibr llawn (7% ym mis Ionawr 2019); mae 55% o gartrefi yn gallu cael band eang gwibgyswllt (300Mbit yr eiliad) (51% ym mis Ionawr 2019);<br>c) gall cartrefi cymwys wneud cais yn awr am gysylltiad teilwng gan ddarparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig (cyflymder o 10Mbit yr eiliad wrth lwytho i lawr, ac 1Mbit yr eiliad wrth lwytho i fyny)<br><br>**Symudol**<br>a) Darpariaeth 4G sefydlog – mae 67% o wyneb y tir yn y DU yn gallu cael darpariaeth yn yr awyr agored gan bob un o'r pedwar gweithredwr, gyda 9% o'r DU yn dal heb ddarpariaeth dda gan unrhyw weithredwr;<br>b) Wedi dechrau cyflwyno 5G ym mis Mai 2019 – ar gael mewn dros 70 o drefi a dinasoedd yn y DU erbyn hyn;<br><br>**Bydd y Rhwydwaith Gwledig a Rennir yn gwella canlyniadau defnyddwyr yn sylweddol**<br>a) Cynyddu'r ddarpariaeth 4G yn yr awyr agored i 90% o leiaf yn y DU (mae hyn yn amrywio yn ôl gweithredwr).<br>b) Darpariaeth yn yr awyr agored yn ≥95% gan y gweithredwyr gwasanaethau symudol gyda'i gilydd.<br>c) Darpariaeth newydd yn yr awyr agored i 40,000-140,000 o eiddo (yn amrywio yn ôl gweithredwr), a 4,000-10,000 km o ffyrdd (yn amrywio yn ôl gweithredwr).<br>Bydd y gwelliannau hyn i'r ddarpariaeth yn cael eu cyflawni erbyn mis Mehefin 2026, gyda thargedau interim wedi'u cytuno ar gyfer Mehefin 2024. |
| **Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes** (darparu llinellau ar les yn y DU). | |
| **Adolygiad o'r Farchnad Seilwaith Ffisegol** – i hybu buddsoddiad ar gyfer band eang yn y cartref. | |
| **Adolygiad o Fynediad** – adolygiad statudol o farchnadoedd telegyfathrebiadau. | |
| **Clirio 700MHz** – symud defnyddwyr presennol darllediadau teledu. | |
| **Arwerthu sbectrwm yn y dyfodol** (dyfarnu 700 MHz a 3.6-3.8 GHz) a gwelliannau o ran darpariaeth a gwasanaethau symudol. | |

## Gwell gwasanaethau band eang

Mae cysylltiadau o ansawdd uchel yn bwysicach nawr nag erioed o'r blaen. Mae arnom eisiau sicrhau bod pawb yn gallu cael gwasanaethau band eang cyflym a dibynadwy, ni waeth ble maen nhw'n byw neu'n gweithio.

### Yr effaith ar ddefnyddwyr

Rydym mewn chwyldro cyfathrebu. Mae pobl yn dibynnu mwy ar gysylltiadau band eang sefydlog i'w helpu gyda'u hanghenion bob dydd.

Mae pobl hefyd yn defnyddio mwy o ddata dros eu cysylltiadau sefydlog. Yn 2019, roedd y defnydd o ddata ar linellau sefydlog wedi cynyddu i 315GB ar gyfartaledd fesul cysylltiad bob mis, o 240GB yn 2018.

Mae hyn yn cyfateb yn fras i wylio tair i bedair awr o gynnwys manylder uwch (HD) (ffilmiau, chwaraeon, clipiau fideo) bob dydd. Nid yw'r patrwm yn dangos unrhyw arwyddion o arafu, a bydd yn rhoi straen ar hen rwydweithiau copr y DU dros y blynyddoedd nesaf.

Wrth i fwy a fwy allu cael Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA), bydd nifer yr eiddo sy'n methu cael cysylltiad band eang teilwng yn parhau i ostwng (amcangyfrif o ryw 189,000 o eiddo ym mis Rhagfyr).

Rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabit yw'r dyfodol: rhwydweithiau ffeibr optig gwibgyswllt, sy'n cynnig cyflymder o hyd at 30 gwaith y cyfartaledd ar hyn o bryd, yn ogystal â bod yn fwy dibynadwy.

### Beth rydym wedi'i gyflawni

Ym mis Mawrth 2018, cafodd telerau rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol newydd (USO) eu pennu'n derfynol gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid darparu gwasanaethau a chysylltiadau band eang fforddiadwy ar draws y DU, gyda chyflymder llwytho i lawr o 10 Mbit yr eiliad o leiaf.

Ofcom sy'n gyfrifol am weithredu'r USO. Eleni, rydym wedi penodi BT a KCOM fel darparwyr gwasanaeth cyffredinol band eang. Lansiwyd yr USO ar 20 Mawrth 2020, felly mae defnyddwyr bellach yn gallu gwneud cais am gysylltiad band eang teilwng gan BT neu KCOM.

Mae galluogi cystadleuaeth yn rhan ganolog o'n gwaith. Drwy greu'r amodau cystadleuol iawn i gwmnïau fuddsoddi, rydym yn disgwyl gweld buddsoddiad mewn ffeibr llawn gan rwydweithiau newydd sy'n cystadlu â'i gilydd a BT.

Ein nod yw creu'r amgylchedd rheoleiddio gorau posib i hybu buddsoddiad ac arloesedd.


Ym mis Gorffennaf 2018, roeddem wedi amlinellu cynlluniau i gynnig sicrwydd rheoleiddiol yn y tymor hwy, a chefnogaeth ar gyfer buddsoddiad cystadleuol mewn rhwydweithiau ffeibr ar draws y DU. Fe ddywedon ni y byddwn, erbyn 2021, yn rheoleiddio marchnadoedd busnes a phreswyl mewn ffordd fwy cyfannol, gan gyfuno ein hasesiadau mewn un adolygiad, a fydd yn para am o leiaf bum mlynedd yn hytrach na thair.

Ym mis Ionawr 2020, roeddem wedi rhoi manylion am ein fframwaith rheoleiddio arfaethedig i hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr llawn. Roedd yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol yn cynnwys cynigion i wneud y canlynol:

- **sicrhau bod cwmnïau eraill yn cael mynediad** at bolion telegraff a phibellau tanddaearol Openreach, gan helpu i leihau'r gost ymlaen llaw o adeiladu'r rhwydweithiau hyn i tua hanner;
- **mabwysiadu dulliau gwahanol** o reoleiddio cynnyrch band eang preswyl cyfanwerthol Openreach mewn gwahanol rannau o'r DU, gyda'r nod o greu'r amodau iawn i ysgogi buddsoddiad yn y ddwy ran o'r DU lle rydym yn credu bod rhwydweithiau sy'n cystadlu ag Openreach yn debygol o gael eu hadeiladu, a'r rheini lle mae cystadleuaeth o'r fath yn annhebygol;

**Darpariaeth band eang llinell sefydlog ar draws y DU**

Canran y cartrefi yn y DU sydd bellach yn gallu cael band eang:




Mis Ionawr 2020, nodwyd yn Niweddariad Cysylltu'r Gwledydd Ofcom: Gwanwyn 2020

- **rheoleiddio 'llinellau ar les' Openreach –** cysylltiadau data cyflym a ddefnyddir gan sefydliadau mawr – mewn ffordd debyg i gynnyrch band eang preswyl cyfanwerthol, drwy amrywio ein dull gweithredu yn ôl ardal i adlewyrchu lefel bresennol neu bosib y gystadleuaeth;
- **helpu Openreach i drosglwyddo'n ddidrafferth o'i rwydweithiau copr hŷn** a rhoi'r gorau i'w defnyddio, gan helpu i leihau costau a chynyddu nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio gwasanaethau ffeibr llawn.

Daeth y broses ymgynghori i ben ym mis Mai 2020, ac rydym nawr yn gweithio tuag at gadarnhau ein cynlluniau ddechrau 2021, cyn i'r fframwaith newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2021.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Blaenoriaeth Ofcom yw sicrhau bod rhwydweithiau band eang o ansawdd da yn realiti cenedlaethol, yn enwedig ar gyfer y miloedd o bobl nad ydynt yn gallu cael cysylltiad teilwng ar hyn o bryd.

Pwrpas ein fframwaith rheoleiddio newydd arfaethedig yw cefnogi a hybu'r achos busnes dros ffeibr llawn i ddarparwyr sy'n cystadlu â'i gilydd, yn ogystal ag Openreach.

Ers cyhoeddi ein cynlluniau:

- Mae Openreach wedi mynd ati fesul cam i gynyddu ei darged adeiladu ar gyfer Ffeibr i'r Adeilad, o 3 miliwn erbyn 2021, i 4 miliwn i ddechrau, a 4.5 miliwn o eiddo erbyn hyn. Yn yr un modd, ar ôl datgan bwriad yn wreiddiol i adeiladu hyd at 10 miliwn o eiddo erbyn 2025, yna 15 miliwn erbyn tua 2025, mae'r targed bellach wedi cael ei ymestyn i 20 miliwn o eiddo erbyn canol-diwedd y degawd hwn;
- Mae CityFibre wedi caffael FibreNation, ac wedi ymestyn ei darged i wyth miliwn o eiddo yn hytrach na phum miliwn;
- Mae Virgin Media wedi parhau i adeiladu ar gyfradd gyson;
- Mae Hyperoptic wedi sicrhau prif gyfranddaliwr newydd; ac
- Mae Gigaclear yn bwrw ymlaen â'i fodel busnes penodol mewn ardaloedd gwledig.

Uchelgais y Llywodraeth yw sicrhau bod y wlad i gyd yn gallu cael band eang sy'n gallu delio â gigabit erbyn canol y degawd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant, yn ogystal â'r Llywodraeth ganolog a'r Llywodraethau datganoledig, i ymestyn argaeledd gwasanaethau band eang sylfaenol a ffeibr llawn ar draws y DU.

## Gwell gwasanaethau symudol

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau symudol lle bynnag maen nhw, sy'n eu galluogi i wneud galwadau, i ddefnyddio'r rhyngrwyd, i ffrydio cynnwys ac i ddefnyddio apiau ffonau clyfar.

### Yr effaith ar ddefnyddwyr


A ninnau'n byw mewn cymdeithas o ffonau clyfar heddiw, mae gallu gwneud galwadau a mynd ar-lein pan fyddwn ar grwydr yn rhan hollbwysig o fywydau personol a gwaith pobl. Mae traffig data dros y rhwydweithiau symudol wedi dyblu bron yn ystod y ddwy flynedd hyd at 2019. Fodd bynnag, er bod y ddarpariaeth symudol ar draws y DU yn gwella'n raddol, mae'r ddarpariaeth yn dal yn anghyson mewn rhannau o'r wlad, a gall profiadau defnyddwyr fod yn anghyson.

Er bod y rhan fwyaf o'r wlad yn gallu cael darpariaeth gan o leiaf un cwmni gwasanaethau symudol, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Gall 96 y cant o ardaloedd trefol gael signal 4G gan y pedwar gweithredwr, o'i gymharu â 63% o ardaloedd gwledig.

### Beth rydym wedi'i gyflawni

Ym mis Rhagfyr 2018, roeddem wedi cyhoeddi cynlluniau i ddarparu mwy o sbectrwm i gefnogi'r galw am wasanaethau rhyngrwyd pan fyddwn ar grwydr. Roedd ein hymgynghoriad ar ryddhau 200 MHz o sbectrwm newydd, ar draws y bandiau 700 MHz (80 MHz) a 3.6-3.8 GHz (120 MHz), yn cynnwys cynigion i ymestyn y ddarpariaeth symudol gan ddau weithredwr i o leiaf 90% o holl arwyneb tir y DU o fewn pedair blynedd.

Yn dilyn hyn, mae'r pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol cenedlaethol – BT/EE, O2, Three a Vodafone – wedi datblygu cynnig i'r Llywodraeth gefnogi eu cynllun ar gyfer 'rhwydwaith gwledig a rennir', fel opsiwn yn lle ein cynigion.




Roeddem wedi rhoi cyngor technegol i'r Llywodraeth drwy gydol y broses i drafod telerau'r trefniant hwn, ac rydym bellach wedi amrywio trwyddedau pob gweithredwr gwasanaethau symudol i gynnwys ymrwymiadau rhwymol i sicrhau canlyniadau'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Bydd gennym ni rôl hefyd i adrodd yn ôl yn rheolaidd ar y cynnydd dros y blynyddoedd i ddod, ac asesu cydymffurfiaeth pan ddylai'r rhwymedigaethau gael eu cyflawni.

#### Prif elfennau'r cytundeb rhwydwaith gwledig a rennir

**Mae tair prif elfen i'r cynnig:**

- Byddai gweithredwyr rhwydweithiau symudol yn ymestyn eu darpariaeth eu hunain drwy gau mannau digyswllt rhannol presennol, lle mae rhai gweithredwyr rhwydweithiau symudol – ond nid pob un ohonynt – yn cynnig darpariaeth, ar eu cost eu hunain.
- Byddai hyd at 292 o safleoedd seilwaith symudol sy'n rhan o Rwydwaith Gwasanaethau Brys y Llywodraeth ar gael i'r pedwar gweithredwr, gan sicrhau darpariaeth ychwanegol yn rhai o'r lleoliadau gwledig mwyaf anghysbell.
- Byddai safleoedd newydd yn cael eu hadeiladu mewn nifer o ardaloedd lle nad oes darpariaeth gan unrhyw weithredwr. Byddai'r safleoedd hyn yn derbyn pob gweithredwr gwasanaethau symudol, a byddai'r Llywodraeth yn eu hariannu.

Ym mis Gorffennaf 2019, roeddem wedi cadarnhau cynlluniau i ganiatáu rhannu mynediad mewn nifer o fandiau sbectrwm. Er enghraifft, mae'n bosib rhannu mynediad ar gyfer sbectrwm yn y bandiau 1800 MHz a 2300 MHz, ac mae ffonau symudol presennol yn gallu defnyddio'r sbectrwm hwnnw. Hefyd, mae defnyddwyr bellach yn gallu rhannu mynediad i sbectrwm yn y band 3.8-4.2GHz, lle mae'r ecosystem yn dechrau datblygu. Rydym hefyd wedi caniatáu i drydydd partïon ddefnyddio sbectrwm sydd eisoes wedi'i drwyddedu i weithredwyr gwasanaethau symudol, mewn ardaloedd lle nad ydyn nhw'n defnyddio'r sbectrwm.

Rydym yn agor mynediad i sbectrwm, wrth i dechnolegau di-wifr ddechrau chwarae rôl sylweddol yn nhrawsnewidiad digidol llawer o sectorau'r diwydiant – o weithgynhyrchu, logisteg, mwyngloddio, amaethyddiaeth a dyfeisiau wedi'u cysylltu a fydd yn rhan o'r 'Rhyngrwyd Pethau'. Ym mis Mawrth 2019, roeddem wedi dechrau ar ein rhaglen ymgysylltu â gwahanol sectorau yn y diwydiant, er mwyn rhoi gwybodaeth am rôl technoleg ddi-wifr a helpu sefydliadau i ddeall rôl sbectrwm wrth gyflawni eu hamcanion trawsnewid digidol.

Rydym hefyd wedi bwrw ymlaen â'n rhaglen waith dros y flwyddyn, gan ryddhau rhagor o sbectrwm i hwyluso'r gwaith o lansio gwasanaethau symudol newydd ar gyfer pobl a'r diwydiant, gan gynnwys 5G.

Mae'r cyfuniad o wahanol fandiau sbectrwm yn galluogi gweithredwyr rhwydweithiau symudol i gynyddu capasiti data er mwyn ymdopi â galw sylweddol mewn canolfannau trefol, gan alluogi pobl i gael mynediad mwy dibynadwy i'r rhyngrwyd.

Ar ben hynny, rydym wedi gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Network Rail a nifer o randdeiliaid eraill ynghylch cysylltedd ar drenau. Rydym wedi canolbwyntio ar geisio deall gofynion teithwyr a gweithredwyr o ran cysylltedd ar drenau.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Gallai'r cynllun rhwydwaith gwledig a rennir weld hyd at £1bn o fuddsoddiad gan y Llywodraeth a'r diwydiant dros y blynyddoedd nesaf, i gynyddu'r ddarpariaeth symudol. Byddwn yn monitro cynnydd y gweithredwyr wrth iddyn nhw gyflawni'r ymrwymiadau o ran darpariaeth sydd wedi'u cynnwys yn eu trwyddedau.

Mae'r holl weithredwyr rhwydweithiau symudol yn y DU eisoes wedi lansio gwasanaethau 5G newydd yn y dinasoedd mwyaf. Byddwn yn penderfynu'n derfynol ar y rheolau ar gyfer dyfarnu 200 MHz o sbectrwm newydd ar draws y bandiau 700 MHz a 3.6-3.8 GHz cyn diwedd y flwyddyn, a byddwn yn cynnal yr arwerthiant cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.

Bydd y ffordd y byddwn ni'n mynd ati i'w gwneud yn bosib i rannu mynediad ac i gael mynediad lleol at sbectrwm mewn sawl band yn golygu bod opsiynau cysylltedd di-wifr ar gael ar draws ystod eang o gwmnïau, cymunedau neu sefydliadau. Byddai'r bandiau sbectrwm rydym wedi'u hagor i'w rhannu hefyd yn gallu cael eu defnyddio i ddarparu band eang di-wifr sefydlog, gan helpu i gysylltu cartrefi a busnesau mewn ardaloedd lle mae'n anodd iawn rhoi ceblau yn y ddaear. Bydd cam nesaf ein gwaith yn ystyried potensial dull awdurdodi cwbl awtomatig ar gyfer darparu gwasanaethau di-wifr dros sbectrwm a rennir.

Byddwn yn adrodd yn ôl ar y cynnydd y mae gweithredwyr rhwydweithiau symudol yn ei wneud i gyflawni ymrwymiadau newydd eu trwydded, cyn asesu cydymffurfiaeth pan ddisgwylir i'r ymrwymiadau gael eu cyflawni. A byddwn yn parhau i ystyried sut gallwn ni gynnig rhagor o gymorth i bobl, drwy sicrhau bod yr wybodaeth orau ar gael iddyn nhw drwy ein mapiau darpariaeth ar-lein a'n cyngor i ddefnyddwyr.

## Tegwch i gwsmeriaid

**Sicrhau bod cwsmeriaid band eang, ffôn a theledu yn cael eu trin yn deg**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Ymrwymiadau tegwch** – ymrwymiadau gwirfoddol gan ddarparwyr i drin cwsmeriaid yn deg.<br><br>**Adolygu prisiau band eang a ffonau symudol** – sicrhau prisiau teg a chlir, yn enwedig i'r rheini sydd mewn sefyllfa fregus. | **Hysbysiadau diwedd contract a hysbysiadau blynyddol am y tariffau gorau:**<br>Ers mis Chwefror 2020, mae cwsmeriaid yn cael hysbysiadau 10-40 diwrnod cyn diwedd eu contract yn nodi unrhyw newidiadau i'r pris a'r gwasanaeth, a'r bargeinion gorau sydd ar gael gan eu darparwr. Bydd cwsmeriaid sydd y tu allan i gontract (tua 20m) yn cael hysbysiad tebyg bob blwyddyn am y tariff gorau sydd ar gael. |
| **Proses symlach i newid darparwr gwasanaethau symudol** – helpu cwsmeriaid i newid darparwr drwy brosesau newid symlach.<br><br>Cyflwyno'r mesurau newydd i ddiogelu defnyddwyr yn y **Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd** (EECC)<br><br>**Prosiectau tegwch eraill** – gan gynnwys y fframwaith tegwch, hysbysiadau diwedd contract, Cyfathrebu Agored, cloi ffonau, canllaw ar fregusrwydd. | **Cwsmeriaid â chontractau wedi'u bwndelu ar gyfer ffonau symudol:**<br>Byddai tua 70% o gwsmeriaid sydd y tu allan i gontract wedi'i fwndelu yn gallu arbed £11pm ar gyfartaledd drwy newid i gynllun SIM yn unig (Gorffennaf 2019). Daeth disgowntiau gwirfoddol gan y rhan fwyaf o ddarparwyr i rym ym mis Chwefror 2020.<br><br>**Ymrwymiadau ynghylch prisiau band eang:**<br>Ystod o ymrwymiadau y mae darparwyr band eang wedi cytuno arnynt, sy'n diogelu defnyddwyr sy'n wynebu rhwystrau rhag cael bargen well.<br><br>**Proses symlach i newid darparwr gwasanaethau symudol:**<br>Ers mis Gorffennaf 2019, mae wedi bod yn haws i gwsmeriaid newid darparwr (drwy anfon neges destun). |

Mae marchnadoedd telegyfathrebiadau'r DU ymhlith y rhai mwyaf cystadleuol yn y byd. Ynghyd ag arloesedd yn y farchnad, mae hyn wedi helpu i sicrhau prisiau is, gwasanaeth gwell, darpariaeth ehangach a gwell dibynadwyedd. Ond, mae dewis yn gallu bod yn ddryslyd weithiau. Mae Ofcom eisiau i gwsmeriaid gael bargen deg ar gyfer eu gwasanaethau.

### Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae sicrhau tegwch i gwsmeriaid – yn enwedig y rheini a allai ei chael yn anodd delio â'r farchnad, fel pobl sydd mewn amgylchiadau bregus – yn flaenoriaeth i ni.

### Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym eisiau i gwsmeriaid fanteisio i'r eithaf ar y dewis sydd ar gael, bod yn hyderus wrth chwilio am y fargen orau, a sicrhau pris teg yn unol â'u hanghenion.

O fis Chwefror eleni ymlaen, mae'n rhaid i gwsmeriaid band eang, ffôn a theledu gael gwybod pan fydd eu contract yn dod i ben, a chael gweld y bargeinion gorau sydd ar gael iddyn nhw, gan gynnwys cytundebau SIM yn unig i gwsmeriaid â chontractau ffonau symudol wedi'u bwndelu. Hefyd, bydd yn rhaid atgoffa cwsmeriaid sydd allan o gontract yn barod, a dangos y bargeinion gorau iddyn nhw bob blwyddyn.

Ochr yn ochr â'r rheolau newydd hyn, roeddem wedi sicrhau ymrwymiadau gan ddarparwyr i gyfyngu'r niwed posib i unrhyw gwsmeriaid na fyddant yn ymateb i'r hysbysiadau hyn o bosib, neu sy'n cael trafferth ymgysylltu â'u darparwr.

1. **Codi prisiau clir a theg ar ddefnyddwyr ffonau symudol.**

   Rydym wedi adolygu'r prisiau y mae cwsmeriaid ffonau symudol, sy'n bwndelu eu ffôn a'u hamser sgwrsio gyda'i gilydd, yn eu talu. Gwelsom y byddai tua 1.4 miliwn o gwsmeriaid yn gallu arbed £11 y mis ar gyfartaledd, drwy newid i gytundeb rhatach SIM yn unig. Yn dilyn ein camau penodol ni, cafwyd ymrwymiad gan y prif gwmnïau ffonau symudol – ar wahân i Three – i ostwng eu prisiau ar gyfer cwsmeriaid sydd wedi gorffen cyfnod eu contract cychwynnol.




Rydym hefyd yn ystyried a oes angen i ni weithredu mewn perthynas â chontractau sydd wedi'u 'hollti', lle mae gan y cwsmer gontractau ar wahân ar gyfer ei ffôn a'i amser sgwrsio. Mae'r contractau hyn yn fwy tryloyw o ran prisiau, ac yn cynnig ffordd arall i gwsmeriaid brynu ffonau drud mewn rhandaliadau – ond mae'n bosib y byddan nhw'n clymu cwsmeriaid i gontractau amser sgwrsio sy'n rhy hir, a'i gwneud yn anoddach iddyn nhw newid.

2. **Prisiau teg i gwsmeriaid band eang sydd y tu allan i gontract.**

   Rydym wedi cynnal astudiaeth gynhwysfawr o arferion prisio band eang, er mwyn deall pam mae rhai cwsmeriaid yn talu mwy nag eraill – yn enwedig y rheini a allai fod mewn sefyllfa fregus. Ar ôl dadansoddi 20 miliwn o dariffau cwsmeriaid, gwelsom fod tua 8.8 miliwn o gwsmeriaid y tu allan i gontract, ac y gallent wneud arbedion sylweddol drwy gytuno ar gytundeb newydd gyda'u darparwr presennol (hyd at £8-£9 y mis) neu drwy newid i ddarparwr newydd (hyd at £9-£10 y mis). Er i ni weld nad yw pobl fregus yn fwy tebygol o fod y tu allan i gontract na chwsmeriaid band eang yn gyffredinol, rydym yn dal yn poeni bod rhai defnyddwyr bregus yn talu prisiau uwch.

Unwaith eto, rydym wedi sicrhau sawl ymrwymiad gan gwmnïau band eang mwyaf y DU i leihau prisiau ar gyfer pobl sydd y tu allan i gontract, ac i helpu i ddiogelu cwsmeriaid bregus.

Mae rhai wedi ymrwymo i adolygu prisiau'n flynyddol ar gyfer cwsmeriaid bregus. Mae eraill wedi ymrwymo i leihau'r gwahaniaeth rhwng y prisiau misol y mae cwsmeriaid newydd neu gwsmeriaid sy'n adnewyddu eu contract yn eu talu, a'r prisiau y mae cwsmeriaid sydd y tu allan i gontract yn eu talu.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein hadolygiad o brisiau band eang yn Ch2 2020/21.

Byddwn yn parhau i fonitro ym mhle mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebu, gyda phwyslais arbennig ar wasanaethau band eang, ac yn ystyried a oes angen unrhyw fesurau i helpu defnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus yn ariannol.

Rydym yn parhau i weithio i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth iawn i'w helpu i chwilio am y fargen orau. Rydym yn cyhoeddi ymchwil a data, gan gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth am sut mae darparwyr mewn gwahanol farchnadoedd yn perfformio o ran boddhad cwsmeriaid, cwynion a gwerth am arian;
- gwybodaeth benodol i ddarparwyr am brisiau band eang; ac
- ymgyrchoedd gwybodaeth, fel Y Gorau o'ch Gwesanaeth, i helpu pobl i gael band eang cyflymach ac i arbed arian.

Rydym yn sylweddoli na fydd rhoi'r wybodaeth iawn i bobl bob amser yn ddigon i'w helpu i ddod o hyd i fargen well, yn enwedig os yw'r drafferth o newid darparwr yn eu poeni. Fis Gorffennaf diwethaf, roeddem wedi cyflwyno neges i newid, sy'n golygu bod cwsmeriaid ffonau symudol bellach yn gallu newid darparwr drwy anfon neges destun am ddim.


Roeddem hefyd wedi cyflwyno gwaharddiad ar ffioedd cyfnod rhybudd y tu hwnt i'r dyddiad newid ar gyfer cwsmeriaid ffonau symudol. Ers hynny, rydym hefyd wedi cynnig rheolau newydd i wahardd cwmnïau ffonau symudol rhag gwerthu ffonau sydd wedi'u cloi i'w rhwydwaith.

Rydym wedi'i gwneud yn haws yn y gorffennol i gwsmeriaid band eang ar rwydwaith copr Openreach newid darparwr. Fis Rhagfyr diwethaf, roeddem wedi cynnig rheolau newydd i'w gwneud yn haws i newid gwasanaethau band eang rhwng rhwydweithiau gwahanol neu rhwng darparwyr gwasanaethau band eang ffeibr llawn ar yr un rhwydwaith. Roeddem hefyd wedi cynnig gwahardd ffioedd cyfnod rhybudd y tu hwnt i'r dyddiad newid ar gyfer cwsmeriaid band eang.

Mae'r holl waith yma wedi'i seilio ar ymdrech i sicrhau bod darparwyr yn rhoi tegwch yn gyntaf – dylai arferion da fod wrth galon busnes pob darparwr.

Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi sicrhau ymrwymiadau newydd ynghylch tegwch gan bob un o'r cwmnïau mwyaf ar gyfer band eang, ffôn a theledu drwy dalu yn y DU. Rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad cynnydd yn yr hydref, i ddweud a yw cwmnïau'n cadw at eu haddewidion. Er mwyn ein helpu i fod yn gliriach am ein dull gweithredu, rydym hefyd wedi cyhoeddi 'fframwaith tegwch' newydd, sy'n egluro sut rydym yn bwriadu asesu materion tegwch a'r mathau o bryderon a allai wneud i ni ymyrryd.






Rydym hefyd wedi ymgynghori ar becyn newydd o fesurau diogelu defnyddwyr er mwyn gweithredu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC), sef Cyfarwyddeb newydd gan yr UE sy'n diweddaru'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu. Yn ogystal â rhai o'r mesurau sydd wedi'u hamlinellu uchod, roeddem hefyd wedi amlinellu cynlluniau i wneud y canlynol:

- Cryfhau'r wybodaeth mewn contractau a'r hawliau i adael contract. Dylai cwsmeriaid gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn ysgrifenedig, cyn iddyn nhw lofnodi contract. Roeddem hefyd yn cynnig rhoi'r hawl i gwsmeriaid adael eu contract os bydd unrhyw newidiadau i'w contract nad ydynt yn elwa arnynt; a

- Sicrhau bod cwsmeriaid ag anableddau yn cael mynediad cyfatebol at wasanaethau cyfathrebu, a dewis cyfatebol o'r gwasanaethau hynny. Roeddem yn cynnig bod pob darparwr gwasanaethau ffôn a band eang yn galluogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i gysylltu â'r gwasanaethau brys gan ddefnyddio gwasanaethau cyfnewid fideo, a bod yr holl ohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch os bydd cais am hynny.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Os nad yw cwmnïau'n trin cwsmeriaid yn deg, byddwn yn camu i mewn ac yn cymryd camau. Bydd ein hadroddiadau rheolaidd ar brofiadau cwsmeriaid – gan gynnwys y prisiau maen nhw'n eu talu – yn helpu i dynnu sylw at arferion annheg.

Rydym yn dal i wneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg, yn talu prisiau teg ac yn gallu manteisio'n rhwydd ar y bargeinion sydd ar gael iddyn nhw.  Yn ogystal â monitro effaith y newidiadau rydym wedi'u gwneud neu eu cynnig, byddwn yn helpu i wella'r ffordd mae darparwyr yn canfod ac yn cynorthwyo cwsmeriaid bregus.

Byddwn yn cynnal adolygiad o'n cynllun iawndal awtomatig yn nes ymlaen eleni. Cafodd hyn ei gyflwyno ym mis Ebrill 2019, ac mae'n golygu bod cwsmeriaid llinell dir a band eang yn cael arian yn ôl gan eu darparwyr heb orfod gofyn amdano os bydd oedi cyn trwsio, peirianwyr yn methu apwyntiadau, ac oedi gyda gwaith gosod.

## Cefnogi darlledu yn y DU

**Helpu darlledwyr i ffynnu, a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael gwasanaeth da drwy raglenni o ansawdd uchel**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Trafodaeth Fawr: Sgrin Fach** – cynaliadwyedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth ystyried bod technegau digidol yn cael eu defnyddio fwy a mwy. | Rydym yn gofyn cwestiynau sylfaenol am ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC), ac yn annog trafodaeth genedlaethol – am yr hyn y dylai ei gyflawni, sut dylai gael ei gyflawni a'i ariannu, a pha adnoddau rheoleiddio a pholisi fydd eu hangen i sicrhau bod cynnwys DGC yn dal i gael ei ddarparu yn y dyfodol. |
| **Amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus** – diogelu amlygrwydd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar wahanol lwyfannau. | **Canlyniadau DGC:**<br>(a) Mae arferion gwylio wedi newid yn sylfaenol, wrth i lefelau gwylio teledu byw barhau i ostwng, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau. Roedd yr amser a dreulir bob dydd yn gwylio teledu a ddarlledir wedi gostwng 5.4% i 3 awr 12 munud ar gyfartaledd ar gyfer yr holl oedolion, o'i gymharu â 15% o ostyngiad i 1 awr 25 munud ar gyfer y grŵp oedran 16-24 oed.<br>(b) Mae cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gyda 74% o gynulleidfaoedd yn fodlon â darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a'r sianeli yn cyfrif am 55% o'r amser gwylio.<br>(c) Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn allweddol i economi greadigol y DU hefyd, gan fuddsoddi £815m mewn dros 32,000 awr o gynnwys gwreiddiol o'r DU, buddsoddi mewn cynhyrchwyr ar draws y Gwledydd a'r Rhanbarthau, a denu buddsoddiad trydydd parti. Fodd bynnag, wrth i ymddygiad cynulleidfaoedd barhau i newid, mae cyfryngau darlledu, ar-lein ac ar-alw eraill hefyd yn chwarae rôl bwysig drwy roi dewis i gynulleidfaoedd a buddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU.<br>(d) boddhad cynulleidfaoedd (darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus) – ar hyn o bryd, mae 73% o wylwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon, sy'n llai na'r ffigur yn 2014, sef 79%. |
| Rhaglen Monitro Cystadleuaeth y BBC. | |
| Rheoleiddio Gweithgareddau Masnachol a Masnachu'r BBC. | |
| Adolygiad Newyddion / Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Perfformiad y BBC. | |

### Dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus – Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr

Mae gan Ofcom rôl i sicrhau bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC) y DU yn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd.

Ym mis Chwefror roeddem wedi cyhoeddi 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Adolygiad pum mlynedd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus', a oedd yn rhoi ein barn ni am berfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus rhwng 2014 a 2018.

Roedd yr adolygiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau yn ein hail adroddiad Cyfryngau'r Genedl – a gyhoeddwyd yr haf diwethaf – a oedd yn adolygu tueddiadau allweddol yn y sector teledu a fideo, yn ogystal â'r sector radio a sain. Ar wahân i hyn, rydym hefyd wedi cyhoeddi adolygiad pum mlynedd ynghylch a yw Corfforaeth Channel 4 yn cyflawni ei dyletswyddau mewn perthynas â chynnwys cyfryngau.

Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi rhoi ein barn bod DGC ar groesffordd allweddol, wrth ystyried y newid mewn ymddygiad cynulleidfaoedd a'r ffaith bod mwy a mwy o gystadleuaeth gan ddarparwyr cynnwys byd-eang. Roeddem wedi penderfynu mai dyma'r adeg iawn i ystyried cwestiynau sylfaenol am ddyfodol DGC, ac ym mis Gorffennaf 2019 aethom ati i lansio trafodaeth genedlaethol i drafod dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – sef Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr. Ers hynny, rydym wedi trefnu trafodaethau â chynulleidfaoedd, darlledwyr, cwmnïau cynhyrchu, y Llywodraeth, Senedd y DU, cyrff yn y diwydiant, cynrychiolwyr cenedlaethol a rhanbarthol, ac eraill. Mae mwy o wybodaeth am ddatblygiad y drafodaeth hon ar gael ar wefan benodol y drafodaeth:




https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/cymru/home.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn ni'n bwrw ymlaen ag amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, gan ofyn beth ddylai DGC ei gyflawni, sut dylai gael ei gyflawni a'i ariannu, a pha adnoddau rheoleiddio a pholisi fyddai eu hangen i sicrhau bod cynnwys DGC yn dal i gael ei ddarparu yn y dyfodol. Rydym hefyd yn ystyried effaith Covid-19 ar y diwydiant, ac ar y berthynas rhwng cynulleidfaoedd a DGC.

Bydd y trafodaethau ym mhob un o wledydd y DU, ynghyd â'n hymchwil, ein dadansoddiadau a thystiolaeth bellach gan randdeiliaid yn cyfrannu at ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer dyfodol DGC, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ymgynghoriad cyn diwedd 2020. Byddwn wedyn yn gwahodd safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch yr opsiynau hyn, cyn gwneud argymhellion i'r Llywodraeth yn 2021.

## Adolygu'r canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynyrchiadau y tu allan i Lundain

Ym mis Mehefin 2019, roeddem wedi cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ynghylch ein hadolygiad o gynyrchiadau rhanbarthol, ac wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyflawni eu cwotâu ar gyfer rhaglenni a wneir y tu allan i Lundain.

Mae'r newidiadau rydym wedi'u gwneud yn cynnwys cryfhau'r meini prawf sy'n diffinio cynhyrchiad rhanbarthol, eithrio cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo rhag cael ei ystyried ar gyfer y cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol, a rhoi mwy o wybodaeth yn y canllawiau ynghylch pob maen prawf a sut dylid eu rhoi ar waith. Er mwyn gwella cydymffurfiad a helpu i orfodi hyn, rydym hefyd wedi cyflwyno archwiliadau yn y fan a'r lle a threfn adrodd gliriach.

Bydd y canllawiau newydd yn dod i rym ar gyfer rhaglenni a ddarlledir o fis Ionawr 2021 ymlaen. Yn ein barn ni, bydd ein pecyn o newidiadau'n golygu bod mwy o fanylder ac atebolrwydd yn y drefn, gan sicrhau ei bod yn cyflawni bwriad y polisi'n well, sef cefnogi ac ysgogi'r economïau creadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

## Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4

Mae Corfforaeth Channel 4 (C4C) yn llunio Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol, sy'n egluro sut roedd y Gorfforaeth wedi cyflawni ei chylch gwaith ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus a'i dyletswyddau cynnwys cyfryngau yn ystod y flwyddyn flaenorol, a sut mae'n bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn i ddod. Rhaid i C4C drafod â ni wrth baratoi'r Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau, a byddwn ni'n cyhoeddi ymateb bob blwyddyn.

Roeddem wedi cyhoeddi ein hymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2018 C4C pan gyhoeddodd ei Adroddiad Blynyddol fis Mehefin diwethaf. Roeddem ni o'r farn bod C4C wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n dda yn 2018 mewn sawl elfen bwysig, gan gynnwys gwariant ar raglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ei fuddsoddiadau mewn cynnwys sy'n apelio at blant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, ei ymrwymiad i raglenni sy'n ymwneud ag amrywiaeth, a pherfformiad Film4 Productions. Roeddem wedi nodi rhai elfennau lle gallai C4C wneud mwy. Er enghraifft, nid oedd yn dangos cymaint o syniadau newydd ar y sgrin, nac yn gweithio gyda chymaint o gynhyrchwyr gwahanol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Yn ogystal â'n hadolygiad blynyddol o berfformiad C4C, eleni byddwn yn ystyried cyfraniad C4C at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac a oes angen newid ei rwymedigaethau yn y dyfodol a sut bydd angen gwneud hynny, fel rhan o'n rhaglen waith Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.

## Adolygiad o'r cynnwys i blant

Cafodd DGC ei ddylunio gan Senedd y DU i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu mwynhau amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol ar gyfer plant.


Ym mis Gorffennaf 2019, roeddem wedi cyhoeddi ein barn ar ymatebion ITV, Corfforaeth Channel 4 a Channel 5 i'n Hadolygiad o Gynnwys i Blant. Roedd pob darlledwr wedi gwneud ymrwymiad o'r newydd ar gyfer cynnwys i blant, drwy greu a buddsoddi mwy mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu cynhyrchu'n arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn y DU, gan gynnwys rhaglenni sy'n defnyddio actorion, adloniant a newyddion.

Rydym ni'n teimlo bod eu cynlluniau, gyda'i gilydd, wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon roeddem wedi tynnu sylw atynt yn ein hadroddiad yn 2018. Mae cynlluniau'r darlledwyr hefyd yn adlewyrchu'r llu o wahanol ffyrdd mae cynulleidfaoedd iau yn gwylio cynnwys DGC erbyn hyn – yn fyw, ar-alw ac ar-lein – ac mae hynny'n bwysig iawn.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r darlledwyr wrth iddyn nhw gyflawni eu cynlluniau, yn ogystal â monitro defnydd plant a'u hagweddau tuag at DGC.

## Amlygrwydd DGC a diweddaru'r Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG)

Ym mis Gorffennaf 2019, roeddem wedi cyhoeddi datganiad yn diwygio'r adran amlygrwydd yn y Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig Llinol. Rydym wedi diwygio'r Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig i sicrhau ei bod yn dal yn hawdd dod o hyd i'r pum prif sianel DGC (BBC1, BBC2, gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5). Rydym hefyd wedi pennu lefelau sylfaenol o amlygrwydd ar gyfer gwasanaethau teledu lleol a




DGC eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod gwylwyr yn dal yn gallu dod o hyd i sianeli DGC yn hawdd, ac yn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i rai gwasanaethau DGC. Disgwylir y bydd yr adrannau diwygiedig hyn o'r Cod yn dod i rym ar 4 Ionawr 2021.

Ochr yn ochr â'n diwygiad i'r Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig, roeddem hefyd wedi cyhoeddi ein hargymhellion i'r Llywodraeth i ddiogelu amlygrwydd gwasanaethau ar-alw, llinol a DGC ar-lein. Ers hynny, rydym wedi cydweithio'n helaeth â rhanddeiliaid y diwydiant a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, i ystyried sut byddai'r rheolau newydd hyn ar amlygrwydd yn gweithio'n ymarferol. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant ynghylch a fyddai'n ddymunol cael rheolau newydd sy'n gwarantu bod cynnwys ar-alw DGC ar gael. Bydd y trafodaethau hyn yn llywio'r opsiynau ar gyfer dyfodol DGC, fel rhan o raglen waith Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.

## Disgwyliadau cynulleidfaoedd mewn byd digidol

Mae'n bwysig bod y rheolau rydym yn eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau darlledu ac ar-alw yn adlewyrchu disgwyliadau ac ymddygiad gwylio defnyddwyr wrth iddyn nhw newid.

Roeddem wedi comisiynu Ipsos MORI i gynnal ymchwil ansoddol i'n helpu i ddeall sut mae agweddau cynulleidfaoedd at safonau cynnwys yn newid, a'u profiadau o raglenni ar wahanol lwyfannau – gan gynnwys teledu, radio, ar-alw, gwasanaethau tanysgrifio a rhannu fideos.

Rhai o ganfyddiadau'r ymchwil, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, oedd bod y rheini a gymerodd ran o'r farn:

- mai cynnwys sy'n annog troseddu ac iaith casineb yw'r cynnwys mwyaf difrifol;
- y dylid blaenoriaethu cynnwys niweidiol dros gynnwys tramgwyddus;
- ond bod cynnwys tramgwyddus sy'n codi materion yn ymwneud â gwahaniaethu yn peri pryder, ac y dylid blaenoriaethu hynny hefyd.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Ofcom.

Mae darn ar wahân o waith ymchwil ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cael ei gomisiynu, gyda phwyslais ar niwed a thramgwyddo.

## Diogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio

Ddechrau 2019, roedd Bwrdd Cynnwys Ofcom wedi dechrau ystyried a ddylai darlledwyr orfod diogelu lles pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni. Yn dilyn hynny, ac yn dilyn adroddiadau newyddion am The Jeremy Kyle Show, roeddem wedi ymgynghori ym mis Gorffennaf 2019 ar reolau newydd arfaethedig i helpu i ddiogelu lles pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, gan gynnwys rhaglenni realaeth ar y teledu. Roedd ein rheolau arfaethedig yn seiliedig ar y cysyniad o 'ofal priodol'.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Medi 2019. Er bod cefnogaeth fawr i'n nodau polisi, mynegwyd pryderon ynghylch ai'r rheolau arfaethedig hynny oedd y ffordd orau o gyflawni'r nodau. Ar ôl ystyried y pwyntiau a gyflwynwyd, ym mis Mawrth 2020 cyhoeddwyd ymgynghoriad arall yn gofyn am farn ar gynigion diwygiedig. Ein nod yw cyhoeddi Datganiad, rheolau newydd a chanllawiau manwl yn ystod Hydref 2020.

## Gwneud gwasanaethau rhaglenni ar-alw a theledu yn fwy hygyrch

Er mwyn i bobl sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw allu mwynhau gwylio'r teledu, maen nhw'n dibynnu ar wasanaethau mynediad o ansawdd uchel (isdeitlau, arwyddo neu ddisgrifiadau sain).


Er bod llawer o ddarlledwyr yn gorfod sicrhau bod eu rhaglenni'n hygyrch, nid yw'r un peth yn wir am wasanaethau a darparwyr ar-alw.

Eleni rydym wedi bod yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS), grwpiau defnyddwyr a'r Llywodraeth i weld sut dylai rheoliadau sydd ar y gweill wneud y gwasanaethau hyn yn fwy hygyrch. Ym mis Rhagfyr 2019, ysgrifennodd y Llywodraeth atom yn gofyn i ni gynnal ail ymgynghoriad ar rai agweddau ymarferol ar y gofynion, ac ar ôl hynny byddwn yn gwneud argymhellion pellach i'r Llywodraeth.

Maes o law, rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau i'n canllawiau arfer gorau ar hygyrchedd teledu, gan eu hymestyn i gynnwys canllawiau ar gyfer darparwyr ar-alw.

# Y BBC

## Adolygu cynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC




Yn 2019, roeddem wedi cyhoeddi adolygiad manwl o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC. Roeddem wedi holi pobl am eu harferion newyddion, beth sy'n bwysig iddyn nhw am y cynnwys newyddion a materion cyfoes maen nhw'n ei wylio, yn ei ddarllen ac yn gwrando arno, a'r rôl mae newyddion a materion cyfoes y BBC yn ei chwarae yn eu bywydau.

Er gwaethaf sefyllfa wleidyddol ansicr roeddem wedi casglu bod y BBC, at ei gilydd, wedi cynnal ei enw da am ohebu'n gywir ac yn ddibynadwy, ac mai at y BBC y mae pobl yn troi o hyd i gael gwybodaeth am ddigwyddiadau mawr a chyfredol. Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi safon newyddiaduraeth y BBC.

Ond, i rai roedd hanes unigryw'r BBC yn gryfder, ac i eraill roedd y dreftadaeth hon yn gwneud iddyn nhw gwestiynu didueddrwydd y BBC wrth ohebu. Gwelsom hefyd y gallai'r BBC wneud yn well wrth gynrychioli'r DU i gyd. O ran y ddarpariaeth ar-lein, daethom i'r casgliad bod angen i BBC News wneud mwy i sefyll allan, neu bydd mewn perygl o golli ei enw da a'i statws fel llais dibynadwy.

Rydym wedi parhau i gydweithio â'r BBC ar y camau mae'n eu cymryd i ymateb i bob un o'n hargymhellion. Er mwyn sicrhau tryloywder, rydym yn disgwyl i'r BBC adrodd yn ôl ar y cynnydd mae'n ei wneud ar yr argymhellion hyn yn ei adroddiad blynyddol nesaf.

## Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC

Yn 2018/19, roeddem wedi rhoi cyfarwyddyd i'r BBC gynnal Prawf Lles y Cyhoedd (PIT) ar ei newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer, a oedd yn cynnwys darparu pob rhaglen newydd ar BBC iPlayer am 12 mis fel mater o drefn.

Ym mis Ebrill 2019 dywedodd y BBC fod y cynigion yn bodloni Prawf Lles y Cyhoedd, gan y byddai'r gwerth cyhoeddus y byddai'r newidiadau yn ei sicrhau i gynulleidfaoedd yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Roeddem wedi cynnal asesiad cystadleuaeth ac wedi gofyn am dystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch sut byddai cynigion y BBC yn effeithio ar eu cynlluniau buddsoddi neu eu busnesau presennol. Penderfynwyd y dylai'r BBC allu bwrw ymlaen â'i gynigion, yn unol ag amodau a chanllawiau, oherwydd ei bod yn hollbwysig yn ein barn ni bod y BBC yn gallu datblygu'r iPlayer er mwyn bodloni disgwyliadau

## Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC

Rydym yn monitro cydymffurfiad y BBC â'n gofynion masnachu a gwahanu er mwyn sicrhau nad yw ei weithgareddau masnachol yn ystumio'r farchnad nac yn cael mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i'w perthynas â'r gwasanaeth cyhoeddus.

Rydym hefyd yn asesu newidiadau i'r gweithgareddau masnachol i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol. Yn 2019/20, roeddem wedi cynnal dau asesiad o'r fath.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd ITV a'r BBC eu bod yn bwriadu lansio gwasanaeth tanysgrifiad fideo ar-alw yn y DU o'r enw BritBox, i ddod â rhaglenni gorau Prydain at ei gilydd. Roedd rhan y BBC yn y gwasanaeth yn cynnwys ei gangen fasnachol yn dal cyfran o 10%, a chytundeb sylweddol â BBC Studios i gyflenwi cynnwys.

Ar ôl ymgynghori, daethom i'r casgliad nad oedd trefniadau BritBox yn newid sylweddol i weithgareddau masnachol y BBC. Ond, byddwn yn monitro'r datblygiadau'n ofalus (yn enwedig o ran sut mae'r BBC yn darparu rhaglenni ar wasanaethau masnachol, ac unrhyw drawshyrwyddo gan y gwasanaeth cyhoeddus i BritBox) ac mae modd i ni gamu i mewn os bydd pryderon yn codi. Yn dilyn hynny, lansiodd ITV a'r BBC y gwasanaeth ffrydio newydd, BritBox, ym mis Tachwedd 2019.

Hefyd, cyhoeddodd BBC Studios a Discovery eu bod yn diddymu eu menter ar y cyd, UKTV, ym mis Ebrill 2019. O dan delerau'r cytundeb hwn, roedd gan Discovery reolaeth lwyr dros y sianeli ffordd o fyw, ac roedd gan BBC Studios reolaeth lwyr dros y sianeli adloniant, brand UKTV ac UKTV Play, gwasanaeth dal-i-fyny.

Daethom i'r casgliad y byddai ein rheolau masnachu a gwahanu yn ddigon i ddiogelu rhag y posibilrwydd o ystumio'r farchnad o gwbl, neu o fantais annheg yn sgil y cytundeb hwn.

## Adolygiad o BBC Studios

Cafwyd oedi cyn dechrau ar ein hadolygiad o BBC Studios gan fod ei sefyllfa yn y farchnad a'i sefyllfa fasnachol yn newid, er mwyn i ni allu ystyried y newidiadau i BBC Studios yn dilyn cytundebau BritBox ac UKTV, yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o BBC Studios. Rydym bellach yn bwriadu cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad hwn yn Ch4 2020/21.

## Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC

Ym mis Hydref 2019, roeddem wedi cyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ar y BBC, a oedd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.




Roedd yr adroddiad hwn yn egluro sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau fel rheoleiddiwr annibynnol y BBC, ac yn asesu cydymffurfiad y BBC â'i ofynion rheoleiddio.

Roeddem hefyd wedi cyhoeddi adroddiad manwl a oedd yn mesur perfformiad y BBC o ran ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei holl wasanaethau a chynnwys, ac yn rhoi barn gyffredinol ynghylch i ba raddau mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd.

At ei gilydd, gwelsom fod y BBC yn dal yn rhan ganolog o'r cyfryngau a'r gwasanaethau newyddion y mae cynulleidfaoedd yn eu defnyddio, drwy amrywiaeth ac ansawdd ei arlwy ar draws ei wasanaethau niferus. Mae'n darparu llawer iawn o gynnwys newyddion a materion cyfoes, amrywiaeth eang o gynnwys dysgu ac addysgol, yn ogystal â chynnwys creadigol ac unigryw o ansawdd uchel i bawb ar draws ei wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol.

Fodd bynnag, gwelsom hefyd fod y pryderon yr oeddem wedi'u codi ar ran cynulleidfaoedd y llynedd yn dal yn bodoli. Er bod y BBC wedi cymryd rhai camau i fynd i'r afael â materion roeddem wedi'u codi o'r blaen, fe ddywedom ein bod yn disgwyl i'r BBC fynd ati'n awr i amlinellu cynllun eglur i fynd i'r afael â themâu sy'n codi'n gyson.

Rydym yn disgwyl i'r BBC ganolbwyntio ar y canlynol yn benodol:

### Cymryd camau pwysig i ennyn diddordeb pobl ifanc

Fel pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae'r newidiadau cyflym yn y sector cyfryngau yn effeithio ar y BBC, yn enwedig wrth iddo gael trafferth denu a dal gafael ar gynulleidfaoedd iau. Os na all fynd i'r afael â hynny, bydd mewn perygl o fethu cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus i'r un lefel yn y dyfodol.

### Parhau i wella sut mae'n cynrychioli ac yn portreadu cymdeithas y DU i gyd

Roeddem wedi cydnabod bod y BBC yn arwain y ffordd o ran casglu data am amrywiaeth y gweithlu, a bod ganddo nifer o gynlluniau ar waith i wella amrywiaeth.

Fodd bynnag, dangosodd ein gwaith ymchwil fod rhai grwpiau yn dal yn anfodlon â'r ffordd maen nhw'n cael eu cynrychioli a'u portreadu gan y BBC.

Fe ddywedom fod angen i'r BBC egluro'n fanylach beth yw ei gynllun i sicrhau bod cymdeithas y DU i gyd yn cael ei chynrychioli a'i phortreadu'n well, gan gynnwys sut mae'n ymateb i ganfyddiadau penodol i'n hadolygiad a gynhaliwyd y llynedd.

### Sicrhau bod ei arferion gwaith yn dryloyw

Gwelsom enghreifftiau da o'r BBC yn ymgysylltu ag Ofcom mewn ffordd fwy tryloyw ynghylch rhai o'i newidiadau arfaethedig i'w wasanaeth, er enghraifft BritBox, ac roeddem yn croesawu'r gwelliannau mae wedi'u gwneud i'w drefniadau llywodraethu.

Fodd bynnag, roeddem yn dal i weld enghreifftiau lle nad yw'r BBC yn rhoi digon o ystyriaeth i'r angen i ymgysylltu'n allanol er mwyn asesu'n llawn oblygiadau ei gynigion i'r sector darlledu. Bydd ymgysylltu'n frwd â'r diwydiant ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r BBC yn galluogi'r BBC i gyflawni ei ddyletswydd i geisio osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth nad ydynt yn angenrheidiol, er mwyn cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol.

Gwelsom hefyd fod diffyg tryloywder o ran y ffordd mae'r BBC yn rhyddhau ac yn esbonio ei benderfyniadau am gydymffurfio â'r Cod Darlledu.

Rydym yn gweithio ar ofynion newydd i'r BBC er mwyn helpu i feithrin ymddiriedaeth yn ei benderfyniadau yn yr elfen hon.

## Trwyddedau darlledu

Mae'r cyfle i gannoedd o orsafoedd radio lleol bach ddechrau darlledu'n ddigidol wedi dod yn nes o lawer eleni. Pasiwyd deddf gan Senedd y DU a fydd yn rhoi'r pŵer i Ofcom gyhoeddi trwyddedau ar gyfer DAB ar raddfa fach, ac roeddem wedi ymgynghori ynghylch sut rydym yn bwriadu defnyddio'r pwerau newydd hyn. Byddwn yn cyhoeddi maes o law pryd rydym yn disgwyl dechrau gwahodd ceisiadau.

Rydym wedi parhau i drwyddedu gwasanaethau teledu a radio dros y flwyddyn diwethaf i ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i wylwyr a gwrandawyr – daeth ceisiadau i law ar gyfer bron i 200 o wasanaethau teledu, radio digidol a radio tymor byr. Rydym hefyd wedi trwyddedu 12 o wasanaethau radio cymunedol newydd, ac mae 17 o wasanaethau radio cymunedol newydd wedi cael eu lansio – bydd pob un ohonyn nhw'n darparu gorsaf radio â phwyslais lleol ar gyfer eu cymuned.

Yn dilyn ein gwahoddiad i drwyddedeion radio cymunedol presennol wella ac ymestyn ardal eu darpariaeth, rydym wedi cymeradwyo dros 100 o geisiadau am welliannau ac estyniadau i ardaloedd darpariaeth. Bydd y penderfyniadau hyn yn galluogi'r gwasanaethau presennol i naill ai wella ansawdd y signal yn ardal eu darpariaeth, neu i gyrraedd mwy o wrandawyr. Mae'r ddwy elfen yn arwain at fanteision amlwg i wrandawyr.

Rydym hefyd wedi asesu ac ymchwilio i ychydig dros 500 o achosion a oedd yn ymwneud â darlledwyr radio a theledu yn peidio â chyflawni rhwymedigaethau eu trwydded, a arweiniodd at gyhoeddi 249 o ganfyddiadau o dorri amodau. Mae'r gwaith hwn yn bwysig er mwyn sicrhau bod ein trwyddedeion yn parhau i fodloni gofynion penodol sydd wedi'u nodi yn amodau eu trwydded – yn benodol, bod darlledwyr radio yn cynnal cymeriad eu gwasanaeth trwyddedig, tra bo darlledwyr teledu yn darparu is-deitlau, arwyddo a disgrifiadau sain i sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch. Mae'r gwaith hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn dal yn gallu cael gafael ar ystod eang o wasanaethau teledu a radio o ansawdd uchel.

## Safonau darlledu

Rydym wedi parhau i warchod cynulleidfaoedd drwy orfodi'r Cod Darlledu. Eleni rydym wedi cofnodi 82 achos o dorri'r Cod, ac wedi rhoi saith sancsiwn i ddarlledwyr, gyda chwech o'r rheini yn gosbau ariannol.

Roedd y rhain yn cynnwys dirwy o £75,000 i Talk Radio, gorsaf radio llafar genedlaethol, am beidio â dangos didueddrwydd dyladwy. Hefyd, rhoddwyd dirwy o £200,000 i sianel deledu RT am saith achos o dorri rheolau didueddrwydd dyladwy.

Rhoddwyd dirwy o £25,000 i sianel deledu Ben TV am beidio â gwarchod gwylwyr yn ddigonol rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol, oherwydd bod y sianel wedi gwahodd y gwylwyr i archebu 'dŵr ffynnon gwyrthiol am ddim' gan honni, neu awgrymu'n gryf, y gallai wella salwch difrifol.

Rhoddodd Ofcom ddirwyon o £200,000 a £100,000 i gyn-ddeiliaid trwydded Peace TV Urdu a Peace TV am dorri ein rheolau ynghylch troseddu, anhrefn, casineb a cham-drin. Canfu ein hymchwiliadau fod rhaglenni a ddarlledwyd ar y sianeli teledu lloeren rhyngwladol – sy'n darlledu rhaglenni crefyddol o safbwynt Islamaidd – yn cynnwys iaith casineb a chynnwys tramgwyddus iawn a oedd, mewn un achos, yn debygol o gymell troseddu.

Ar ôl achosion pellach o dorri amodau, aeth Ofcom ati i atal trwydded Peace TV Urdu ym mis Tachwedd 2019, a chafodd y ddwy drwydded eu hildio.

Rydym wedi gweld cynnydd yn y mathau hyn o achosion, sy'n gymhleth iawn ac yn aml yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau, fel rydym yn sôn yn yr adran ar ein perfformiad o safbwynt Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019, roedd Ofcom wedi cyflymu ac asesu 2,124 o gwynion am raglenni etholiadol. Bu ein Pwyllgor Etholiadau, sy'n cynnwys aelodau o Fwrdd Ofcom a'r Bwrdd Cynnwys, yn asesu cwyn gan y Blaid Geidwadol am y Ddadl ar Newid yn yr Hinsawdd gan Channel 4 News, a'i benderfyniad i ddefnyddio cerflun iâ yn lle'r Prif Weinidog, a ddewisodd beidio â chymryd rhan. Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd y rhaglen wedi codi materion a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad.

Mewn achosion lle mae diddordeb sylweddol ymysg y cyhoedd, ac er mwyn rhoi gwybodaeth i ddarlledwyr, rydym weithiau'n cyhoeddi ein penderfyniadau asesu. Roedd un o'r rhain yn ymwneud â thrafodaeth ar BBC Breakfast rhwng y cyflwynwyr, Naga Munchetty a Dan Walker, am sylwadau gan Donald Trump, Arlywydd UDA, am bedair cyngreswraig yn UDA. Er ein bod o'r farn nad oedd y drafodaeth wedi codi materion a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad o dan ein rheolau didueddrwydd dyladwy, roeddem wedi pwysleisio ein pryder am y diffyg tryloywder cyffredinol ym mhroses gwyno'r BBC a'r penderfyniadau mae'n eu gwneud. Rydym yn croesawu'r camau cadarnhaol mae'r BBC yn eu cymryd yn awr o ran tryloywder y penderfyniadau mae'n eu cyhoeddi ynghylch cwynion.

Rydym hefyd yn ystyried cwynion gan bobl sy'n credu iddynt gael eu trin yn annheg ar raglen, neu sydd o'r farn y tarfwyd ar eu preifatrwydd heb gyfiawnhad. Yn yr achosion hyn, mae Ofcom yn gweithredu fel dyfarnwr rhwng yr unigolyn a'r darlledwr.

## Codi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein

**Datblygu a rhannu arbenigedd i warchod rhag niwed ar-lein; helpu pobl i ddefnyddio a deall cyfryngau a chyfathrebiadau'n well**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Llwyfannau Rhannu Fideo a Niwed Ar-lein** – gwaith paratoi ar gyfer rheoleiddio niwed ar-lein, a chyflawni dyletswyddau Ofcom o ran llwyfannau rhannu fideo. | Monitro ymwybyddiaeth defnyddwyr a'u defnydd o adnoddau ar-lein drwy ymchwilio'n barhaus i niwed ar-lein, a pharhau i gydweithio â rhanddeiliaid – gan gynnwys drwy rwydwaith a Phanel Cynghori Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.<br><br>Llunio barn ar y ffordd orau o werthuso effaith gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau drwy ein gwaith 'Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau'. |
| **Llythrennedd yn y Cyfryngau** – Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) – cefnogi oedolion a phlant yn y DU ar-lein, drwy waith ymchwil a chydweithio â rhanddeiliaid. | |
| **Marchnadoedd Ar-lein** – gwaith archwiliadol ynghylch cystadleuaeth ar-lein, gan gynnwys pwerau presennol. | |

Mae bron i 9 o bob 10 oedolyn yn y DU yn mynd ar-lein, gyda 64% yn dweud ei fod yn rhan hanfodol o'u bywyd. Wrth i'r rhyngrwyd ddod yn bwysicach i bobl, maen nhw'n treulio mwy o amser ar-lein. Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn treulio 24 awr yr wythnos ar-lein ar gyfartaledd, sydd bron ddwywaith yr amser a gofnodwyd yn 2007.

### Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae mwy a mwy o bryderon am warchod pobl ar-lein. Dangosodd ymchwil ar y cyd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod dros bedwar o bob pum oedolyn sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn poeni am fynd ar-lein. Mae rhai o'r pryderon hynny'n ymwneud ag elfennau fel hacio neu breifatrwydd. Ond y pryder mwyaf cyffredin, a godwyd gan dri o bob pedwar person, oedd cyswllt plant â chynnwys neu eu cyswllt â defnyddwyr eraill. Canfu ein hymchwil fod tua 22 miliwn o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd wedi cael profiad personol o gynnwys neu ymddygiad ar-lein a allai fod yn niweidiol.


## Beth rydym wedi'i gyflawni

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd Ofcom ddogfen drafod ynghylch ein profiad o reoleiddio'r sector darlledu, a oedd yn cynnwys yr egwyddorion a allai fod yn sail i reoleiddio yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein.

Rydym yn defnyddio gwahanol fethodolegau i ddatblygu darlun llawn o ymddygiad ac agweddau oedolion a phlant yn y DU mewn perthynas â'u harferion ar-lein, a'u harferion o ran cyfryngau a chyfathrebu. Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi parhau i adrodd ar lythrennedd oedolion a phlant yn y cyfryngau, a faint o newyddion maen nhw'n ei gael. Rydym yn cyhoeddi adroddiadau drwy gydol y flwyddyn, ac yn cynnal digwyddiadau i hyrwyddo'r canfyddiadau ac i drafod materion sy'n deillio ohonynt. Er enghraifft, roeddem wedi cynnal digwyddiad mawr yn y Llyfrgell Brydeinig ym mis Gorffennaf 2019 i sôn am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys dealltwriaeth feirniadol, bwlio ar-lein, data personol a chynhwysiant digidol.

Yn 2019 roeddem wedi ehangu ein gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau, drwy lansio'r rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau. Mae'r rhaglen hon yn ymgorffori ac yn adeiladu ar ein gweithgareddau ymchwil, gyda phwyslais ar gydweithio a chydlynu â rhanddeiliaid perthnasol a'u gweithgareddau. Mae rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn cysylltu sefydliadau ac unigolion sy'n arbenigo mewn llythrennedd yn y cyfryngau i weithio tuag at nod cyffredin o wella dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau ar-lein oedolion a phlant yn y DU. Mae'r panel Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn dod â chynrychiolwyr arbenigol at ei gilydd i drafod a llywio datblygiad ein gwaith polisi ac ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau.

Ym mis Mai 2019, roeddem wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol newydd, Ein Gwlad Ar-lein. Roedd yn ystyried sut mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan gynnwys a gwasanaethau ar y rhyngrwyd, a'u hagweddau at fod ar-lein. Mae'r ymchwil yn helpu i ddwyn ynghyd wybodaeth a data am sut mae'r byd ar-lein yn datblygu, a'r niwed posib wrth ddefnyddio mwy ar wasanaethau ar-lein.



Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi diweddaru ein hymchwil a'n dadansoddiad ynghylch agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau, a'n hymchwil ddiweddaraf ar niwed ar-lein a gynhaliwyd gennym ni ym mis Ionawr 2020, ac a gomisiynwyd ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Canfu'r astudiaeth fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU yn poeni am fod ar-lein, gyda mwy na phedwar o bob pump yn mynegi pryderon. Hefyd, yn 2020 gwelsom fod cyfran yr oedolion sydd â phryder digymell am ryw elfen o ddefnyddio'r rhyngrwyd wedi cynyddu ers 2019, o 78% i 81%. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o oedolion (66%) yn cytuno bod y manteision o fynd ar-lein yn drech na'r risgiau.

Aethom ati i archwilio ym mhle roedd pobl wedi dod ar draws profiad a allai fod yn niweidiol yn fwyaf diweddar, gan ddod i'r casgliad mai cyfryngau cymdeithasol yw'r brif ffynhonnell – Facebook yn arbennig, a enwyd gan 23% o'r oedolion sy'n ei ddefnyddio, wedyn Instagram, Twitter a TikTok (bob un ohonynt wedi'u henwi gan 9% o ddefnyddwyr). Dim ond 45% o oedolion oedd yn cytuno bod gwefannau a safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i'w cadw'n ddiogel ar-lein, ond mae'r ffigur hwn yn codi i 59% ymysg plant rhwng 12 a 15 oed.

Rydym hefyd wedi casglu bod y gefnogaeth i ragor o reoleiddio ar-lein wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf mewn amrywiaeth o elfennau. Mae'r rhan fwyaf o oedolion o blaid rheolau llymach ar gyfer safleoedd cyfryngau cymdeithasol (66% yn 2020, cynnydd o'i gymharu â 52% yn 2018); safleoedd rhannu fideos (57% o'i gymharu â 46% yn 2018); a gwasanaethau negeseua gwib (56% o'i gymharu â 40% yn 2018).

Dilynwyd hynny ym mis Chwefror 2020 drwy gyhoeddi ein hadroddiadau ar lythrennedd plant yn y cyfryngau (ar sail ymchwil a gynhaliwyd yn 2019). Yn ôl ein canfyddiadau, yn 2019 roedd llai o rieni yn teimlo bod y manteision mae eu plentyn yn eu cael o fod ar-lein yn drech na'r risgiau, o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl. Hefyd, o'i gymharu â 2018, mae rhieni'n poeni mwy a mwy y gallai eu plentyn weld cynnwys ar-lein sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio, ac am rai elfennau o gemau ar-lein. Gwelsom hefyd fod plant yn defnyddio ystod ehangach o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol nag o'r blaen, gyda TikTok a Twitch yn enghreifftiau o lwyfannau newydd sy'n cael eu defnyddio.

Ym mis Gorffennaf 2019, roeddem wedi cyhoeddi mwy o waith ymchwil manwl a oedd yn ystyried profiadau pobl o niwed ar-lein, eu hymateb iddo a'r math o warchodaeth maen nhw'n ei disgwyl wrth fynd ar-lein – roedd yr astudiaeth ansoddol hon yn ategu'r ymchwil feintiol ym mis Mai. Rydym hefyd wedi edrych ar sut gallai technolegau deallusrwydd artiffisial ddatblygu er mwyn helpu i gymedroli cynnwys ar-lein dros y pum mlynedd nesaf.

Ym mis Hydref 2019 roeddem wedi cyhoeddi papur yn egluro – o safbwynt economaidd – sut gallai methiannau'r farchnad o ran gwasanaethau ar-lein achosi pob math o niwed i unigolion a chymdeithas ar draws nifer o feysydd polisi, a'r heriau wrth reoleiddio gwasanaethau o'r fath.

Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu penodi Ofcom i fod yn rheoleiddiwr niwed ar-lein y DU. Mater i'r Llywodraeth a Senedd y DU yw cwmpas a dyluniad unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Rydym yn rhannu uchelgais y Llywodraeth i gadw pobl yn ddiogel ar-lein, a byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i helpu i sicrhau bod prosesau rheoleiddio'n gwarchod pobl yn effeithiol ar-lein. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth dros y misoedd i ddod, wrth i fanylion y drefn newydd gael eu datblygu.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Yn 2020/21 byddwn yn cyhoeddi ein hymchwil ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau a'n harolwg blynyddol o gael gafael ar newyddion yn yr haf, a bydd ein hymchwil ar lythrennedd plant yn y cyfryngau yn cael ei chyhoeddi yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r canfyddiadau i helpu i ddatblygu syniadau polisi yn y meysydd hyn.

Mae angen amlwg i wella sut mae defnyddwyr yn cael eu diogelu ar-lein. Gan adeiladu ar ein gwaith hyd yn hyn, byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r niwed y mae pobl yn ei wynebu ar-lein, a'r camau y gallem eu cymryd i helpu i roi sylw iddynt.

Byddwn yn cydweithio â'r Llywodraeth a phartneriaid eraill yn y diwydiant wrth i ni fwrw ymlaen â'n rhaglen waith, a datblygu ein hymchwil ar y ffordd gymhleth y mae gwasanaethau ar-lein yn effeithio ar fywyd pobl.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn helpu i wella dealltwriaeth defnyddwyr o wasanaethau ar-lein a sut i helpu i ddiogelu eu hunain, gan gynnwys gweithio gyda phlant a phobl ifanc gyda'r nod o wella eu gallu i elwa o wasanaethau ar-lein gan reoli'r risgiau ar yr un pryd.

Mae heriau unigryw'n gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu prosesau rheoleiddio effeithiol yn yr elfen hon. Ein nod ni yw helpu i leihau agweddau niweidiol y rhyngrwyd, gan ddiogelu ei manteision pwerus i gymdeithas, i ddiwylliant, i fasnach ac i ryddid mynegiant.

# Cynnal y Gwasanaeth Post Cyffredinol

**Sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy ac yn effeithlon**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Adolygu effeithlonrwydd y Post Brenhinol** a deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post yn well. | Rydym wedi cynnal ymchwil defnyddwyr ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau post ar draws y Deyrnas Unedig fel sail i'n hadolygiad o anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post, a byddwn ni'n adrodd yn ôl ar yr ymchwil yn nes ymlaen eleni. Rydym hefyd wedi asesu effeithlonrwydd ac yn parhau i fonitro'r Post Brenhinol yn ofalus i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Cyhoeddwyd ein hadroddiad monitro blynyddol diweddaraf ym mis Rhagfyr 2019.<br><br>Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd y Post Brenhinol ei berfformiad ansawdd gwasanaeth ar gyfer blwyddyn 2019/20, gan ddangos bod y perfformiad wedi gwella o ran danfon eitemau dosbarth cyntaf, ail ddosbarth a danfon arbennig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn benodol, mae perfformiad y Post Brenhinol o ran dosbarth cyntaf wedi gwella drwy fynd o 91.5% i 92.6%. |

Mae'r sector post yn hanfodol i economi'r DU. Fel y rheoleiddiwr, ein nod ni yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau post yn elwa o wasanaeth post cyffredinol sy'n bodloni anghenion defnyddwyr. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried yr angen i'r gwasanaeth cyffredinol fod yn effeithlon ac yn gynaliadwy o safbwynt ariannol.

## Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae miliynau o bobl a busnesau ar draws y DU yn dibynnu ar y gwasanaeth post cyffredinol, ac mae hyn yn cynnwys pobl a busnesau mewn ardaloedd gwledig. Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu a danfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos (a pharseli bum niwrnod yr wythnos) i bob cyfeiriad yn y DU am bris fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol.

Ond mae'r gostyngiad cyson o ran nifer y llythyrau, a'r newid o ran disgwyliadau cwsmeriaid yn y farchnad barseli, yn her barhaus i gynaliadwyedd y Post Brenhinol.

## Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym yn monitro ac yn adrodd ar effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol, perfformiad ariannol rhwydwaith y gwasanaeth cyffredinol, datblygiadau yn y farchnad a chystadleuaeth yn y sectorau parseli a llythyrau. Rydym hefyd yn monitro profiadau defnyddwyr yn y sector post.

Canfu wythfed adroddiad monitro blynyddol Ofcom fod 10.2 biliwn o lythyrau â chyfeiriad arnynt wedi cael eu hanfon yn 2018/19, 8% yn llai na'r flwyddyn flaenorol; a bod 2.6 biliwn o barseli wedi cael eu hanfon, 10% yn fwy. Roeddem hefyd wedi canfod bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid preswyl yn fodlon ar y gwasanaethau post yn gyffredinol (86%), ac ar werth am arian (76%) wrth anfon post, ac roedd hynny hefyd yn wir am y rhan fwyaf o fusnesau bach.

Roeddem wedi canfod bod maint elw'r Post Brenhinol yn y busnes rheoledig wedi crebachu i 1.6% yn 2018/19. Gwelsom batrwm o ddirywiad ar draws metrigau effeithlonrwydd yn y Post Brenhinol, gan gynnwys y ffaith nad yw'r cwmni yn cyrraedd ei gynhyrchiant targed.

Ers ein hadroddiad monitro diwethaf (ond hyd yn oed cyn i Covid-19 ddechrau cael effaith), roedd y Post Brenhinol wedi rhoi rhagolwg diwygiedig y byddai nifer y llythyrau yn parhau i ostwng. Mae Covid-19 wedi cyflymu'r patrwm hwn, ac ar 25 Mehefin 2020, dywedodd y Post Brenhinol ei fod yn disgwyl gwneud colledion sylweddol yn 2020/21.

Wrth ystyried yr heriau sy'n wynebu'r Post Brenhinol, rydym wedi mynd ati dros y flwyddyn diwethaf i wella ein gwaith monitro a'n dealltwriaeth o'r farchnad barseli, ac wedi bwrw ymlaen â'n gwaith i greu model costau o rwydwaith y Post Brenhinol. Yn ystod 2019/20 roeddem wedi dechrau gwneud gwaith pwysig ar y Post Brenhinol a'r farchnad bost, gan gynnwys y canlynol:

- **Rydym wedi dechrau ar adolygiad manwl o effeithlonrwydd y Post Brenhinol.** Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar gynaliadwyedd tebygol y gwasanaeth post cyffredinol yn y dyfodol, ac yn tynnu sylw at elfennau lle gallai'r Post Brenhinol fod yn fwy effeithlon.
- **Rydym wedi dechrau ar adolygiad o anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post.** Rydym yn ystyried i ba raddau mae'r farchnad bost yn bodloni anghenion defnyddwyr yn sgil newidiadau yn y farchnad, yn enwedig y cynnydd mewn siopa ar-lein a'r gostyngiad cyson yn nifer y llythyrau. Bydd hyn yn helpu i ddangos a yw'r farchnad bost yn diwallu anghenion defnyddwyr, ac yn rhoi arweiniad ar sut i ddelio ag unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau post. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau eleni.

Cyn gwneud y gwaith uchod, ac i helpu i gefnogi ein hasesiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol, roeddem wedi cynnal adolygiad ar fethodolegau costio a neilltuo costau yn y Post Brenhinol.

Rydym hefyd wedi cynnal cyfres o ymchwiliadau yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â gwasanaethau post:

- **Cydymffurfiad y Post Brenhinol â rhai targedau ar gyfer ansawdd y gwasanaeth.** Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon 93.0% o'r holl bost Dosbarth Cyntaf ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl casglu, a danfon 91.5% o bost Dosbarth Cyntaf y diwrnod ar ôl casglu i 118 o 121 o ardaloedd cod post dynodedig. Nid oedd y Post Brenhinol wedi cyrraedd ei darged ar gyfer Dosbarth Cyntaf yn 2018/19, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Roedd 1.5% yn brin o'r targed, sef 93.0%. Hefyd, dim ond mewn 75 o'r ardaloedd cod post yr oedd wedi cyrraedd yr ail darged, ac fe agorwyd ymchwiliad gennym. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein penderfyniad cyn bo hir.
- **Ymchwilio i gydymffurfiad y Post Brenhinol â'r bwlch diogelu ar lythyrau ail ddosbarth.** Ym mis Ionawr 2019, roeddem wedi penderfynu cynyddu'r cap ar lythyrau safonol Ail Ddosbarth o 60c i 65.2c o fis Ebrill 2019 ymlaen, gan ddilyn hynny gyda chodiadau'n gysylltiedig â chwyddiant tan 31 Mawrth 2024. Ar ôl i'r Post Brenhinol gynyddu prisiau ar 25 Mawrth 2019 yn hytrach nag 1 Ebrill, fe agorwyd ymchwiliad gennym. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein penderfyniad cyn bo hir.
- **Ymchwiliad o dan y Ddeddf Cystadleuaeth ynghylch gwasanaethau danfon parseli busnes.** Ym mis Mai 2018, dywedodd y Post Brenhinol wrth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) fod gan ei adran Parcelforce gytundeb ag un o'i ailwerthwyr – the SaleGroup, a oedd yn masnachu fel Despatch Bay – a oedd yn golygu na fyddai'r naill gwmni na'r llall yn cynnig gwasanaethau danfon parseli i gwsmeriaid busnes ei gilydd. Ar ôl i'r achos gael ei gyfeirio at Ofcom gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, canfu ein hymchwiliad fod y cytundeb yn torri'r gyfraith cystadleuaeth. Cyfaddefodd y ddau gwmni eu bod wedi torri'r gyfraith. Cafodd y Post Brenhinol imiwnedd o dan bolisi trugaredd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac, oherwydd iddo gydweithredu ag ymchwiliad Ofcom, ni chafodd ddirwy. Derbyniodd the SaleGroup ddirwy o £40,000.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Ein nod cyffredinol o hyd yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau post yn elwa o wasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion, ac sy'n cael ei ddarparu'n effeithlon ac yn gynaliadwy. Mae ein trefn fonitro yn helpu i ddiogelu'r gwasanaeth cyffredinol.

Yn ein diweddariad monitro blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019, roeddem wedi amlinellu ein barn bod y gwasanaeth cyffredinol yn debygol o fod yn gynaliadwy yn y dyfodol agos.

Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd yn y tymor hwy yn dibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys i ba raddau y gall y Post Brenhinol roi gwelliannau effeithlonrwydd ar waith, fel y rhaglen drawsnewid yr oedd wedi'i hamlinellu fel rhan o'i strategaeth bum mlynedd ym mis Mai 2019.

Rydym yn parhau i fonitro cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys ystyried effeithiau Covid-19 ar y Post Brenhinol yn y tymor byr a'r tymor hwy. Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith i ddeall anghenion defnyddwyr yn well, a bydd ein hadolygiad o anghenion rhesymol defnyddwyr post yn adrodd yn ôl yn Ch3 2020.

Yn y cyfamser, rydym wedi dechrau ein gwaith ar ddyfodol rheoleiddio gwasanaethau post, a bydd y gwaith hwn yn dod i ben yn 2022. Bydd hyn yn cynnwys modelu costau diwygiedig gweithrediadau'r Post Brenhinol ac adolygiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol. Byddwn hefyd yn adolygu mynediad a chystadleuaeth parseli ac yn ystyried a oes angen rhagor o fesurau i ddiogelu defnyddwyr.



## Cefnogi defnyddwyr a'r diwydiant drwy Brexit

**Cefnogi defnyddwyr a'r sector cyfathrebiadau yn y DU**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Brexit** – sicrhau bod Ofcom yn barod ar gyfer Brexit, rhoi cyngor technegol i'r Llywodraeth, a rhoi cefnogaeth i staff a rhanddeiliaid. | Mae Ofcom yn gweithio i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu, yn ogystal â'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio, er y byddai rhai rheolau – fel crwydro symudol wrth deithio yn yr UE – yn gallu newid. |

Wrth i'r Llywodraeth drafod telerau perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn y dyfodol, rydym wedi parhau i wneud paratoadau priodol ar gyfer sut gallai hyn effeithio ar Ofcom a'r diwydiannau rydym ni'n eu rheoleiddio. Mae hyn wedi cynnwys rhoi cyngor annibynnol i'r Llywodraeth ar y materion sy'n flaenoriaeth i'n sectorau.

### Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae pobl yn annhebygol o weld newidiadau mawr i'r rheolau o ran sut byddant yn defnyddio eu gwasanaethau cyfathrebu, er y bydd rhai rheolau – fel crwydro symudol wrth deithio yn yr UE – yn newid. Wrth i'r DU ymadael â'r UE byddwn yn darparu amgylchedd rheoleiddio sefydlog i fusnesau sy'n cefnogi buddsoddiad, yn hyrwyddo cystadleuaeth ac yn diogelu defnyddwyr.

### Beth rydym wedi'i gyflawni

Yn ôl yr angen, rydym wedi ymgynghori ynghylch y newidiadau technegol y bydd angen i ni eu gwneud i'n rheolau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a fydd yn berthnasol ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Rydym hefyd wedi cyhoeddi cyngor i'r diwydiant, fel ein canllawiau i ddarlledwyr ynghylch sut bydd deddfwriaeth newydd y Llywodraeth yn effeithio arnyn nhw. Rydym yn dal mewn cysylltiad agos â'r gwahanol gwmnïau a grwpiau defnyddwyr sy'n gweithio yn ein sectorau, er mwyn sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o unrhyw faterion a allai effeithio ar bobl ac ar fusnesau.

### Y canlyniadau a'r camau nesaf

Byddwn yn parhau i gydweithio â grwpiau defnyddwyr a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, er mwyn deall eu pryderon a'u cynlluniau ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Byddwn hefyd yn parhau i roi cyngor annibynnol i'r llywodraeth.

# Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant

**Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant yn Ofcom ac ymysg darlledwyr**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Adroddiad cynnydd blynyddol ar raglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Ofcom** – i gyflawni amcanion amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb fel cyflogwr a rheoleiddiwr.<br>Adroddiad ystadegol blynyddol ar amrywiaeth a chydraddoldeb yn Ofcom.<br>Archwiliadau Cyflog Cyfartal a Chyflog o ran y Rhywiau ac Ethnigrwydd. | **Mae diwylliant amrywiol a chynhwysol yn golygu penderfyniadau gwell ar ran dinasyddion a defnyddwyr amrywiol.**<br>**Cynnydd Ofcom i gyflawni nodau amrywiaeth:**<br>a) cydbwysedd rhwng y rhywiau – 48% yn fenywod/52% yn ddynion (50/50 yw'r targed ar gyfer 2020)<br>b) uwch gydweithwyr sy'n fenywod – 43% (40% yw'r targed)<br>c) uwch gydweithwyr sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig – 11% (13% yw'r targed) |
| **Amrywiaeth ym maes Darlledu** – i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y maes darlledu. | **Ar draws y sector darlledu:**<br>a) menywod mewn swyddi uwch yn y maes teledu – 42%;<br>b) cynrychiolaeth o bobl anabl – 6%;<br>c) gweithwyr ar lefel uwch sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig – 8%;<br>d) cyfanswm y staff sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig – 13%. |

## Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu

Yn 2019, roeddem wedi parhau i adeiladu ar ein rhaglen Amrywiaeth ym maes Darlledu. Roeddem wedi cyhoeddi ein hail adroddiad Amrywiaeth a Chyfleoedd Cyfartal yn Radio ym mis Gorffennaf, a'n trydydd adroddiad Amrywiaeth a Chyfleoedd Cyfartal yn y Diwydiant Teledu ym mis Medi. Am y tro cyntaf, roeddem wedi casglu data ar gefndir economaidd-gymdeithasol y gweithlu teledu, ac roedd ein hadroddiad yn cynnwys adran arbennig a oedd yn canolbwyntio ar amrywiaeth talentau llawrydd yn y diwydiant teledu – rhan allweddol o'r gweithlu ehangach, nad oes gan Ofcom bwerau ffurfiol i hybu cyfle cyfartal ar ei chyfer. Roeddem wedi rhoi adborth i ddarlledwyr ar eu trefniadau drwy gyfuniad o lythyrau, cyfarfodydd bord gron a chyfarfodydd unigol, ac wedi cynnig arweiniad ynghylch lle gellir gwneud gwelliannau.

Rydym yn dal i gydweithio â darlledwyr, ac mae amrywiaeth eang o arbenigwyr mewn gwahanol sectorau yn ein helpu i lunio ein barn. Ar gyfer 2020, rydym wedi lansio cyfarfod bwrdd crwn chwarterol i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ac arferion gorau, yn ogystal ag annog mwy o gydweithio.

Yn ystod hydref 2020, byddwn yn cyhoeddi ein dau adroddiad nesaf ar Amrywiaeth a Chyfleoedd Cyfartal ym myd radio a theledu. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a fydd yn dangos yn fanylach sut mae darlledwyr yn mynd i'r afael â'u heriau unigol o ran amrywiaeth. Cynhelir digwyddiad i gyd-fynd â'r adroddiadau, er mwyn ystyried themâu allweddol yr adroddiadau diweddaraf.

## Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel

**Gweithio gyda chwmnïau i warchod rhag cyfnod segur/ymosodiad**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Diogelwch a Chadernid Rhwydweithiau** – datblygu gallu Ofcom a gweithio gyda chwmnïau i sicrhau bod rhwydweithiau'n gadarn ac yn ddiogel. | Rydym yn gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y broses ddeddfwriaethol a fydd yn rhoi pwerau newydd i Ofcom ar gyfer Gofynion Diogelwch Telegyfathrebiadau, gyda'r nod o wella lefelau diogelwch yn y sector telegyfathrebiadau.<br>Rydym yn bwriadu lleihau'r perygl o gyfnodau segur ar raddfa fawr yn y gwasanaethau a ddefnyddir gan ddefnyddwyr o ganlyniad i weithred faleisus, damweiniau neu beryglon naturiol, drwy wneud y canlynol:<br>(a) dod o hyd i fylchau yn y safonau cadernid rhwydwaith ac mewn arferion gorau, a chynnig atebion, a<br>(b) monitro cydymffurfiad â chanllawiau statudol, gan gynnwys Gofynion Diogelwch Telegyfathrebiadau, pan fydd hyn yn dod i rym o dan bwerau deddfwriaethol ar gyfer Ofcom. |

## Parhau i arloesi ein dull rheoleiddio

**Mynd ati'n well i ddefnyddio data a rhannu arferion gorau**

| Meysydd gwaith blaenoriaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Strategaeth Data** – buddsoddi yn y Ganolfan Arloesi Data a'r proffesiwn data arbenigol i wella'r ffordd mae Ofcom yn storio, yn dadansoddi ac yn tynnu gwybodaeth o ddata, ac yn rhannu data. | Mae ein Canolfan Arloesi Data wedi cael ei lansio, ac mae'n mynd ati i gefnogi penderfyniadau polisi craff, fel cyfuno ffynonellau gwybodaeth i wella dealltwriaeth o elfennau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr.<br>Rydym yn cynnal prawf o gysyniad gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a phrosesau dysgu gyda pheiriannau i helpu i awtomeiddio prosesau.<br>Mae'r gwaith paratoi wedi dechrau ar gyfer y cam nesaf a fydd yn canolbwyntio ar beirianneg data (h.y. paratoi a rhannu llawer iawn o ddata cymhleth). |

# 3. Y prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

Mae'r fframwaith ar gyfer sut rydym yn rheoli risgiau ar gael ar dudalen 92. Mae wedi cael ei ddylunio i sicrhau bod risgiau'n cael eu cydnabod ar draws y sefydliad a, maes o law, er mwyn cefnogi penderfyniadau effeithlon ac effeithiol ar draws gwaith Ofcom.

Mae polisi rheoli risg Ofcom yn ceisio:

- cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ofcom drwy gyfrannu gwybodaeth at y broses o wneud penderfyniadau;
- egluro egwyddorion Rheoli Risg yn Ofcom;
- diogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol y mae Ofcom yn gyfrifol amdanynt;
- hyrwyddo diwylliant lle mae derbyn risg priodol yn cael ei annog; a
- gwreiddio rheoli risg ym mhrosesau busnes eraill Ofcom fel sail ar gyfer llywodraethu corfforaethol da.

Mae ein cofrestr risg strategol yn cofnodi'r risgiau a allai roi amcanion Ofcom yn y fantol. Yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2020, roeddem wedi cynnal asesiad risg llawn o ganlyniad i bandemig Covid-19, i gydnabod bod hynny wedi amharu ar randdeiliaid ac endidau sy'n cael eu rheoleiddio – mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein cofrestr risgiau gyfredol wrth symud ymlaen.

Mae'r gofrestr risg wedi'i threfnu o amgylch yr elfennau risg, sy'n cael eu crynhoi yn y tabl canlynol.

| Y prif risgiau | Camau lliniaru |
|---|---|
| **Caiff y gwaith rheoleiddio ei weld fel rhywbeth sy'n annibynnol, yn ddiduedd ac yn gyson** | Rydym yn cysylltu'n aml gyda Gweinidogion, Seneddwyr a swyddogion perthnasol ar draws adrannau yn Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig, a gyda rhanddeiliaid eraill, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau perthnasol yn y farchnad a'n rhaglen waith, ac i ddeall eu safbwyntiau ac egluro manteision rheoleiddio annibynnol.<br><br>Rydym yn monitro deddfwriaeth newydd ac yn gweithio gyda'r Llywodraeth i wella cynigion deddfwriaethol, ac i gyflwyno'r achos dros wneud newidiadau pan rydym yn teimlo bod angen gwneud hyn. |
| Y risg nad yw Ofcom yn cael ei ystyried yn annibynnol, a/neu nad yw Ofcom yn dilyn ei gyfarwyddyd ei hun mewn perthynas â'i weithrediadau, amrywiaeth neu ymddygiad ei gydweithwyr. | Rydym yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer elfennau allweddol o waith polisi, a'n bod yn cydweithio'n agos â'r Llywodraeth wrth weithio ar amcanion cyffredin.<br><br>Rydym yn ceisio sicrhau cefnogaeth y diwydiant yn barhaus o ran gwerth ein hannibyniaeth, ein henw da am fod yn effeithlon, a'n canlyniadau i ddefnyddwyr.<br><br>Rydym yn ceisio sicrhau arferion gorau o ran amrywiaeth a chynhwysiant drwy aelodaeth a phartneriaethau ag ymarferwyr fel Busnes yn y Gymuned, Stonewall, y Business Disability Forum ac Employers for Carers, gan weithio gydag ymgynghorwyr, cymryd rhan mewn mynegeion meincnodi (fel Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall) a chydweithio â rheoleiddwyr eraill. |

| Y prif risgiau | Camau lliniaru |
|---|---|
| **Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi**<br><br>Y risg na fydd buddsoddiadau mewn rhwydweithiau gwibgyswllt yn cael eu cyflawni, na fydd modd sicrhau gwell darpariaeth band eang a symudol, ac nad oes gan rai defnyddwyr fynediad at wasanaethau symudol a band eang sy'n diwallu eu hanghenion. | Rydym yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid yn y diwydiant a buddsoddwyr ar fuddsoddiadau mewn rhwydweithiau gwibgyswllt, ac ar rwystrau ymddangosiadol eraill rhag buddsoddi. Byddwn yn defnyddio'r Adolygiad o Fynediad i gynnig sicrwydd a chymelliadau i fuddsoddi.<br><br>I sicrhau ein bod yn cyd-fynd â strategaeth y Llywodraeth i ddarparu rhwydweithiau ffeibr llawn lleol a band eang sy'n gallu delio â gigiabit ledled y wlad, rydym yn cydweithio'n rheolaidd â Building Digital UK (BDUK), yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), a gyda llywodraethau'r gwledydd ar eu gwahanol raglenni cyflwyno ffeibr. |
| **Tegwch i gwsmeriaid**<br><br>Y risg bod nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn methu cael bargen deg, neu ddim yn cael eu trin yn deg gan eu darparwyr. | Rydym yn parhau i weithio ar atebion i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael bargen deg ar gyfer eu gwasanaethau cyfathrebu, ac rydym yn rhoi rhaglen fonitro a phrofi ar waith i wneud yn siŵr bod yr atebion hyn yn effeithiol. Mae'r rhain wedi cael eu dylunio i gael yr effaith fwyaf ac i fod mor effeithiol â phosib i ddefnyddwyr.<br><br>Rydym yn cydweithio â darparwyr ar ein cynlluniau monitro ac adrodd, ar ôl sicrhau ymrwymiadau tegwch gan yr holl brif ddarparwyr.<br><br>Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a chyrff perthnasol eraill sy'n agos at y maes hwn, gan gynnwys y Llywodraeth, Cyngor ar Bopeth a grwpiau defnyddwyr. |

| Y prif risgiau | Camau lliniaru |
|---|---|
| **Rhaglenni mawr**<br><br>Y risg nad yw Ofcom yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr, yn defnyddio sbectrwm Radio'n effeithlon, neu'n sicrhau rhaglenni o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd teledu a radio. | Rydym yn monitro cydymffurfiad BT ac Openreach yn frwd ac yn gadarn i ddarparu gwell rhwydwaith gyda gwell gwasanaeth i gwsmeriaid (o dan y Protocol Llywodraethu ac Ymrwymiadau).<br><br>Rydym wedi parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid er mwyn deall eu pryderon, ac i gynnal ymchwil i'r farchnad a llunio rhagolygon i asesu patrymau a datblygiadau'r farchnad.<br><br>Roeddem wedi egluro ein penderfyniadau ar ddyfarnu bandiau sbectrwm 700MHz a 3.6-3.8GHz er mwyn galluogi'r diwydiant i ddarparu gwasanaethau gyda mwy o gapasiti a darpariaeth ehangach, ac rydym nawr yn ceisio bwrw ymlaen â'r gwaith o sicrhau bod y bandiau sbectrwm hyn ar gael.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, roeddem wedi rhyddhau nifer o ymgyngoriadau, datganiadau a gohebiaethau eraill a oedd yn ymwneud â'n gwaith gyda'r BBC, ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid, y diwydiant a'r llywodraeth. Rydym yn defnyddio ymchwil a gwybodaeth am y farchnad er mwyn cael dealltwriaeth dda o gynlluniau'r BBC a'u goblygiadau strategol, ac i sicrhau ein bod yn gallu blaenoriaethu camau gweithredu gydag agwedd hirdymor.<br><br>Rydym yn dal i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, gan roi cyngor technegol i helpu i sicrhau fframwaith deddfwriaethol domestig cydlynol ar gyfer Brexit, ac rydym yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid i ddeall eu pryderon ac i gynnig cymaint o eglurder ag y gallwn ynghylch y drefn ar ôl Brexit. Rydym hefyd wedi cwblhau'r paratoadau angenrheidiol i sicrhau parhad busnes yn fewnol mewn sefyllfaoedd gwahanol. |
| **Pobl**<br><br>Y risg na all Ofcom recriwtio neu ddal gafael ar y talentau amrywiol angenrheidiol ar bob lefel er mwyn darparu gwasanaethau yn unol â briff helaeth sy'n ehangu. | Rydym yn datblygu Strategaeth Pobl a chynllun Gweithlu Strategol i gydnabod gofynion y sefydliad wrth symud ymlaen.<br><br>Mae adolygiad mewnol yn cael ei gynnal o'n sgiliau a'n doniau strategol ar hyn o bryd, ac rydym yn datblygu cynllun datblygu sgiliau arbenigol. |

# 4. Gwaith yn y gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol

## Ein gwaith yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig




Wrth gyflawni ein dyletswyddau, rhaid i ni ystyried yr holl wahanol wledydd, diwylliannau, dwyseddau poblogaeth a thirweddau sy'n rhan o'r DU.

Mae gennym swyddfeydd ym mhob un o wledydd y DU i'n galluogi i gydweithio'n uniongyrchol â llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid lleol, ac i sicrhau ein bod yn ystyried safbwyntiau, buddiannau ac anghenion pobl ar draws y DU.

Mae gan bob gwlad Bwyllgor Cynghori statudol, ac mae aelodau'r Bwrdd ar gyfer Cymru a'r Alban wedi cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn y drefn honno, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Gwladol y DU. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob gwlad.

Er bod llawer o'n gwaith yn berthnasol i'r DU i gyd, rydym wedi tynnu sylw at waith penodol a wnaed ym mhob un o wledydd y DU dros y flwyddyn diwethaf.



### Gogledd Iwerddon

- Wedi llwyddo i glirio Teledu Daearol Digidol (DTT) o'r band 700MHz. Roedd y broses wedi cael ei chydlynu'n ofalus â Gweriniaeth Iwerddon.
- Roeddem wedi parhau i gynnig cyngor rheoleiddiol a thechnegol ynghyd â data am ddarpariaeth i Adran yr Economi, gyda'i bwriad i fuddsoddi arian cyhoeddus mewn band eang cyflym iawn a gwibgyswllt ('Prosiect Stratum').




## Lloegr

- Roeddem wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Aelodau Seneddol lleol ac awdurdodau lleol, gan roi cyngor rheoleiddiol a thechnegol.
- Mae rheolau newydd sy'n rhoi hawl gyfreithiol – o dan rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol – i gartrefi a busnesau cymwys yn y DU wneud cais am gysylltiad band eang teilwng a fforddiadwy, yn dechrau dwyn budd yn barod i ddefnyddwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn Lloegr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant a'r Llywodraeth ganolog i ymestyn argaeledd gwasanaethau band eang sylfaenol a ffeibr llawn.
- Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid a gwylwyr yn Lloegr i gasglu amrywiaeth o safbwyntiau am ddyfodol darlledu yn y sector cyhoeddus.



## Yr Alban

- Rydym wedi cynnal digwyddiadau yn Aberdeen, Caeredin, Stirling a Stornoway i gefnogi'r rhaglen Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr er mwyn adlewyrchu ystod o safbwyntiau am ddyfodol Darlledu yn y Sector Cyhoeddus.
- Wedi rhoi tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Materion Ewropeaidd ac Allanol yn Senedd yr Alban, ynghylch ein newidiadau i'r canllawiau lleolrwydd ar gyfer radio masnachol lleol.
- Wedi cydweithio'n rheolaidd â Llywodraeth yr Alban ar wella'r ddarpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig, ac i gyflwyno'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang er mwyn helpu Llywodraeth yr Alban gyda'i chynlluniau ei hun.



## Cymru

- Mae cydweithio â rhanddeiliaid gwleidyddol a rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi bod yn rhan amlwg o'n gwaith, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am ddatblygiadau yn ein gwaith.
- Roedd ein digwyddiad 'Cefnogi Arloesedd Di-Wifr ar Gyfer Technoleg Amaeth a Chysylltedd Gwledig' yn dwyn ynghyd sefydliadau sy'n wynebu heriau o ran cysylltedd a'r rheini sy'n cynnig opsiynau di-wifr.
- Roedd ein cyfres o drafodaethau 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' yn gyfle i ni wrando ar farn rhanddeiliaid ynghylch dyfodol Darlledu yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

## Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol

Mae ymgysylltu rhyngwladol yn helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb yn y DU. Rydym yn cyfrannu at ddadleuon rhyngwladol ar bolisïau a deddfwriaethau, ac yn trafod yn rheolaidd â'n cymheiriaid, yn ogystal â sefydliadau Ewropeaidd a rhyngwladol.

Rydym yn mynychu cyfarfodydd rheoleiddio a rhyng-lywodraethol, yn ogystal â digwyddiadau rhyngwladol, lle rydym yn ceisio dysgu a rhannu profiadau rheoleiddio ac arferion da gyda'n cymheiriaid tramor. Mae hyn yn helpu i lywio ein gwaith polisi. Rydym hefyd yn croesawu dirprwyaethau o bob rhan o'r byd er mwyn gallu cyfnewid barn am bynciau sy'n amrywio o werthu sbectrwm i reoleiddio cynnwys ar-lein, a hyrwyddo buddsoddiad mewn seilwaith telegyfathrebu.

Er bod y DU wedi gadael yr UE yn ffurfiol erbyn hyn, mae'n dal i ddefnyddio cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod pontio. Yn 2019/20, rydym wedi bwrw ymlaen â'n gwaith i gefnogi'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod buddiannau defnyddwyr a dinasyddion yn y DU yn dal wrth galon newidiadau deddfwriaethol, yn enwedig yng nghyd-destun y gwaith o gyflwyno'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (yr EECC, neu 'y Cod'), a'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD).

Cyn 31 Ionawr 2020, roeddem wedi cyfrannu at y gwaith o ddrafftio nifer o Ganllawiau a luniwyd gan y Corff ar gyfer Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop (BEREC), sy'n rhoi arweiniad i Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol wrth iddyn nhw ddefnyddio darpariaethau sy'n deillio o'r Cod a deddfwriaethau Ewropeaidd perthnasol eraill.

Yn 2019, roeddem wedi cyfrannu at y gwaith o ddrafftio canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar waith Ewropeaidd, a chwmpas Llwyfannau Rhannu Fideo o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol. Roeddem hefyd wedi monitro'r broses trosi yn rhai o awdurdodaethau pwysig eraill yr UE – yn arbennig, Llwyfannau Rhannu Fideo, diogelu plant a phobl ifanc o dan oed, hysbysebu a hyrwyddo gwaith Ewropeaidd – i lywio syniadau Ofcom wrth i ni baratoi i roi darpariaethau newydd ar waith yn y meysydd hyn. Buom yn trafod y rhain, a phynciau ehangach yn ymwneud â pholisïau cyfryngau, gyda rheoleiddwyr eraill yn Ewrop, Gogledd America ac Awstralia.

Roeddem hefyd wedi cyfrannu at waith y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Clyweledol (ERGA), wrth iddo fonitro Cod Ymarfer hunanreoleiddiol yr UE ar gyfer twyllwybodaeth ar lwyfannau digidol. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r Comisiwn Ewropeaidd wrth iddo ystyried deddfwriaeth newydd bosib yn y maes hwn.

Y tu hwnt i'r UE, roeddem wedi cymryd rhan mewn sawl cynhadledd ryngwladol ar luosogrwydd yn y cyfryngau, rhyddid y cyfryngau, cynaliadwyedd newyddiaduraeth o safon a llythrennedd yn y cyfryngau. Mae gan Ofcom rôl o hyd ar Fwrdd y Llwyfan Ewropeaidd o Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), ac mae hefyd yn cynrychioli EPRA mewn amrywiol fforymau, gan gynnwys grŵp cynghori Better Internet for Kids yr UE. Bu Ofcom yn arwain trafodaethau o fewn y grŵp hwnnw ar lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn perthynas ag amddiffyn plant ar-lein.

Rydym wedi parhau i gyfrannu at drafodaethau byd-eang â rhanddeiliaid ynghylch llywodraethu a rheoleiddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys yn yr IGF (Internet Governance Forum)[1], Eurodig (European Dialogue on Internet Governance)[2], Prosiect y Rhyngrwyd ac Awdurdodaeth, ac yn RightsCon[3]. Mae'r cynlluniau hyn wedi galluogi Ofcom i chwarae rhan weithredol yn y trafodaethau byd-eang ynghylch pynciau allweddol sy'n berthnasol i reoleiddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial i gymedroli cynnwys, ymatebion rheoleiddiol i dwyllwybodaeth, amddiffyn plant a'r her o reoleiddio gwasanaethau ar draws awdurdodaethau.

1 Un o gynlluniau Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.

2 Cyfarfod "IGF" rhanbarthol (yn ehangach na'r UE yn ddaearyddol).

3 Cynhadledd fyd-eang ar hawliau dynol ar-lein, a fynychir gan lwyfannau blaenllaw, llywodraethau a chymdeithas sifil.

Wrth ystyried natur ryngddibynnol y seilwaith rhwydweithiau byd-eang a'r bygythiadau seiberddiogelwch sy'n datblygu, rydym yn cymryd mwy o ran mewn trafodaethau rhyngwladol am seiberddiogelwch, ac wedi dechrau datblygu deialog ag Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol sydd â dyletswyddau yn y maes hwn, neu a fydd â dyletswyddau o'r fath cyn bo hir.

Mae Ofcom yn dal i gyfrannu at waith y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), ac mae'n Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Polisi Gwasanaethau, Cyfathrebu a Seilwaith (CISP), a fu'n ystyried pynciau fel niwtraliaeth y rhyngrwyd a Gweithredwyr y Dyfodol dros y flwyddyn diwethaf.

Ar wahân i hynny, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein perthynas ddwyochrog gydag ystod o randdeiliaid a rheoleiddwyr cyfathrebu Ewropeaidd a byd-eang, sy'n ein helpu i ddysgu mewn meysydd lle rydym yn wynebu heriau tebyg. Mae ein trafodaethau wedi canolbwyntio'n bennaf ar bynciau sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol Ofcom, gan gynnwys cyflwyno rhwydweithiau'r genhedlaeth nesaf, gweithredu strategaethau data gan reoleiddwyr, a mynd i'r afael â dyfodiad mathau newydd o niwed i ddefnyddwyr.

O ran sbectrwm, arweiniodd Ofcom ddirprwyaeth y DU i Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) yr ITU, a gynhaliwyd ddiwedd 2019. Roedd y prif faterion a drafodwyd yn cynnwys dynodi sbectrwm ar gyfer band eang symudol/5G, helpu i sicrhau bod sbectrwm ar gael ar gyfer Wi-Fi, gwella cysylltedd ar gyfer llongau ac awyrennau, defnyddio sbectrwm at ddibenion gwyddonol, a materion sbectrwm lloeren.

Mae trafodaethau yn y Gynhadledd honno yn cael eu cynnal drwy grwpiau rhanbarthol, a'n grŵp ni oedd y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT). Bu gweithwyr Ofcom yn ymgysylltu'n helaeth ar draws llawer o grwpiau CEPT, gan gynnwys ysgwyddo nifer o rolau arwain fel cadeirydd, lle gallem ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Mae gwaith arall yr ITU eleni wedi canolbwyntio ar drafodaethau ynghylch technolegau datblygol, a diwygiadau i strwythurau a dulliau gweithio'r ITU, ac rydym yn parhau i gydlynu safbwyntiau Ewropeaidd ar y materion hyn drwy ein rôl fel is-gadeirydd y pwyllgor Com-ITU yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau.

Tan 31 Ionawr 2020, roedd Ofcom hefyd yn cydweithio'n agos â'r pwyllgorau Ewropeaidd sy'n delio â pholisïau sbectrwm: Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG) yr UE a'r Pwyllgor Sbectrwm Radio (RSC), lle mae Ofcom wedi cyfrannu'n frwd at drafodaethau ynghylch polisïau sbectrwm Ewropeaidd ar wasanaethau band eang symudol a gwasanaethau eraill i ddefnyddwyr.

Roeddem wedi parhau i gyfrannu at gyrff post Ewropeaidd a rhyngwladol, gan weithio'n agos gyda chyd-reoleiddwyr a gweinyddiaethau post rhyngwladol, gan gynnwys yn y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP) a'r Pwyllgor Rheoleiddio Gwasanaethau Post Ewropeaidd (CERP). Roeddem hefyd yn rhan o'r gwaith o weithredu ac adolygu prosesau rheoleiddio cynllun parseli trawsffiniol yr UE yn y DU, a fydd yn dal yn berthnasol i waith parseli'r Post Brenhinol yn rhyngwladol ar ôl i gyfnod pontio'r DU ddod i ben.

Yn olaf, roeddem wedi cefnogi Llywodraeth y DU yn yr Undeb Post Cyffredinol (UPU), y corff rhynglywodraethol sy'n rheoli taliadau ar gyfer post rhyngwladol, gan gynnwys yng nghyswllt trafodaethau ar ddiwygio'r taliadau terfynfeydd rhyngwladol[1], a oedd yn cadw UDA rhag gadael yr UPU.

1 Y cyfraddau mae gweinyddiaethau post yn eu talu i'w gilydd am ddanfon post ei gilydd.

# 5. Sut rydym yn gweithio a chyda phwy rydym yn gweithio

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

### Defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall buddiannau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall tueddiadau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein hadroddiad blynyddol rhyngweithiol, Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu, adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, adroddiadau Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, ac Agweddau Plant a'u Defnydd o Gyfryngau yn benodol, yn dangos ac yn dadansoddi'r tueddiadau hyn.

Derbyniodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom dros 84,000 o alwadau, ffurflenni gwe, negeseuon e-bost a llythyrau yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr yn 2019/20, ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisïau a'n gwaith gorfodi. Mae defnyddwyr hefyd yn cysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebu, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Ond, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Mae ein swyddfeydd ymhob gwlad yn y DU yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y DU. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o wledydd y DU yn cynnig gwybodaeth a chyngor i Ofcom ar agweddau ar ei waith, a chyfathrebiadau yn gyffredinol, sydd o bwysigrwydd penodol i bob gwlad. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom. Mae'r Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau, sy'n cynnwys dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd bob chwarter ag Ofcom i drafod pynciau polisi sy'n berthnasol i ddefnyddwyr.

Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid a defnyddwyr, yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar bynciau penodol.

### Diwydiant a'r Llywodraeth

Mae Ofcom yn ymwneud ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU a Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU, ac rydym mewn cysylltiad ag amryw o gyrff rheoleiddio a chyrff rhyngwladol.

Mae gennym ddyletswydd statudol i sicrhau bod ein penderfyniadau'n ystyried safbwyntiau a buddiannau'r rheini sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Llundain, Caeredin a Belfast. Maent yn gweithio i sicrhau bod barn, anghenion ac amgylchiadau arbennig y gwledydd yn cael sylw uniongyrchol gan Ofcom. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o'r gwledydd hefyd yn darparu cyngor am fuddiannau a safbwyntiau'r gwledydd a'r rhanbarthau am yr holl faterion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau.

### Cyd-reoleiddwyr a chyrff eraill

Mae gan Ofcom bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r ASA (Awdurdod Safonau Hysbysebu), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo ar-alw. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r codau hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Pan fydd angen, gall yr ASA gyfeirio trwyddedeion at Ofcom.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm, sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw. Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn sy'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd ar ran Ofcom, drwy ei waith yn gorfodi cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom.

Mae gan y CMA (yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) bwerau cydredol o dan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr benodol ac o fewn fframwaith y gyfraith cystadleuaeth ar gyfer y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gweithio gyda'r CMA i sicrhau y gweithredir yn gyson ac yn gydgysylltiedig mewn perthynas â'r materion lle mae gennym bwerau cydredol ac rydym yn trafod pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i arwain ymhob achos.

## Pryd byddwn yn rheoleiddio

Yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 mae'n rhaid inni ystyried egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ei dargedu at achosion lle mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Gan fod y sector cyfathrebiadau'n newid mor gyflym, mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys.

## Egwyddorion Rheoleiddio Ofcom

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion penodedig.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

## Lleihau rheoleiddio

Mae Ofcom yn canolbwyntio ar leihau rheoleiddio lle bo hynny'n briodol. Rydym yn credu bod 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheolau'n cael eu targedu'n briodol, ac nad ydynt yn gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, ond roedd nifer y dogfennau a gafodd eu cyhoeddi yn weddol debyg. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2019/20.

Ffigur 1: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2019/20

| O'r 36 Prif Ddatganiad a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn: | Nifer | % |
|---|---|---|
| Mwy o reoleiddio/ rheoleiddio newydd | 6 | 16% |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 26 | 72% |
| Llai o reoleiddio | 2 | 6% |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 2 | 6% |

Mae golwg gyffredinol ar y datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn, ar gael yn yr Atodiad ar dudalennau 157-158.

## Ymgyngoriadau

Drwy ymgyngoriadau cyhoeddus, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion, ac ymateb iddynt, cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol.

Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

**Categori 1:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am ddeg wythnos.

**Categori 2:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am chwe wythnos.

**Categori 3:** ymgyngoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod arferol ar gyfer ymgynghori yn fis:

- materion technegol;
- lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
- lle mae'r mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;
- lle na chaiff y cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
- lle nad yw'r cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoliad sy'n bodoli eisoes.

Mae ffigur 2 yn cynnwys dadansoddiad o hyd ein hymgyngoriadau fesul sector, fel y pennwyd gan ein categorïau o ymgyngoriadau.

Ffigur 2: Dadansoddiad o hyd ymgyngoriadau: 2019/20

| | Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos o hyd (gan gynnwys ymgyngoriadau categori 2 a chategori 3) |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 5 | 9 |
| Darlledu | 2 | 18 |
| Sbectrwm | 1 | 8 |
| Post | 0 | 1 |
| Arall | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **8** | **38** |
| Cyfanswm fel % o'r holl ymgyngoriadau | **17%** | **83%** |
| Cymhariaeth â 2018/19 | **(36%)** | **(64%)** |

## Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 2). Yn 2019/20, cyhoeddwyd dros 80% o'n penderfyniadau cyn pen ugain wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt cyn pen deg wythnos.

## Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal asesiad effaith pan rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, ac yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Rhaid i ni gyhoeddi rhestr o'r asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal gennym yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn ymddangos yn yr Atodiad ar dudalen 159.

Ym mis Gorffennaf 2005, roeddem wedi cyhoeddi'r canllawiau: **Better policymaking: Ofcom's approach to impact assessment**, a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses o lunio polisïau, gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi.

Dengys Ffigur 3 fod 48% o ymgyngoriadau yn 2019/20 wedi cynnal asesiad effaith, a oedd wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori.

Dan rai amgylchiadau efallai na fydd cynnal asesiad effaith yn ofynnol neu'n briodol, neu efallai ei fod wedi'i gynnwys yng ngweddill yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

Ffigur 3: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 14 | 6 |
| Darlledu | 20 | 7 |
| Sbectrwm | 9 | 7 |
| Post | 1 | 1 |
| Arall | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **46** | 22 |
| Cyfanswm fel % o'r holl ymgyngoriadau | | 48% |


 

# 6. Adolygiad Ariannol

**Er bod Ofcom yn atebol i Senedd y DU yn uniongyrchol, daw ein cyllid o ffioedd a godir ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.**

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n cynnig gwerth am arian, ac sy'n ymwybodol o gostau wrth gyflawni ein dyletswyddau. Dros y 15 mlynedd diwethaf, rydym wedi parhau i sicrhau arbedion cyllidebol mewn termau real tebyg am debyg o un flwyddyn i'r llall.


Adennill y costau a gyllidebwyd ar gyfer 2019/20 fesul sector




Rydym hefyd yn gyfrannwr net i Drysorlys EM; casglodd Ofcom £373.3m o ffioedd a chosbau yn 2019/20, ac rydym wedi cadw £56.8m o'r arian hwnnw i ariannu ein gwaith rheoli sbectrwm a dyletswyddau perthnasol eraill. Trosglwyddwyd y balans i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel ein hadran noddi, Cronfa Gyfunol y DU, yn ogystal â'r Adran Cyllid a Phersonél - Gogledd Iwerddon (DFPNI) a Thrysorlys Ynys Beilïaeth Guernsey.

Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys casglu a throsglwyddo'r ffioedd trwydded a gasglwyd o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol gan ddeiliaid trwyddedau darlledu, a dirwyon a chosbau a roddwyd i randdeiliaid.

£3.73.3m o ffioedd a thaliadau a gasglwyd o dan Adran 400 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003



## Perfformiad ariannol

Yn 2019/20 roedd ein halldro arian yn £124.0m, ac felly o fewn 0.2% i'n cyllideb, sef £124.2m.

| £m | Cyllideb | Alldro | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| Gwariant | 124.2 | 124.0 | **0.2** |

Mae bron i 62% o gyfanswm ein sylfaen gostau yn ymwneud â chostau staff, ac mae rhan sylweddol o'r sylfaen gostau sy'n weddill yn sefydlog mewn perthynas â chostau eiddo a systemau.

Mae Nodyn 2 yn y cyfrifon yn Adran C yn cysoni cyfanswm y gwariant gweithredu fel y cyflwynir yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr i alldro gweithredol gwirioneddol Ofcom. Mae'r nodyn hefyd yn cysoni'r incwm ar yr un sail ac yn cyflwyno incwm ac alldro gweithredol gwirioneddol Ofcom fesul sector. Mae'r alldro gweithredol gwirioneddol yn cynrychioli'r costau sy'n seiliedig ar groniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol ac nid yw'n cynnwys eitemau anariannol fel dibrisiant, amorteiddiad a darpariaethau.

Mae Ofcom yn cyflwyno'r costau sy'n ymwneud â Chlirio Sbectrwm ar wahân, er mwyn gwahaniaethu'n glir oddi wrth weithgarwch gweithredu craidd Ofcom. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ar dudalen 56.

## Incwm gweithredu

Mae'r £125.0m (2018/19: £124.3m) o incwm a dderbyniwyd yn 2019/20 yn cynnwys cyfrifoldebau craidd Ofcom (heb gynnwys Clirio Sbectrwm). Fel rhan o hyn, cawsom hefyd £0.7m o gyllid grant gan Innovate UK o dan Gronfa Arloesi'r Rheoleiddwyr, am waith arloesol ar ddefnyddio cadwyn atal i reoli rhifau ffôn yn y DU.

## Gwariant gweithredu

Roedd y gwariant sy'n ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom yn 2019/20, ond heb fod yn gysylltiedig â staff, wedi cynyddu £1.9m i £47.9m (2018/19: £46.0m), heb gynnwys costau staff sydd ar y gyflogres. Mae'r prif amrywiadau gweithredu ers y flwyddyn flaenorol yn deillio o'r canlynol:

- Roedd y costau TG wedi cynyddu £1.4m wrth i ni adnewyddu ein hystad TG;
- Roedd costau staff dros dro a recriwtio wedi cynyddu £0.8m i ddelio â swyddi gwag; mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd mewn costau staff dros dro yn deillio o'r angen i recriwtio staff yn gyflym yn yr elfen diogelwch a chadernid rhwydweithiau tra bo staff parhaol yn cael eu recriwtio ar gyfer y sgiliau arbenigol sydd eu hangen, a hefyd yn y Tîm Pobl a Thrawsnewid yn dilyn ailstrwythuro. Mae penodiadau parhaol wedi cael eu gwneud ar gyfer y ddwy elfen erbyn hyn;
- Roedd cost y gwasanaethau a ddarperir yn allanol wedi cynyddu £0.4m mewn perthynas â'r gwaith paratoi ar gyfer yr arwerthiant o fandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6 – 3.8 GHz a gynhelir cyn bo hir;
- Roedd costau eiddo wedi gostwng £0.8m oherwydd ein bod wedi cydnabod credyd ardrethi mewn perthynas â Riverside House. Yn dilyn cyflwyno IFRS 16, cyflwynir costau les eiddo ar linell ar wahân yn y gwariant gweithredu, Dibrisiant asedau les ROU.
- Roedd costau staff wedi cynyddu £2.4m i £79.2m (2018/19: £76.8m). Roedd 937 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (2018/19: 902 cyfwerth ag amser llawn). Mae'r cynnydd mewn costau o un flwyddyn i'r llall yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog blynyddol (£1.8m) a thwf ein tîm Technoleg wrth i ni ddatblygu ein gallu o ran diogelwch a chadernid rhwydweithiau a data.
- Oherwydd llai o weithgarwch ailstrwythuro, mae'r costau ailstrwythuro wedi gostwng £0.6m i £0.3m (2018/19 £0.9m).

# Gwarged/diffyg am y flwyddyn ariannol

## Gwarged neu ddiffyg cyllido

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a chyflawni ei raglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian gwirioneddol y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a sicrheir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn y ddwy flynedd ariannol olynol.

Mae'r gwarged cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, sef £8.6m (2018/19: £3.3m o warged).

## Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan mae dibrisiant, amorteiddiad a thrafodiadau anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf a'r cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Y gwarged cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth, a gofnodwyd yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £226.7m (2018/19: £229.6m o ddiffyg). Mae'r amrywiad sylweddol i'r flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu cynnwys darpariaeth o £232m yn natganiadau ariannol 2018/19, a ariannwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac a setlwyd yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r diffyg a'r gwarged cyfrifyddu mawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn ddigwyddiadau achlysurol.

## Clirio Sbectrwm

Mae'r holl gostau sy'n ymwneud â Chlirio Sbectrwm yn cael eu cofnodi ar wahân i gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

Mae clirio'r band 700 MHz yn dal yn rhaglen waith fawr i Ofcom. Mae'r band yn cael ei glirio er mwyn sicrhau bod y sbectrwm ar gael ar gyfer data symudol. Bydd y rheini sy'n defnyddio'r band 700MHz ar hyn o bryd, teledu daearol digidol (DTT) a dyfeisiau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE), yn symud i amleddau eraill.

Mae'r Llywodraeth wedi darparu cyllid cymorth grant ar gyfer y cynllun grant, er mwyn galluogi Ofcom i ddosrannu grantiau i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen ar gael yn atodiad 8.

Roedd y gwariant Clirio Sbectrwm yn £76.7m yn 2019/20 (2018/19: £72.5m), ac mae hyn yn cynnwys £73.7m o grantiau a dalwyd i'r rheini a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun grantiau.

Cawsom gyfanswm o £79.2m o incwm (2018/19: £72.1m). Bydd addasiadau'n cael eu gwneud ar gyfer y gwarged o £2.6m fel rhan o gymorth grant 2020/21.

## Arian ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EM

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Nid yw'r trafodiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn Nodyn 23 i'r cyfrifon, ac mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1 ar dudalen 156.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, roedd Ofcom wedi casglu £373.3m (2018/19: £1,688.6m[1]) ar ran Trysorlys ei Mawrhydi, ac roedd £56.8m (2018/19: £54.3m) wedi cael ei gadw i dalu am rai o gyfrifoldebau craidd Ofcom, gan gynnwys Rheoli Sbectrwm. Roedd yr amrywiad i'r flwyddyn flaenorol yn deillio o'r arwerthiant sbectrwm a gynhaliwyd yn 2018/19.

Trosglwyddwyd cyfanswm o £312.8m i gyfrifon y Llywodraeth yn y flwyddyn ariannol.

[1] Casglwyd £1.3bn o dalebau yn 2018/19 fel rhan o ddiweddglo'r arwerthiant sbectrwm o'r bandiau GHz 2.3 a 2.4.

## Tariffau


Cyhoeddodd Ofcom Dablau Tariffau 2020/21 ar 31 Mawrth 2020, sy'n seiliedig ar gyllideb o £131.9m a bennwyd ar gyfer 2020/21, ac yn ymgorffori'r gwahaniaethau rhwng y costau a gyllidebwyd ar gyfer 19/20 a'r gwir ganlyniadau, fesul sector.

Mae cyllideb 2020/21 yn fwy na chyllideb 2019/20 oherwydd ein dyletswydd newydd i reoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideo, a mwy o wariant ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol a'r meysydd gwaith Diogelwch a Chadernid Rhwydweithiau. Mae cyllideb 2020/21 yn cyd-fynd â chap gwariant Trysorlys Ei Mawrhydi a bennwyd ar gyfer Ofcom.

Bydd y ffioedd a'r taliadau'n amrywio yn ôl sector gan eu bod yn adlewyrchu gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2020/21, ynghyd â'r amrywiadau rhwng cyllideb 2019/20 a'r gwariant terfynol go iawn.

Fel y gwelir yn Ffigur 6 isod, ar wahân i'r costau sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau newydd i reoleiddio'r BBC o 3 Ebrill 2017 ymlaen, mae tariffau 2020/21 Ofcom ar gyfer y gwahanol sectorau (ar wahân i'r ddyletswydd newydd i reoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideo) yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd pum mlynedd.

Crynodeb o daliadau a ffioedd Tariff dros 5 mlynedd



## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â'u buddion wedi'u diffinio. Mae'r ddau gynllun ar gau i newydd-ddyfodiaid, a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r adeg hon ymlaen, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu ymuno â chynllun cyfranddeiliaid Ofcom. Mae nodiadau 1(k) ac 20 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd ar gyfer y naill gynllun a'r llall, ar 31 Mawrth 2018, yn dangos gwarged o £0.4m yng nghyllid cyfun y ddau gynllun. Mae prisiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn dangos gwarged o £0.4m. Mae holl rwymedigaethau prisiau cynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) wedi cael eu prynu i mewn, ac felly nid oes gwarged na diffyg.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2019/20 yn dangos gwarged o £22.4m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn o dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu disgowntio yn unol â'r arenillion ar fondiau o ansawdd uchel sydd, o dan amodau presennol y farchnad, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i bennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol at Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac at gynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Mae taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredu, fel y'u cyfrifir o dan IAS19, yn cael eu cynnwys yn alldro'r gwariant gweithredu a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffau a godir ar gyfranddeiliaid bob blwyddyn.

Oherwydd y gwaith lliniaru risg rhwng Ofcom, Ymddiriedolwyr ac Actiwarïaid y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi bellach gan flwydd-daliadau. Fel rhan o'r gweithgareddau parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

# 7. Cyfrifoldeb Corfforaethol

## Ymrwymiad Ofcom i gyfrifoldeb corfforaethol

Rydym yn anelu at fod yn gyflogwr cyfrifol a chydnabod a rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd a'r gymuned ehangach drwy dri maes gweithgaredd allweddol:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, nid yn unig yn Ofcom ond yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio hefyd (gweler yr adran Ein Gweithwyr ar dudalen 104);
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol (gweler yr adran Cynaliadwyedd ar dudalen 61); a
- ennyn diddordeb, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr, ar yr un pryd â chefnogi mentrau lleol (gweler yr adran Gwirfoddoli a chymuned isod)

Credwn fod agwedd ragweithiol at gyfrifoldeb corfforaethol yn cyfrannu at ein llwyddiant fel rheoleiddiwr. Dyma rai o'r manteision:

- mae cydnabod ac adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU rydym yn ei gwasanaethu yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr, er mwyn gwneud i gyfathrebiadau weithio i bawb;
- mae gwerthfawrogi, hybu ac annog amrywiaeth a gwahaniaethau yn creu gweithlu sy'n fwy brwd, cynhyrchiol a bodlon; ac
- mae bod yn gyfrifol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol yn lleihau ein costau gweithredol ac yn meithrin cysylltiadau agosach â'n cymuned leol.

## Gwirfoddoli a chymuned

Rydym yn annog cydweithwyr i wirfoddoli a chyfrannu at gynlluniau cymunedol, oherwydd rydym yn credu bod hyn yn ffordd effeithiol iddyn nhw gynnig eu sgiliau; ennill sgiliau newydd, aros yn iach yn feddyliol, magu hyder, a hyrwyddo ein hamcanion amrywiaeth. Mae gan bob cydweithiwr hawl i dri diwrnod o wyliau gyda thâl i wirfoddoli bob blwyddyn. Yn 2019, roeddem wedi cydweithio â'n rhanddeiliaid lleol mewn sawl ffordd.

### Ysgolion a sefydliadau

Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi ymweld ag ysgolion lleol ac wedi croesawu ymweliadau gan ysgolion er mwyn i Ofcom ymgysylltu â phobl ifanc am ddewisiadau gyrfa yn y dyfodol a ffyrdd o ymuno â'n sefydliad, fel prentisiaethau neu ein cynllun i raddedigion.

Ym mis Ionawr 2020, roeddem wedi croesawu 50 o fyfyrwyr Safon Uwch o bedair ysgol uwchradd yn Llundain. Roedd hyn yn gyfle i'r myfyrwyr gael syniad o sut brofiad yw gweithio fel economegydd yn Ofcom. Treuliodd y myfyrwyr y diwrnod gydag economegwyr Ofcom, gan gymryd rhan mewn gweithdai ar broblemau y mae economegwyr yn helpu i'w datrys. Daeth y diwrnod i ben gyda sesiwn panel gyda rhai o'n graddedigion economeg a'n prentisiaid yn siarad am eu llwybrau i Ofcom.

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd diwrnod agored i fyfyrwyr prifysgol er mwyn dangos ein llwybrau Polisi ac Economeg i raddedigion. Cafodd y digwyddiad ei hwyluso gan Bright Networks er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth o amrywiaeth eang o brifysgolion a chymysgedd amrywiol o fyfyrwyr. Aethom ati i ddangos y gwaith rydym ni'n ei wneud yn Ofcom i oddeutu 40 o fyfyrwyr, a bu graddedigion cyfredol a blaenorol Ofcom yn rhannu eu profiadau ac yn ateb cwestiynau gan y myfyrwyr.

Rydym yn dal yn noddwr corfforaethol ar gyfer Gwobr Peirianwraig Ifanc y Flwyddyn y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET). Rydym yn gweithio gydag IET i hyrwyddo menywod ym maes peirianneg drwy gyflwyno a chymryd rhan mewn digwyddiadau, gweithdai a diwrnodau agored. Ar ben hynny, roeddem wedi cymryd rhan unwaith eto mewn digwyddiad Diwrnod Agored Peirianneg yr IET ym mis Awst 2019, gan agor ein swyddfa yn Baldock, Swydd Hertford i blant a'u rhieni. Yn Ofcom, mae ein Grwpiau Technoleg a Sbectrwm wrthi'n datblygu rhaglen i gael mwy o amrywiaeth o ran y rhywiau ac ethnigrwydd yn ein swyddi STEM. Mae cydweithwyr hefyd wedi sefydlu cyfleoedd gwirfoddoli eraill ar sail ad hoc, gan gefnogi achosion sy'n bwysig iddynt hwy.

## Prentisiaethau ac interniaethau

Rydym yn ymrwymedig i ehangu'r llwybrau i bobl ifanc ymuno â'r sefydliad a datblygu sgiliau i Ofcom. Rydym yn talu'r Ardoll Prentisiaethau ac yn adolygu ein dull gweithredu cyffredinol o ran prentisiaethau, er mwyn cynnig lleoliadau gwaith tymor hir am dâl sy'n seiliedig ar sgiliau. Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi 24 o gydweithwyr ar raglenni prentisiaeth sy'n gwneud swyddi ym maes Gweinyddu Busnes, Peirianneg Sbectrwm, y Ganolfan Cyswllt Defnyddwyr, Cyllid Cystadleuaeth, Economeg, Polisi, Seiberddiogelwch, Dadansoddi Data, Digidol a Chynnwys ac Ymchwil i'r Farchnad, gyda saith arall yn defnyddio'r Ardoll Brentisiaeth i wella eu sgiliau ac ennill cymhwyster sy'n amrywio o CIMA a CIPD i BEng.

Roeddem wedi parhau â'n degawd o bartneriaeth â Career Ready, elusen addysg busnes, i dderbyn chwech o fyfyrwyr Safon Uwch ar interniaethau â thâl am bedair wythnos dros yr haf, ynghyd ag 17 o fyfyrwyr ar brofiad gwaith am wythnos drwy S4S NextGen. Mae S4S NextGen yn gweithio gydag ysgolion y wladwriaeth, academïau a myfyrwyr coleg rhwng 14 a 18 oed, i'w helpu i ddod o hyd i brofiad gwaith ysbrydoledig gyda sefydliadau blaenllaw. Cafodd yr holl fyfyrwyr eu lleoli mewn amrywiaeth eang o feysydd proffesiynol fel Technoleg, Cyllid a Strategaeth, ac Ymchwil.

Roedd ein cydweithwyr yn adran y Gyfraith wedi cydweithio â rhaglen 'Pathways to Law' Ymddiriedolaeth Sutton, i dderbyn chwe myfyriwr ar brofiad gwaith â thâl drwy gydol yr haf. Nod y rhaglen yw ehangu mynediad at y proffesiwn cyfreithiol, meithrin dyheadau myfyrwyr a'u galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gyrfa yn y dyfodol. Mae'r rhaglen yn agored i fyfyrwyr sy'n mynychu ysgolion nad ydynt yn codi ffi, a lle mai nhw yw aelodau cyntaf y teulu i fynd i'r brifysgol.

## Elusen Ofcom

Yn ystod 2019, bu cydweithwyr yn cynnal nifer o weithgareddau i godi arian i elusen enwebedig Ofcom, Macmillan Cancer Support. Bu ein rhwydweithiau ar amrywiaeth cydweithwyr hefyd yn codi arian i elusennau fel y Red Box Project, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ferched ifanc yn peidio â chael addysg oherwydd eu bod yn methu fforddio prynu'r cynnyrch mislif y mae arnynt ei angen. Yn ogystal â chyfraniad ariannol, rhoddodd cydweithwyr yn Ofcom gynnyrch mislif, dillad isaf a theits yn rhodd i ysgolion lleol. Codwyd arian hefyd ar gyfer yr African Caribbean Leukaemia Trust, fel rhan o ŵyl fwyd yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon 2019.

# 8. Adroddiad cynaliadwyedd

Mae rheolaeth amgylcheddol ac effaith ar yr amgylchedd yn rhan allweddol o'r ffordd rydym yn rheoli'r sefydliad. Roeddem wedi gosod targedau amgylcheddol uchelgeisiol i'n hunain yn 2007, i leihau ein hallyriadau carbon o leiaf 50 y cant erbyn 2020. Drwy fynd ati i newid ein ffordd o weithio ar draws y DU, rydym wedi mynd ymhellach na hynny, gyda 59% o ostyngiad mewn tunelli o garbon deuocsid a'i gyfatebol (tCO2e) ers gosod y targed.

Hefyd mae gan Ofcom ymrwymiad parhaus i agenda Greening Government, ac rydym wedi llwyddo i gyrraedd y targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, i anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi, ac i ddefnyddio llai o bapur ar sail llinell sylfaen 2009/10.

## Perfformiad yn erbyn targedau amgylcheddol Greening Government

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr**
Targed – lleihau 43%
**Cyflawniad – lleihau 59%**

**Defnyddio dŵr**
Targed – <11.4$m^3$ fesul FTE
**Gwirioneddol – 19.7$m^3$ fesul FTE**

**Teithiau Busnes**
Targed – 30% yn llai o deithiau hedfan domestig
**Gwirioneddol – 30% yn fwy o deithiau hedfan domestig**

**Lleihau gwastraff**
Targed 1 – gwastraff tirlenwi <10%
**Gwirioneddol – gwastraff tirlenwi 0%**

Targed 2 – defnyddio 50% yn llai o bapur
**Gwirioneddol – defnyddio 79% yn llai o bapur**

Targed llinell sylfaen 2009/10 yw'r sail ar gyfer pob cymhariaeth. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cynnwys allyriadau cwmpas 1 (uniongyrchol) a chwmpas 2 (anuniongyrchol).

Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb ar draws y gwledydd, ac yn enwedig yn yr Alban, ac felly nid ydym wedi llwyddo i gyrraedd y targed i leihau teithiau hedfan domestig.

I gyfyngu'r effaith, rydym wedi gwrthbwyso'r allyriadau carbon o'n holl deithiau hedfan (teithiau byr a theithiau hir) rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2020 drwy gefnogi cynllun gwrthbwyso carbon yn y DU sy'n creu coetir yn Arnott's Loan (Yr Alban) a Lowther (Lloegr).

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym wrthi'n adolygu ein hagwedd at deithio, gyda'r bwriad o leihau nifer ein teithiau hedfan domestig.

Oherwydd natur ein gwaith a'r ffaith bod y DU wedi ymadael â'r UE yn ddiweddar, mae ein cysylltiadau byd-eang yn bwysicach nawr nag erioed. Drwy fuddsoddi mewn cyfarpar fideogynadledda cyffredin yn ein holl swyddfeydd, a dechrau defnyddio Microsoft Teams a Surface Hubs, mae gennym bellach y dechnoleg ddigidol i osgoi teithiau diangen.

## Cyfleusterau a TGCh

Eleni roedd y defnydd o ddŵr wedi cynyddu 35% – eithriad oedd hyn, oherwydd bod dŵr wedi bod yn gollwng yn annisgwyl. Roedd yn anodd gwybod ymhle roedd y dŵr yn gollwng, ac mae'r broblem wedi cael ei datrys ers hynny.

Lle bo modd, symudwyd pob contract trydan a nwy i gyflenwyr ynni adnewyddadwy.

Mae mabwysiadu strategaeth gweithio ystwyth wedi arwain at ddwy effaith – mae gennym lai o ofod swyddfa yn ein pencadlys, ac mae ein cydweithwyr yn teithio llai oherwydd eu bod yn gallu gweithio'n fwy hyblyg o'u cartref neu o leoliadau eraill. Mae defnyddio offer TG cludadwy safonol wedi symleiddio'r broses bontio ar gyfer cydweithwyr.

Mae ein strategaeth cwmwl-yn-gyntaf yn golygu ein bod yn gwerthuso opsiynau yn y cwmwl cyn ystyried opsiynau eraill. O ganlyniad, rydym wedi symud at ddarparwyr canolfan ddata a rennir sy'n fwy effeithlon; mae ein darparwyr wedi gwneud ymrwymiadau a datganiadau amgylcheddol cadarn ar wahân.

Wrth edrych tua'r dyfodol, ein nod yw cael ardystiad ISO 14001 am reolaeth amgylcheddol o fewn y ddwy flynedd nesaf.

Golwg gyffredinol ar berfformiad yng nghyswllt cynaliadwyedd dros bum mlynedd

| | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr (Cwmpas 1,2) | tCO2e | 1,569 | 1,456 | 1,209 | 1,078 | 493 |
| | Gwariant | £444,964 | £405,810 | £459,238 | £404,206 | £158,351 |
| Teithiau Busnes (Cwmpas 3) | tCO2e | 250 | 312 | 519 | 555 | 594 |
| | Gwariant | £569,099 | £663,705 | £705,602 | £742,876 | £837,982 |
| Gwastraff | tCO2e | 173 | 172 | 76 | 198 | 189 |
| | Gwariant | £32,023 | £37,984 | £7,004 | £43,805 | £35,000 |
| Defnydd o adnoddau cyfyngedig | Defnydd dŵr (m3) | 10,767 | 11,282 | 9,379 | 13,988 | 18,874 |
| | Gwariant | £16,784 | £22,248 | £6,929 | £19,583 | £23,321 |
| | Rimiau papur | 7,545 | 6,317 | 3,915 | 2,579 | 2,411 |

## Caffael

Yn 2019, roeddem wedi datblygu dull o holi cyflenwyr posib am faterion ehangach yn ymwneud â chynaliadwyedd, drwy gynnwys meini prawf i werthuso gwerth cymdeithasol ar gyfer yr holl brosesau caffael uchel eu gwerth. Mae gwerth cymdeithasol yn cynnwys tair elfen o gaffael cynaliadwy sy'n annog cyflenwyr posib i gynnwys buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn eu darpariaeth, yn ogystal â darparu'r gwasanaethau angenrheidiol. Mae gan y maen prawf gwerth cymdeithasol bwysoliad sylfaenol o 10% o'r elfen ansoddol, i bwysleisio ei bwysigrwydd. Cafodd y newid hwn ei gefnogi a'i gymeradwyo'n llawn ar draws y sefydliad, ac mae'n cael ei roi ar waith yn awr.

Er mwyn helpu i ymgorffori'r meini prawf hyn yn ein prosesau, rydym wedi cyflwyno Pecyn Cymorth Buddion Cymdeithasol sy'n helpu rhanddeiliaid a chydweithwyr masnachol i gynnwys buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yn ein contractau, drwy drafod a datblygu'r ystyriaethau hyn ar y cam cyn caffael.

## Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth

Does gan y safleoedd rydym ni'n eu gweithredu ddim llawer o fannau gwyrdd er mwyn ystyried strategaeth bioamrywiaeth. Yn lle hynny, rydym wedi dewis cefnogi dau brosiect creu coetiroedd eleni, i ddal yr allyriadau carbon deuocsid o'n teithiau hedfan. Mae'r prosiectau hyn hefyd yn gwneud cyfraniad ehangach i gymunedau ac amgylcheddau lleol.

Mae'r ddau brosiect wedi'u cofrestru gyda'r gofrestr Markit annibynnol, ac maen nhw wedi'u hardystio i safonau ISO gan Wasanaeth Achredu'r DU (UKAS). Mae ein credydau carbon wedi'u hardystio o dan God Carbon Coetiroedd y DU, sy'n cael cefnogaeth gan y Llywodraeth, ac maen nhw'n ymddangos ar y Gofrestr Markit1[1].

Mae Ofcom wedi cael ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon eto eleni.

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu
17 Gorffennaf 2020

1 https://mer.markit.com/br-reg/public/index.jsp?name=ofcom&entity=assignment&entity_domain=Markit,GoldStandard



ADRAN B

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r adran hon yn egluro'r trefniadau llywodraethu a'r llinellau atebolrwydd i sicrhau bod ein hamcanion a'n dyletswyddau yn cael eu cyflawni.

# 9. Llywodraethu

## Trosolwg Llywodraethu'r Cadeirydd

Ar ran Bwrdd Ofcom, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae Llywodraethu Corfforaethol yn dal yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom ac mae'n golygu mwy na glynu wrth set o reolau a chanllawiau penodedig. Mae'n hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithredu, ac mae'n gosod naws y sefydliad.

Eleni, rydym wedi sefydlu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sydd wedi'i strwythuro'n dda, ac rydym bob amser yn awyddus i ddatblygu ein harferion i sicrhau ein bod yn dal i arwain y ffordd o ran arferion gorau wrth lywodraethu, a'n bod mewn sefyllfa dda i ragweld yr hyn a fydd yn digwydd yn y sectorau cyfathrebiadau rydym ni'n eu rheoleiddio ac sy'n newid o hyd. Y rheini ar y brig sy'n gosod y naws, ac fel Bwrdd, ni sy'n pennu'r cyfeiriad strategol a'r agwedd at risg, ac yn goruchwylio ac yn rheoli'r gwaith o redeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

Fel Cadeirydd, fy ngwaith i yw sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo yng nghyfarfodydd y Bwrdd i gael trafodaethau agored a heriol ar faterion o bwys ac, yn benodol, ar ein blaenoriaethau strategol.

Mae'r tudalennau nesaf yn egluro sut mae Ofcom yn mynd ati i lywodraethu, gan gynnwys sut mae'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu. Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom gynnal gwerthusiad ffurfiol, a oedd wedi'i hwyluso'n allanol, o effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd. Canfu ein hadolygiad fod trefniadau llywodraethu Ofcom yn gweithio'n dda, gyda strwythur pecynnau'r Bwrdd, prosesau rheoli cyfarfodydd, ffocws cyfarfodydd a goruchwyliaeth y Bwrdd o faterion rhanddeiliaid, strategol a gweithredol yn cael sgôr uchel.

Y prif flaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y Bwrdd dros y cyfnod o 12 mis yn dilyn yr adolygiad oedd cydlynu gwell ar lefel y Bwrdd, rheoli agendâu yn well, ymgysylltu mwy yn allanol, canolbwyntio mwy ar y strwythur trefniadaethol, a blaenoriaethau pobl ac ymgysylltu mwy â'r Weithrediaeth.

Mae cyfres o gamau wedi cael eu cymryd ar draws yr holl elfennau hyn, a chynhaliwyd gwerthusiad arall a oedd wedi'i hwyluso'n allanol ym mis Mawrth 2020, sydd wedi galluogi'r Bwrdd i gadw golwg ar welliannau a newidiadau o un flwyddyn i'r llall.

Ar ben hynny, rydym wedi cynnal adolygiad llawn o drefniadau llywodraethu corfforaethol Ofcom gan gynnwys lle gall Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (y "Cod") lywio ein dull gweithredu mewn perthynas ag arferion busnes a chorfforaethol, materion sy'n cael eu cadw i'r Bwrdd, ein Fframwaith Awdurdodau Ariannol a chylch gorchwyl pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd. Er nad yw Ofcom yn rhwym wrth y Cod, rydym wedi edrych i weld a allai unrhyw un o'r egwyddorion a'r darpariaethau yn y Cod gyfrannu at ein dull gweithredu, fel mater o arfer gorau.

Rydym hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl newydd (yn lle ein Pwyllgor Taliadau a'n Pwyllgor Enwebiadau). Mae hynny wedi ein galluogi i gyflawni rôl ehangach yn goruchwylio pobl a diwylliant, yn unol ag argymhelliad y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) yn ei ganllawiau ar rôl Pwyllgorau Taliadau yn y dyfodol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019. Mae hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi'r pwyslais cywir ar ddatblygu talentau a chynllunio olyniaeth, sy'n elfennau hanfodol o sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n dda.

"Mae ein prif flaenoriaeth yn glir: creu gwerth cynaliadwy tymor hir ym mhopeth a wnawn i ddefnyddwyr, a rhagori wrth wasanaethu ein rhanddeiliaid eraill. Rôl y Bwrdd yw pennu nodau strategol Ofcom, rhoi'r arweinyddiaeth briodol i'w cyflawni, a sicrhau darpariaeth gyson drwy fonitro perfformiad yn erbyn y nodau strategol hyn."

Yr Arglwydd Burns

Rwyf wedi ymrwymo i gadw'r materion hyn ar frig ein hagenda, gan roi diweddariadau i'r Bwrdd yn rheolaidd wrth i ni weithio i ddatblygu llif gref o dalentau ar gyfer y dyfodol.

Dros y flwyddyn diwethaf rydym wedi datblygu cyfansoddiad y Bwrdd ac, wrth i Aelodau newydd gael eu penodi i'r Bwrdd, byddwn yn ceisio gwella amrywiaeth ein Bwrdd. Penodwyd David Jones yn Aelod Bwrdd cyntaf Ofcom ar ran Cymru ym mis Ebrill 2019, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i benodi Aelod newydd o'r Bwrdd ar ran Gogledd Iwerddon.

Rydym hefyd wedi cael Prif Weithredwr newydd yn ystod y cyfnod adrodd, wrth i Jonathan Oxley gymryd yr awenau gan Sharon White fel Prif Weithredwr dros dro ddiwedd mis Tachwedd 2019. Rydym yn ddiolchgar dros ben i Sharon am ei holl waith i ddatblygu agwedd flaengar Ofcom, a synnwyr clir o gyfeiriad. Cafodd Sharon ei gwneud yn Fonesig yn dilyn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd eleni, yn gydnabyddiaeth deilwng o'i chyfraniad. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Jonathan am roi sefydlogrwydd i Ofcom fel Prif Weithredwr dros dro wrth i ni aros i'r Fonesig Melanie Dawes ymuno â ni fel ein Prif Weithredwr newydd ddechrau mis Mawrth 2020. Bydd y Bwrdd yn dal i roi cefnogaeth i arweinwyr a chydweithwyr Ofcom dros y flwyddyn nesaf. Rwy'n hyderus y bydd Melanie yn sicrhau bod Ofcom yn parhau i gynnal sector cyfathrebiadau sy'n ffynnu, a bod buddiannau defnyddwyr yn gwbl ganolog i waith Ofcom.

**Yr Arglwydd Burns**
Cadeirydd Bwrdd Ofcom

3 Gorffennaf 2020

**Roedd 2019/20 yn flwyddyn bwysig i Ofcom ac i Fwrdd Ofcom. Rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud i gyflawni nifer o'n prif amcanion, gan gynnwys y canlynol:**

- **Gorffennaf 2019** – cyhoeddi mesurau i sicrhau bod Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn parhau i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel i wrandawyr a gwylwyr;
- **Hydref 2019** – cyhoeddi ein cynlluniau i ryddhau tonnau awyr hollbwysig er mwyn bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau band eang symudol, a chefnogi'r broses o gyflwyno 5G;
- **Rhagfyr 2019** – cyflwyno rheolau newydd i wella darpariaeth symudol er mwyn ei gwneud hi'n haws newid darparwr band eang;
- **Ionawr 2020** – cyhoeddi ein Hadolygiad o Fynediad at Delegyfathrebiadau Sefydlog, gan barhau hefyd i gryfhau hawliau defnyddwyr gyda'n cyhoeddiad Tegwch i Ddefnyddwyr.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym hefyd wedi helpu'r sector cyfathrebiadau i baratoi at Brexit.

# 10. Ein Bwrdd

**Rydym yn cydnabod nad yw cydbwysedd presennol y Bwrdd yn cynrychioli poblogaeth amrywiol y DU. Rydym yn gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod ein dulliau recriwtio yn y dyfodol yn cyd-fynd â'n hymrwymiad strategol i fod yn sefydliad amrywiol, cynhwysol a theg. Bydd cael Bwrdd sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau ein cymdeithas yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer holl ddefnyddwyr a dinasyddion y DU.**

**Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o ymestyn ein cyrhaeddiad er mwyn i ni allu denu ymgeiswyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Rydym yn cydnabod bod angen i'n Byrddau, ein Pwyllgorau a'n Paneli adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas y DU. Rydym wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â hyn, a byddwn ni'n parhau i wneud hynny.**

## Amrywiaeth y Bwrdd

Dyma oedd amrywiaeth ein Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020:


Rhywedd




Ethnigrwydd




Cyfnod yn y swydd





## Penodiadau i'r Bwrdd

Mae Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod o bedair blynedd. Caiff Aelod yr Alban ac Aelod Cymru eu penodi gan Weinidogion yr Alban a Gweinidogion Cymru yn y drefn honno, ar ôl ymgynghori a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd a'r Aelodau Anweithredol, ac mae'n rhaid cael sêl bendith yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth benodi'r Prif Weithredwr. Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau mewn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ac yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau1[1]. Mae Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau[2] yn cael ei chadw hefyd.

1 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/55045/members_code_of_conduct.pdf
2 https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/register-disclosable-interests



**Penodiad**
**Penodwyd yn Gadeirydd Bwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2018**

**Cyfnod** 2 flynedd

**Aelodaeth** P

## Yr Arglwydd Burns, GCB

### Cadeirydd ac Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Mae'r Arglwydd Burns yn Uwch Gynghorydd i Banco Santander SA, yn Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Artistiaid Clasurol Ifanc ac yn Is-gadeirydd Hay Festival of Literature and Arts Ltd. Hefyd, mae'r Arglwydd Burns yn Gadeirydd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru Llywodraeth Cymru, yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Canolbarth Cymru ac yn Ddirprwy Lywydd yr Academi Gerdd Frenhinol. Roedd yn arfer bod yn Brif Gynghorydd Economaidd ac yn Ysgrifennydd Parhaol i Drysorlys EM, yn Gadeirydd Santander UK plc, yn Gadeirydd Channel Four Television, yn Gadeirydd Marks and Spencer plc ac yn Gadeirydd Dŵr Cymru. Roedd hefyd yn Gynghorydd Annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr Adolygiad o Siarter y BBC.



**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom fel Dirprwy Gadeirydd ar 30 Medi 2018

**Cyfnod** blwyddyn

**Aelodaeth** P R

## Maggie Carver

### Dirprwy Gadeirydd ac Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Mae Maggie yn Gadeirydd y Racecourse Association ac yn Gyfarwyddwr Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain. Mae ganddi brofiad helaeth fel cyfarwyddwr anweithredol ar fyrddau 18 o gwmnïau cyhoeddus, preifat a dim-er-elw. Mae'r rhain yn cynnwys cadeirio'r darparwr newyddion a rhaglenni ITN, y gweithredwr aml-blecs SDN, a Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, yn ogystal â byrddau Channel 5 Television, RDF Media plc, Satellite Information Services, darlledwr y lluoedd arfog BFBS, SSVC, a Dyfrffyrdd Prydain. Roedd gyrfa weithredol Maggie ym maes bancio buddsoddi, cynhyrchu teledu, darlledu ac adwerthu.

**Allweddol i Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Pobl | P | Bwrdd Cynnwys | C |
| Pwyllgor Etholiadau | E | Pwyllgor Risg ac Archwilio | R |



## Dr Angela Dean

### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Risg ac Archwilio'r Bwrdd

Ar hyn o bryd, mae Angela yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth International House, yn aelod o Gyngor Coleg y Brenin Llundain ac yn ymddiriedolwr ar gyfer Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog. Mae'n Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus. Roedd hi'n arfer bod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Morgan Stanley lle'r oedd yn arwain ei dîm ymchwil technoleg byd-eang. Roedd hi'n aelod o Weithgor Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer materion yng nghyswllt cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ym maes buddsoddi, yn un o ymddiriedolwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac yn aelod o'r Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018

**Cyfnod** blwyddyn

**Aelodaeth** P R



## Bob Downes

### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran yr Alban)

Bob yw cadeirydd presennol Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a CENSIS. Mae hefyd yn cadeirio Corff Goruchwylio Annibynnol y Comisiwn ar gyfer Rheoleiddio Cyfathrebiadau, a fydd yn goruchwylio'r gwaith o weithredu a rheoleiddio Model Llywodraeth Rheoleiddio gwell yng Ngogledd Iwerddon gan Eircom. Mae Bob yn un o ymddiriedolwyr y Mackintosh Campus Renewal Appeal ar gyfer Ysgol Gelf Glasgow, ac yn gynghorydd i nifer o fusnesau technoleg bach, gan gynnwys Kube Networks a Cryptig.

Yn ychwanegol at ei rôl fel Aelod Bwrdd ar ran yr Alban, mae Bob yn sicrhau bod y nodweddion a'r heriau arbennig hynny sy'n unigryw i Ogledd Iwerddon, yn cael sylw a phwyslais priodol nes penodir Aelod Bwrdd ar ran Gogledd Iwerddon.

**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Chwefror 2018

**Cyfnod** 2 flynedd

**Aelodaeth** P C



**Penodiad**
Penodiad Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom 8 Ebrill 2019

**Cyfnod** blwyddyn

**Aelodaeth** P R

## David Jones

### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran Cymru)

Ar hyn o bryd mae David yn gyfarwyddwr anweithredol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth. Mae David hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Awdurdod Cyllid Cymru, ac yn aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru. Hefyd, mae'n berchen ar Public Services Digital.



**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mehefin 2014: Cafodd ei ailbenodi ym mis Mehefin 2018

**Cyfnod** 5 mlynedd

**Aelodaeth** P

## Graham Mather, CBE

### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Roedd Graham yn aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom rhwng 2004 a 2008. Mae wedi bod yn aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau, a rhwng 2000 a 2012, roedd hefyd yn aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. Mae Graham ar hyn o bryd yn Llywydd y Fforwm Polisi Ewropeaidd ac yn Gadeirydd ei Grŵp Arferion Gorau Rheoleiddio. Mae'n aelod o Fwrdd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, ac yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Greenham a Sefydliad Pelican Cancer.



**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Hydref 2017

**Cyfnod** 2 flynedd

**Aelodaeth** P C E

## Tim Suter

### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Etholiadau'r Bwrdd a'r Bwrdd Cynnwys

Roedd Tim yn gynhyrchydd, yn olygydd ac yn uwch reolwr gyda'r BBC ac yn Bennaeth Polisi Darlledu yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2002, yn gyfrifol am Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a chreu Ofcom. Ymunodd ag Ofcom ar y dechrau ac fe adawodd i sefydlu Perspective Associates, i gynghori ar bolisiau a rheoleiddio'r cyfryngau. Mae wedi bod yn gynghorydd arbennig i Bwyllgor Cyfathrebiadau Tŷ'r Arglwyddi, ac mae'n gadeirydd panel o arbenigwyr sy'n cynghori Cyngor Ewrop. Tim yw cadeirydd Bwrdd Llywio'r Swyddfa Eiddo Deallusol ac mae'n un o'r partneriaid a sefydlodd Communications Chambers.



**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2016 Cafodd ei ail benodi ym mis Gorffennaf 2019

**Cyfnod** 4 blynedd

**Aelodaeth** P

## Ben Verwaayen

### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Pobl y Bwrdd

Ar hyn o bryd mae Ben yn Bartner Cyffredinol gyda chronfa fuddsoddi Keen Venture Partners, ac mae'n aelod o sawl Bwrdd, gan gynnwys Akami yn yr Unol Daleithiau a Renewi Ltd, cwmni blaenllaw yn yr economi gylchol yn y BeNeLux ac yn y DU. Mae'n gyn-Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent. Mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd Endemol, ac yn Aelod o Fwrdd AkzoNobel yn yr Iseldiroedd a Bharti Airtel, gweithredwr gwasanaethau symudol, yn India.

# Aelodau Gweithredol y Bwrdd



**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2020

**Cyfnod** blwyddyn

## Y Fonesig Melanie Dawes

**Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ers mis Mawrth 2020**

Penodwyd Melanie yn Brif Weithredwr ym mis Mawrth 2020. Cyn ymuno ag Ofcom, y Fonesig Melanie oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae wedi ysgwyddo rolau uwch ar draws y Gwasanaeth Sifil, gan weithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Dechreuodd ar ei gyrfa fel economegydd, a threuliodd 15 mlynedd yn y Trysorlys, lle bu'n Gyfarwyddwr Materion Ewropeaidd. Roedd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Ysgrifenyddiaeth Materion Economaidd a Domestig yn Swyddfa'r Cabinet rhwng 2011 a 2015. Mae wedi ysgwyddo nifer o rolau anweithredol, gan gynnwys gyda'r corff defnyddwyr Which?, ac mae'n un o ymddiriedolwyr y Patchwork Foundation sy'n annog pobl ifanc, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, i gymryd rhan mewn democratiaeth.



**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2015

**Cyfnod** 4 blynedd

## Jonathan Oxley

**Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Phrif Weithredwr Dros Dro rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Mawrth 2020**

Ymunodd Jonathan ag Ofcom fel Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2014 a chafodd ei benodi'n Brif Weithredwr Dros Dro rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Mawrth 2020. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn bartner ym mhractis Strategaeth ac Economeg PwC, yn arbenigo mewn telegyfathrebiadau, y cyfryngau a thechnoleg. Jonathan yw Prif Weithredwr Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU hefyd, ac mae'n dal y swydd honno ers mis Rhagfyr 2018.



**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2015 ac fe ymddiswyddodd ym mis Tachwedd 2019

**Cyfnod** 4 blynedd

## Y Fonesig Sharon White

### Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr tan fis Tachwedd 2019

Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Sharon wedi cael gyrfa hir yn y gwasanaeth sifil. Roedd yn Ail Ysgrifennydd Parhaol yn Nhrysorlys EM gyda chyfrifoldeb am oruchwylio cyllid cyhoeddus. Cyn hynny, roedd ganddi rôl ar lefel Bwrdd yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, ac mae hi wedi gweithio yn Uned Polisi'r Prif Weinidog ac yn Washington DC fel uwch economegydd ym Manc y Byd. Mae Sharon yn Gyfarwyddwr Anweithredol annibynnol ar Barratt Developments plc, ac mae'n un o Ymddiriedolwyr Sadler's Wells Theatre.



**Penodiad**
Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ebrill 2020

**Cyfnod** blwyddyn

## Kevin Bakhurst

### Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Polisi Cyfryngau a Chynnwys

Ymunodd Kevin ag Ofcom ym mis Hydref 2016 fel Cyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Polisi Cyfryngau a Chynnwys, ac mae'n goruchwylio ein polisïau a'n rheoliadau ar-lein a darlledu. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Kevin yn Rheolwr Gyfarwyddwr, Newyddion a Materion Cyfoes, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, ac wedyn yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro gyda darlledwr cenedlaethol Iwerddon, RTÉ. Ar ôl graddio o Brifysgol Caergrawnt, bu Kevin yn gweithio yn Price Waterhouse cyn ymuno â'r BBC fel ymchwilydd yn 1989. Aeth ymlaen i olygu'r rhaglen Ten O'Clock News, gan ddod yn Ddirprwy Bennaeth Ystafell Newyddion y BBC ac yn Rheolydd sianel BBC News a BBC News at One. Yn ystod ei gyfnod yn golygu bwletinau newyddion y BBC, enillodd y rhaglenni wobrau gan sefydliadau gan gynnwys BAFTA a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

Y tu allan i'r gwaith, roedd Kevin yn Ynad rhwng 2000 a 2006.

# 11. Datganiad Llywodraethu

Fel corfforaeth statudol, mae prif ofynion cydymffurfio Ofcom o ran llywodraethu yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth berthnasol (sef Deddf Ofcom (2002), y Ddeddf Cyfathrebiadau (2003), y Ddeddf Gwasanaethau Post (2011), Deddf yr Economi Ddigidol (2010), Deddf yr Economi Ddigidol (2017) ac unrhyw ddeddfwriaethau atodol eraill sy'n berthnasol neu Orchmynion ynddynt) sy'n pennu materion fel dibenion y sefydliad a phenodi ein Haelodau. Mae Ofcom hefyd yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus.[1] Mae ein dull llywodraethu corfforaethol cyffredinol yn seiliedig ar God Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 ("Cod y DU") a'i ganllawiau cysylltiedig.[2]

## Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n llwyr i safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol. Mae dull gweithredu Ofcom yn seiliedig ar egwyddorion penodol a nodir yng Nghod y DU, gan gofio bod llawer o'r rhain yn cael eu hystyried yn anghymesur neu'n llai perthnasol yn achos Ofcom, ac y rhoddir gofynion eraill ar Ofcom drwy statud.

Dyma enghreifftiau o sut mae rhai o egwyddorion Cod y DU wedi cyfrannu at ein dull gweithredu:

**Arweinyddiaeth a Phwrpas y Bwrdd** – mae gan ein Bwrdd bwrpas, strategaeth a gwerthoedd clir, ac mae'n gallu bodloni ei hun bod y rhain a'i diwylliant yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ein Bwrdd, sy'n cynnwys mwyafrif o Aelodau Anweithredol, yn cynnig syniadau a her annibynnol a gwrthrychol ar gyfer ein nodau strategol.

**Rhannu Cyfrifoldebau** – mae Cadeirydd ein Bwrdd yn rhoi arweiniad strategol i'r Bwrdd, ac mae ein holl Aelodau Anweithredol yn cael eu hystyried yn annibynnol ar y rheolwyr, ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau eu bod yn dal yn annibynnol.

**Cyfansoddiad, Olyniaeth a Gwerthuso** – dilynir proses drylwyr a thryloyw wrth benodi i'r Bwrdd, gyda'n Cadeirydd a'n Haelodau Anweithredol yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Wrth i Aelodau newydd gael eu penodi i'r Bwrdd, byddwn yn mynd ati i geisio gwella amrywiaeth ein Bwrdd. Mae ein Pwyllgor Pobl yn ceisio sicrhau bod gennym gynlluniau olyniaeth effeithiol, a'n bod yn nodi ac yn rheoli ein llif o dalentau yn briodol.

**Archwilio Risg a Rheolaeth Fewnol** – mae ein Pwyllgor Risg ac Archwilio yn goruchwylio'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith i reoli ein risgiau, ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith.

**Taliadau** – mae ein Hadroddiad Taliadau yn egluro sut rydym yn sicrhau bod ein harferion a'n polisïau taliadau yn cefnogi ein nodau strategol, a bod ein taliadau i'n cydweithwyr yn hyrwyddo llwyddiant Ofcom.

[1] Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus yn berthnasol i bob aelod anweithredol ar Fyrddau adrannau'r llywodraeth, adrannau anweinidogol, asiantaethau gweithredol, cyrff cyhoeddus anadrannol a chorfforaethau cyhoeddus cenedlaethol.

[2] Mae Cod y DU yn amlinellu'r rheolau llywodraethu sy'n berthnasol i bob cwmni yn y DU sydd wedi'u rhestru yn y categori Premiwm o gyfranddaliadau ecwiti ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

## Ein Bwrdd: Gweithgareddau a Phwrpas

Mae agenda flynyddol y Bwrdd yn dilyn y themâu a'r blaenoriaethau strategol a nodir yn ein Cynllun Gwaith Blynyddol, ynghyd â'n rhwymedigaethau rheoleiddio, risg a llywodraethu.


Mae gweithgareddau craidd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu cofnodi a'u cynllunio'n flynyddol drwy ein rhaglen waith a'n hagendâu at y dyfodol, ond dim ond strwythur sylfaenol gweithrediadau'r Bwrdd yw hyn.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys datganiad o egwyddorion llywodraethu sy'n llywio gweithgareddau'r Bwrdd. Mae'r Fframwaith yn edrych ar gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd a'r materion sydd wedi cael eu cadw i'r Bwrdd benderfynu arnynt, gan gynnwys y canlynol:

- cymeradwyo cynllun blynyddol, amcanion tymor hir a fframwaith polisi strategol cyffredinol Ofcom;
- cymeradwyo cyllideb flynyddol, polisi ariannol cyffredinol a Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom;
- cymeradwyo cyfrifon ac adroddiad blynyddol Ofcom;
- rheoli risg, rheolaethau mewnol a chydymffurfiad; a
- cynnal adolygiad ffurfiol a rheolaidd o berfformiad y Bwrdd ei hun, a pherfformiad pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol.

Mae 11 prif elfen i agenda flynyddol y Bwrdd. Mae'r siart ganlynol yn dangos sut mae'r Bwrdd wedi neilltuo ei agenda.

Dyraniad o Amser y Bwrdd




- Diweddariadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (yn cynnwys materion ar draws y categorïau eraill)
- Llywodraethu Corfforaethol
- Rheoleiddiol, Cyllid, Risg a Chyfreithiol
- Darpariaeth Band eang a Symudol gwell
- Cefnogi Darlledu yn y DU
- Galluogi rhwydweithiau cryf, diogel
- Cefnogi defnyddwyr a diwydiant drwy Brexit
- Cynyddu Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Tegwch i Gwsmeriaid
- Codi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein
- Cynnal y Gwasanaeth Post Cyffredinol
- Arall (yn cynnwys diweddariadau'r farchnad ac ymchwil)

**Gwelir isod enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau mae'r Bwrdd wedi'u cyflawni ym mhob un o'r elfennau hyn yn ystod y cyfnod adrodd.**

## Llywodraethu Corfforaethol

- Wedi cymeradwyo Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom
- Wedi cymeradwyo a monitro'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom
- Wedi gwerthuso effeithiolrwydd y Bwrdd, y Pwyllgorau, ein Haelodau Bwrdd a'r Cadeirydd

## Cefnogi Darlledu yn y DU

- Wedi adolygu'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y BBC
- Wedi adolygu Newyddion a Materion Cyfoes y BBC
- Wedi adolygu'r adroddiad pum mlynedd ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus
- Wedi adolygu lansiad "Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr" sy'n edrych ar ddyfodol gwasanaethau Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a'u cynaliadwyedd, wrth ystyried bod technegau digidol yn cael eu defnyddio fwy a mwy

## Galluogi Rhwydweithiau Cryf a Diogel

- Wedi adolygu rhaglen waith Ofcom ar gyfer diogelwch a chadernid rhwydweithiau

## Cynyddu Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Wedi nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Ofcom, ac wedi rhoi arweiniad ar y rhaglen honno, er mwyn cyflawni amcanion amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb fel cyflogwr a rheoleiddiwr
- Wedi adolygu adroddiadau ar amrywiaeth ym maes darlledu, a rhaglen ymgysylltu â'r diwydiant i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y maes darlledu
- Wedi cadw pwyslais ar amrywiaeth wrth recriwtio i Fyrddau/Paneli/Pwyllgorau Ofcom

## Rheoleiddio, Cyllid, Risg a Chyfreithiol

- Wedi adolygu Risgiau Strategol Ofcom bob chwarter
- Wedi adolygu a chymeradwyo Datganiadau Agwedd at Risg Ofcom
- Wedi cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19 Ofcom
- Wedi cymeradwyo Cyllideb Ofcom ar gyfer 2019/20

## Codi Ymwybyddiaeth o Niwed Ar-lein

- Wedi adolygu Rhaglen Dyfodol Gwaith Ar-lein Ofcom
- Wedi adolygu'r gwaith paratoi ar gyfer rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideo, a chyfrifoldebau ehangach posib o ran niwed ar-lein
- Wedi adolygu rhaglen eang Llythrennedd yn y Cyfryngau – Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau

## Cynnal y Gwasanaeth Post Cyffredinol

- Wedi adolygu strategaeth y Post Brenhinol ac, yn sgil hynny, wedi adolygu cynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol

## Parhau i arloesi ein dull rheoleiddio

- Wedi cymeradwyo cynigion yn yr Adolygiad o Fand Eang Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol
- Wedi ystyried y dull o reoleiddio niwed ar-lein, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar Lwyfannau Rhannu Fideo
- Wedi cymeradwyo'r gwaith o hybu cystadleuaeth o ran cyfathrebiadau ffeibr, a hyrwyddo buddsoddiadau mewn cyfathrebiadau ffeibr: mesurau i gefnogi treial Openreach yng Nghaersallog

## Gwell Darpariaeth Symudol a Band Eang

- Wedi cymeradwyo cynlluniau wedi'u diweddaru ar arwerthu sbectrwm i ddiwallu'r galw cynyddol am wasanaethau band eang symudol, ac i gefnogi'r gwaith o gyflwyno 5G (bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz)
- Wedi llywio'r gwaith o gynnal yr Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol

## Tegwch i Gwsmeriaid

- Wedi adolygu'r Cynigion USO Band Eang a'r gwaith i sicrhau bod cwsmeriaid gwasanaethau band eang a symudol yn cael eu trin yn deg, a'i gwneud yn haws iddyn nhw newid darparwr
- Wedi adolygu prosiectau tegwch eraill, gan gynnwys hysbysiadau diwedd contract a gwaharddiad ar gloi ffonau

## Cefnogi Defnyddwyr a'r Diwydiant drwy Brexit

- Wedi cael adroddiadau rheolaidd am ymgysylltiad Ofcom â'r diwydiant, grwpiau defnyddwyr a rheoleiddwyr eraill er mwyn deall unrhyw bryderon neu risgiau sy'n dod i'r amlwg

## Arall


- Wedi mynd ati'n rheolaidd i adolygu cynlluniau Ofcom a Rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer Brexit.
- Wedi ystyried canlyniadau'r arolwg o gydweithwyr yn Ofcom.

## Rôl y Bwrdd

Mae gan y Bwrdd swyddogaeth lywodraethu ganolog, sy'n golygu ei fod yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni dyletswyddau cyffredinol Ofcom a'i gyfrifoldebau statudol penodol yn ogystal â'i wariant a'i gyllid yn gyffredinol. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo blaenoriaethau ac amcanion strategol Ofcom, gan gytuno ar lefel briodol o agwedd at risg a sicrhau bod y rheolwyr yn cynnal system effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol.

Mae cyfrifoldebau penodol wedi'u dirprwyo i Bwyllgorau'r Bwrdd (y Pwyllgor Risg ac Archwilio, y Pwyllgor Pobl a'r Pwyllgor Etholiadau) a'r Bwrdd Cynnwys (a gafodd ei greu o dan statud), ac mae gan bob un ei gylch gorchwyl ei hun.

## Ein Strwythur Llywodraethu




* Y Bwrdd Rheoli a Pholisi yw'r uwch bwyllgor gweithredol yn Ofcom; nodir ei rôl a'i aelodaeth ar dudalen 86.

# Rolau'r Bwrdd

## Y Cadeirydd

**Cadeirydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am gadeirio a rhoi arweiniad i'r Bwrdd. Mae'r cyfrifoldebau eraill yn cynnwys:**

- llunio strategaeth Ofcom ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol;
- cynrychioli barn Ofcom yn allanol;
- annog safonau uchel o ran priodoldeb;
- darparu asesiad o berfformiad Aelodau unigol o'r Bwrdd; a
- sicrhau bod Ofcom yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a bod cofnodion cyfarfodydd yn cofnodi penderfyniadau yn gywir.

Prif gyfrifoldeb y Cadeirydd yw arwain a rheoli gwaith y Bwrdd i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyfreithiol a statudol yn llawn. Mae hyn yn cynnwys gosod agendâu'r Bwrdd i sicrhau bod digon o amser i gael trafodaeth helaeth ar faterion strategaeth, perfformiad a gwerthoedd allweddol. Mae'r Cadeirydd hefyd yn hwyluso ac yn hybu cyfraniadau deallus a beirniadol gan Aelodau'r Bwrdd wrth drafod a gwneud penderfyniadau ar faterion risg a strategaeth, ac yn annog Aelodau Gweithredol ac Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd i gyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol.

## Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Mae gan ein Bwrdd fwyafrif o Aelodau Anweithredol, ac mae gan bob un ohonynt brofiad a sgiliau rhagorol i'w cynnig i'r Bwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod cydbwysedd da o sgiliau ar gael i Ofcom wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau, ac wrth bennu'r polisi a'r cyfeiriad strategol – gan gynnwys y fframwaith adnoddau i weithredu Ofcom.

## Y Prif Weithredwr

Mae'r cyfrifoldeb dros redeg Ofcom o ddydd i ddydd wedi cael ei drosglwyddo gan y Bwrdd i'r Prif Weithredwr a'r Weithrediaeth, sef yr Uwch Dîm Rheoli, sy'n cynnwys Prif Weithredwr Ofcom, Cyfarwyddwyr Grŵp a'r Cwnsler Cyffredinol. Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli, drwy'r Bwrdd Rheoli a Pholisi, yn sicrhau bod y strategaethau, y polisïau a'r ymddygiad a bennir ar lefel Bwrdd yn cael eu cyfleu a'u rhoi ar waith yn effeithiol ar draws Ofcom.

Mae Ysgrifennydd Parhaol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad hwn yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Ddogfen Fframwaith gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw, a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel yn ei holl waith. Mae Ofcom yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus ac, i gefnogi hyn, mae Ofcom wedi sefydlu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch buddiannau Aelodau'r Bwrdd.

Mae Ofcom yn mynd ati, mewn ffordd synhwyrol a phriodol, i reoli gwrthdaro posib rhwng buddiannau sydd gan Aelodau'r Bwrdd, neu a all godi o bryd i'w gilydd, ac i sicrhau nad yw gweithredoedd Aelodau'r Bwrdd yn bwrw amheuaeth dros ddidueddrwydd a gwrthrychedd Ofcom. Mae disgwyl i Aelodau'r Bwrdd osgoi ymddygiad a allai ddwyn anfri ar Ofcom neu a allai greu canfyddiad o ragfarn neu nad yw'n ddiduedd. Rhaid i Aelodau'r Bwrdd hefyd sicrhau bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

Mae Ofcom yn cadw cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Bwrdd, sy'n cael ei diweddaru bob blwyddyn.[1] Mae hyn yn sicrhau bod gan Ofcom gofnod cyfredol o fuddiannau Aelodau'r Bwrdd, a chyhoeddir gwybodaeth berthnasol ar wefan Ofcom. Rhwng datganiadau blynyddol, mae'n rhaid i Aelodau'r Bwrdd roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth pan fydd eu buddiannau'n newid er mwyn i'r Gofrestr gael ei newid yn unol â hynny a, phan fydd angen, er mwyn gallu codi unrhyw wrthdaro posib gyda'r Cadeirydd a/neu Fwrdd llawn Ofcom.

## Hyfforddi Aelodau'r Bwrdd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd

Mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygiad parhaus ei Aelodau Bwrdd, a'r angen i barhau i ddatblygu eu gwybodaeth er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Mae pob Aelod Bwrdd a benodir o'r newydd yn cael rhaglen gynefino gynhwysfawr a phwrpasol wrth ymuno ag Ofcom, sy'n cynnwys sesiynau gyda phob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ac uwch gyfarwyddwyr allweddol eraill. Bwriad y sesiynau hyn yw sicrhau bod yr Aelodau newydd yn ymgyfarwyddo â Chynllun Gwaith Ofcom a'r heriau, y cyfleoedd a'r risgiau y gallai Ofcom eu hwynebu. Mae'r broses gynefino hefyd yn cynnwys dyletswyddau Aelodau a gweithdrefnau'r Bwrdd, prosesau rheoli mewnol, strategaethau a chynlluniau, mesurau a ddefnyddir i fonitro perfformiad a'r Polisi Rheoli Risg ynghyd â'r Archwiliad Mewnol ac Allanol.

Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael cyflwyniadau a gweithdai rhyngweithiol ar wahanol agweddau ar Gynllun Gwaith Ofcom yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r rhain yn cael eu hwyluso gan gydweithwyr Ofcom gyda chynghorwyr proffesiynol a/neu randdeiliaid allanol.

## Gwybodaeth Reoli

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybodaeth reoli yn rheolaidd er mwyn i'r Bwrdd allu adolygu perfformiad a gallu Ofcom. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a chyllid rheolaidd, adolygu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom, adolygu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran Cynllun Gwaith Ofcom, y gofrestr risgiau strategol, statws canlyniadau'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Bwrdd / y Bwrdd, a data corfforaethol arall. Mae'r Tîm Llywodraethu ac Atebolrwydd (yn atebol i Ysgrifennydd y Gorfforaeth) yn goruchwylio'r wybodaeth hon, ac yn sicrhau bod fformat papurau ac ansawdd data yn cydymffurfio â chanllawiau Ofcom ar ysgrifennu papurau Pwyllgorau'r Bwrdd / y Bwrdd a, drwy hynny, yn hwyluso trafodaethau a phenderfyniadau doeth.

1 https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/register-disclosable-interests

## Gweinyddu'r Bwrdd

Ysgrifennydd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bwrdd, ac yn cadw ac yn diweddaru gweithdrefnau a pholisïau allweddol y Bwrdd, cofnodion corfforaethol a chylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd a materion sy'n cael eu cadw ar gyfer y Bwrdd. Ysgrifennydd y Gorfforaeth sydd hefyd yn cynnal ac yn adolygu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom

(gan gynnwys Dirprwyaethau Awdurdod, y Fframwaith Awdurdodau Ariannol a chylch gorchwyl Pwyllgor y Bwrdd) ac, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Fframwaith Awdurdodau Ariannol.

Roedd deg o gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cael eu cynnal bob mis, heblaw am fis Awst a mis Ionawr. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal Sesiwn Strategaeth ym mis Hydref bob blwyddyn, lle mae strategaethau tymor canolig-tymor hir yn cael eu hystyried, a thrafodaethau'n cael eu cynnal ar faterion strategol a pherthnasol.

Mae holl gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu trefnu ymlaen llaw, gyda rhybudd blwyddyn galendr dreigl. Mae papurau'r Bwrdd sy'n berthnasol i agenda holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, fel y bo'n briodol, tua wythnos cyn y cyfarfod drwy borth digidol diogel.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod Blwyddyn Ariannol 2019/20

| | Bwrdd Ofcom |
|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd** | **10** |
| Yr Arglwydd Burns, GCB | 9 |
| Maggie Carver | 10 |
| Dr Angela Dean | 10 |
| Bob Downes | 10 |
| Graham Mather CBE | 10 |
| Tim Suter | 10 |
| Ben Verwaayen | 10 |
| David Jones | 10 |
| Y Fonesig Sharon White DBE[1] | 7 |
| Jonathan Oxley | 10 |
| Y Fonesig Melanie Dawes DCB[2] | 1 |

1 Gadawodd Sharon Ofcom ddiwedd mis Tachwedd 2019

2 Ymunodd Melanie ag Ofcom ddechrau mis Mawrth 2020

## Perfformiad ac Effeithiolrwydd y Bwrdd

Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd i werthuso perfformiad y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol o'r Bwrdd. Ddiwedd mis Ebrill 2019, cynhaliwyd adolygiad a hwyluswyd yn allanol, gyda chwestiynau wedi'u gosod gan y Cadeirydd (gyda chymorth Ysgrifennydd y Gorfforaeth), a hwylusydd allanol yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu ymatebion i holiadur, ac am baratoi adroddiad o argymhellion allweddol ar sail dadansoddiad o'r ymatebion.

Bu'r Bwrdd yn adolygu ac yn ystyried canlyniadau'r adolygiad yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2019. Canfu'r adolygiad fod trefniadau llywodraethu Ofcom yn gweithio'n dda, gyda strwythur pecynnau'r Bwrdd, prosesau rheoli cyfarfodydd, ffocws cyfarfodydd a phrosesau'r Bwrdd o oruchwylio materion rhanddeiliaid, strategol a gweithredol yn cael sgôr uchel.

Roedd rhai blaenoriaethau yn argymell newid, a oedd yn ymwneud â'r elfennau canlynol:

- sicrhau cydlyniant y Bwrdd yn dilyn newidiadau diweddar yng nghyfansoddiad y Bwrdd;
- rheoli cyfarfodydd ac agendâu (mae angen mwy o eglurder ynghylch materion allweddol lle mae angen mewnbwn / trafodaethau ar lefel y Bwrdd, gydag amserlen glir ac adroddiadau mwy penodol);
- mwy o ymgysylltu allanol â rhanddeiliaid ac endidau sy'n cael eu rheoleiddio;
- strwythur trefniadaethol (siapio strwythur trefniadaethol Ofcom mewn ymateb i unrhyw ddyletswyddau statudol newydd) a materion yn ymwneud â phobl (mwy o bwyslais ar yr agenda pobl ac ar faterion datblygu talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth);
- cydweithio â'r Weithrediaeth (yr uwch dîm rheoli) y tu hwnt i gyfarfodydd y Bwrdd; a
- gwella dealltwriaeth y Bwrdd o'r uwch dîm rheoli a diweddariadau / hyfforddiant ychwanegol er mwyn helpu i ddeall yn well beth yw hyd a lled rôl Ofcom.

Nododd y Bwrdd gyfres o gamau gweithredu mewn ymateb i'r blaenoriaethau yn argymell newid, a chafodd diweddariadau statws eu hadolygu gan y Bwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2019. Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2019, nododd y Bwrdd fod y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a oedd yn argymell newid un ai wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau, a bod yr holl elfennau blaenoriaeth a argymhellir wedi gwella'n sylweddol. Cytunodd y Bwrdd i gynnal adolygiad allanol tebyg ym mis Mawrth 2020 a fyddai'n debyg i'r un a gynhaliwyd yn 2019. Un o'r prif fanteision o wneud hynny yw y bydd y Bwrdd yn gallu cadw golwg ar unrhyw welliannau a newidiadau o un flwyddyn i'r llall.

## Pwyllgorau'r Bwrdd a Byrddau Statudol

Wrth gyflawni dyletswyddau Ofcom o dan Ddeddf Ofcom (2002), y Ddeddf Cyfathrebiadau (2003), y Ddeddf Gwasanaethau Post (2011), Deddf yr Economi Ddigidol (2010), Deddf yr Economi Ddigidol (2017) ac unrhyw Orchmynion neu ddeddfwriaethau atodol eraill sy'n berthnasol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Weithrediaeth yn Ofcom a rhai cyfrifoldebau i Bwyllgorau Bwrdd, yn unol â chylch gorchwyl ac awdurdodau sydd wedi'u diffinio'n glir. Mae gan Ofcom hefyd nifer o gyrff llywodraethu eraill sy'n cyflawni rôl lywodraethu neu gynghori i'r Bwrdd. Mae gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau a'r cyrff hyn yn cael eu disgrifio isod:

## Pwyllgorau'r Bwrdd

### Y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys tri Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, sef Angela Dean (Cadeirydd), Maggie Carver a David Jones. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant i gyfarfodydd y Pwyllgor, yn yr un modd â'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Risg ac Archwilio, ynghyd â gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd, wedi'u nodi yn Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar dudalennau 90 i 94.

### Y Pwyllgor Pobl

Ym mis Mai 2019, roedd y Bwrdd wedi creu'r Pwyllgor Pobl i ddisodli'r hen Bwyllgor Enwebiadau a'r hen Bwyllgor Taliadau. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Pobl yn goruchwylio ac yn gwerthuso'n rheolaidd pa mor briodol yw Strategaeth Pobl a Gweithlu Ofcom, gan gynnig yr her angenrheidiol o ran cryfder ac effeithiolrwydd y cynlluniau sydd ar waith er mwyn helpu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a'i ddiben strategol a statudol – yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd gan Reolwyr Ofcom bod prosesau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli talentau, datblygu talentau a chynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli perfformiad, diwylliant a gwerthoedd, ac ymgysylltu â chydweithwyr, ynghyd â mesurau a chynlluniau pobl eraill o'r fath a fydd yn diwallu anghenion a gofynion perfformiad, sgiliau ac arbenigedd Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Pobl hefyd yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a pharamedrau'r polisi taliadau ar draws Ofcom, ac mae'n ystyried a chymeradwyo telerau ac amodau gwasanaeth unigolion, gan gynnwys trefniadau taliadau'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr eraill fel y cytunir arno rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn arwain y broses o benodi Aelodau Gweithredol y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae'n cymeradwyo'r cynlluniau olyniaeth ar gyfer Bwrdd Ofcom, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr eraill, fel y cytunir arno rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr.

Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl wyth gwaith yn ystod 2019/20.

### Y Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys ar bob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig (Channel 3 yn rhanbarthol, Channel 4 a Channel 5), pob gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol, a phob gwasanaeth radio analog cenedlaethol (h.y. masnachol ar draws y DU), a'u gwasanaethau cyd-ddarlledu digidol (Classic FM, Talksport ac Absolute Radio AM).

Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amseriad darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau. Mae gan y Pwyllgor Etholiadau awdurdod dirprwyedig hefyd i wneud penderfyniadau ar gwynion a ddaw i law sy'n ymwneud â'r safonau a osodwyd gan Ofcom mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy, yn unol ag adrannau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a ddarlledir gan ddarlledwyr yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri Aelod Anweithredol (Tim Suter, Jonathan Baker a Maggie Cunningham) a dau Aelod Gweithredol (Kevin Bakhurst ac Ali Marsden), ac mae pob un ohonynt yn Aelodau o'r Bwrdd Cynnwys. Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl unwaith yn ystod 2019/20.

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys wedi'i sefydlu o dan statud, yn benodol adran 12(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cyflawni rôl gynghori i Fwrdd Ofcom ar agweddau sy'n ymwneud â chynnwys mewn penderfyniadau neu faterion sydd wedi'u cadw ar gyfer y Bwrdd.

Y Bwrdd Cynnwys yw prif fforwm Ofcom ar gyfer rheoleiddio ansawdd a safonau teledu a radio. Mae'n gyfrifol am ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys yr Aelodau Anweithredol canlynol: Tim Suter (Cadeirydd), Jonathan Baker, Maggie Cunningham, Bob Downes, Aled Eirug, Robin Foster, Angelina Fusco, Sophie Morgan, Stephen Nuttall, Monisha Shah a Janey Walker, ac Aelodau Gweithredol: Kevin Bakhurst ac Ali Marsden.

Cyfarfu'r Bwrdd saith gwaith yn ystod 2019/20.

## Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

Mae Adran 20 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y DU. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw rhoi cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r DU a wasanaethir gan y Pwyllgor, mewn perthynas â materion cyfathrebiadau a materion post. Mae'r ymgysylltu hwn yng ngwledydd datganoledig y DU yn fwyfwy pwysig, lle mae swyddogaeth Aelodau Gwledydd y DU ar y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol yn eithriadol o werthfawr wrth helpu Ofcom i ystyried materion penodol wrth iddo lunio ei bolisïau a'u rhoi ar waith.

Yn ychwanegol at Aelodau penodedig y Pwyllgorau Cynghori, mae'r Aelod o'r Bwrdd Cynnwys a'r Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar gyfer y gwledydd yn cael gwahoddiad i wylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori fel sylwedyddion.

**Dyma Aelodau penodedig a sylwedyddion y Pwyllgor Cynghori ar hyn o bryd:**

| |
|---|
| **Pwyllgor Cynghori Lloegr** – Paula Carter (Cadeirydd), Emma Davison, Mark Smith, Alan Nunn, Aaqil Ahmed, Matthew Littleford. |
| Daeth cyfnod Caroline Roberts-Cherry i ben ar 31 Ionawr 2020. |
| Sylwedyddion: Monisha Shah (Bwrdd Cynnwys) a Richard Spencer (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |
| **Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon** – Carrie Matchett (Cadeirydd), John Ellison, Kathy Graham, Alan Meban, Paul Wilson a Phil Flanagan. |
| Sylwedyddion: Angelina Fusco (Bwrdd Cynnwys) a Rick Hill (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |
| **Pwyllgor Cynghori yr Alban** – Liz Leonard (Cadeirydd), Carmel Teusner, David Connolly, Laura Anderson a Stephen Speirs (nid yw Stephen yn cael tâl am y rôl hon). |
| Ymddiswyddodd Julie Pirone ar 6 Tachwedd 2019. |
| Sylwedyddion: Maggie Cunningham (Bwrdd Cynnwys) ac Amanda Britain (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |
| **Pwyllgor Cynghori Cymru** – Hywel William (Cadeirydd), Robert Andrews, Andrew Board, Dr Ruth McElroy, Rem Noormohamed a Peter Trott. |
| Sylwedyddion: Aled Eirug (Bwrdd Cynnwys) a Dr Sian Phipps (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |

Cyfarfu pob un o'r Pwyllgorau Cynghori bedair gwaith yn 2019/20.

### Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 16 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Mae'r Panel yn rhoi cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn adeiladol ac yn ymarferol.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o arbenigwyr annibynnol, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, sydd â phrofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn ystod y camau cynnar o ddatblygu polisi, er mwyn iddo allu rhoi cyngor cadarn ac annibynnol i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau yn cael eu hystyried o'r cychwyn.

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl yn rhoi cyngor i Ofcom ar faterion cyffredinol a phenodol sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebiadau a phost, ac sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl anabl.

Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl, ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posib, cadarnhawyd yn 2012 bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff a'r llall. Ond, nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid. Dyma Aelodau presennol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl: Rick Hill (Cadeirydd ac Aelod ar ran Gogledd Iwerddon), Kay Allen, Amanda Britain (Aelod ar ran yr Alban), Dr David Holden, Dr Sian Phipps (Aelod ar ran Cymru), Richard Spencer (Aelod ar ran Lloegr), Craig Tillotson, Clifford Harkness a Rick Williams. Rydym wrthi'n penodi Aelod newydd ychwanegol ar gyfer y Panel a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl.

Daeth cyfnod Chris Holland i ben ar 30 Gorffennaf 2019, ac fe ymddiswyddodd Karen Lewis ar 31 Rhagfyr 2019.

Cyfarfu'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl 11 gwaith yn 2019/20.

### Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn: www.osab.org.uk


Dyma Aelodau'r Bwrdd Cynghori ar Faterion Sbectrwm: Yr Athro Linda Doyle (Cadeirydd), Greg Bensberg, Wassim Chourbaji, Yr Athro Mischa Dohler, Peter Hadinger, Alastair Macpherson, David Meyer, Niall Murphy, Robert Pepper, Peter Pitsch, Ros Singleton a Gavin Young.

Cyfarfu'r Bwrdd hwn bedair gwaith yn 2019/20.

### Amrywiaeth ein Haelodau Anweithredol

Ar 31 Mawrth 2020


Rhywedd




Ethnigrwydd




Anabledd



## Yr Uwch Dîm Rheoli

**Mae ein Huwch Dîm Rheoli yn cynnwys yr unigolion canlynol:**

### Aelodau presennol yr Uwch Dîm Rheoli


| Enw | Rôl |
|---|---|
| Fonesig Melanie Dawes | Y Prif Weithredwr[1] |
| Kevin Bakhurst | Cyfarwyddwr Grŵp, Polisi Cyfryngau a Chynnwys |
| Lindsey Fussell | Cyfarwyddwr Grŵp, Materion Defnyddwyr ac Allanol (a Chyfarwyddwr Grŵp dros dro, Gwasanaethau Corfforaethol) |
| Philip Marnick | Cyfarwyddwr Grŵp Sbectrwm |
| Dave Clarkson | Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro Cystadleuaeth |
| Yih-Choung Teh | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth ac Ymchwil (a Phrif Swyddog Technoleg dros dro) |
| Luisa Affuso | Prif Swyddog Economegydd |
| Martin Ballantyne | Cwnsler Cyffredinol Dros Dro |
| Kerri-Ann O'Neill | Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid[2] |

### Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod 2019/20 (wedi ymddiswyddo erbyn hyn)

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Y Fonesig Sharon White | Prif Weithredwr[3] |
| Jonathan Oxley | Prif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth[4] |
| Alison Crosland | Cyfarwyddwr Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol[5] |
| Mansoor Hanif | Prif Swyddog Technoleg[6] |
| Polly Weitzman | Cwnsler Cyffredinol[7] |

**Dyma oedd amrywiaeth yr Uwch Dîm Rheoli yn ystod y cyfnod adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020:**

Rhywedd




Ethnigrwydd




### Y Bwrdd Rheoli a Pholisi

Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Polisi fel y prif fforwm i arfer yr awdurdod sydd wedi cael ei ddirprwyo iddi gan Fwrdd Ofcom. Mae'r Bwrdd Rheoli Polisi yn goruchwylio'r broses o ddatblygu agenda Ofcom yn fewnol, rheoli Ofcom, yn ogystal â dyletswyddau rheoleiddio Ofcom.

Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli a Pholisi yn cynnwys yr uwch dîm rheoli a'r Cyfarwyddwr Cyllid (Curtis Juman). Mae uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad.

Cyfarfu'r Bwrdd Rheoli a Pholisi 11 gwaith yn 2019/20.

1 Penodwyd Melanie yn Brif Weithredwr ym mis Mawrth 2020
2 Ymunodd Kerri-Ann O'Neill â'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Ebrill 2020
3 Ymddiswyddodd Sharon o fod yn Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Tachwedd 2019
4 Roedd Jonathan yn Brif Weithredwr dros dro rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Mawrth 2020. Ymddiswyddodd o fod yn Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Mehefin 2020
5 Ymddiswyddodd Alison o fod yn Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Ionawr 2020
6 Ymddiswyddodd Mansoor o fod yn Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Tachwedd 2019
7 Ymddiswyddodd Polly Weitzman o fod yn Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Mehefin 2020 a phenodwyd Martin Ballantyne yn Gwnsler Cyffredinol Dros Dro o'r dyddiad hwnnw ymlaen

## Atebolrwydd

O dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ac ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Hefyd, anfonir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom at yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd Brydeinig ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu'n gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, a'i berthynas â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn y cyswllt hwn, yn cael eu disgrifio yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad cyfrifon ar sail busnes byw.

### Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ei wefan. Lle bo modd, mae'r data mae Ofcom yn ei greu a'i gasglu yn cael ei rannu â'r cyhoedd, gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae data agored Ofcom ar gael ar un porth cyhoeddus ar wefan Ofcom ac ar y porth data.gov.uk, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau'r llywodraeth ganolog a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2019/20, cafodd Ofcom 386 o geisiadau (332 o geisiadau yn 2018/19) am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, roeddem wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 66% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Yn ystod 2019/20, roedd Ofcom hefyd wedi cael 43 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (38 o geisiadau yn 2018/19). Pan oedd gan Ofcom wybodaeth berthnasol, fe ddarparwyd yr wybodaeth honno.

### Ymgysylltu

Mae Ofcom yn cydnabod bod angen iddo ystyried barn y rheini sydd â diddordeb yn y canlyniad wrth wneud penderfyniadau. Yn ogystal â chydweithio â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/y Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, mae Ofcom hefyd yn cydweithio ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys

Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU), Sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.

Mae ymgynghori hefyd yn rhan bwysig o broses Ofcom o wneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt, neu sy'n pryderu am fater penodol, gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn y byddwn yn penderfynu sut byddwn yn gweithredu. O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ddull ymgynghori Ofcom, a'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd yn ystod 2019/20, ar gael ar dudalennau 50 a 51 ac yn Atodiad 2.

## Trefniadau diogelwch ffisegol a phersonol

Ar 14 Tachwedd 2019, cafodd lefel y bygythiad terfysgaeth yn y DU ei hisraddio o'r lefel "Difrifol" (mae ymosodiad yn debygol iawn) i "Sylweddol" (mae ymosodiad yn debygol) . Mae datganiad agwedd at risg Bwrdd Ofcom yn dal ar y lefel "Gwrthwynebus" ar gyfer diogelwch Ffisegol ac Iechyd a Diogelwch.

Ar ôl cynnal asesiad bygythiadau ym mhob un o'n swyddfeydd yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau yn ystod y flwyddyn flaenorol, rydym bron â chwblhau rhaglen i wella diogelwch ffisegol er mwyn lleihau'r risg o ymosodiadau ffisegol allanol. Disgwylir y bydd gweddill yr eitemau yn y rhaglen waith hon wedi cael eu cwblhau erbyn mis Medi 2020. Effaith y Coronafeirws sydd wedi achosi'r oedi hwn cyn cwblhau'r rhaglen. Mae proses ar gyfer asesu diogelwch personol wrthi'n cael ei chynnal, a disgwylir y bydd wedi cael ei chwblhau ar gyfer holl Grwpiau Ofcom erbyn diwedd 2020. Bydd y broses "Risg yn ôl Rôl" yma yn cofnodi'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â phob rôl, a'r mesurau lliniaru sydd wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd ag agwedd at risg Bwrdd Ofcom ar gyfer diogelwch ffisegol a phersonol.

## Cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr/adfer ar ôl argyfwng/parhad busnes

Cafodd ein cynlluniau i reoli digwyddiadau mawr eu profi mewn ymarfer bwrdd gwaith yn 2019. Mae'r profion a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2020 wedi cael eu disodli, wrth i Covid-19 gael ei ddynodi'n Ddigwyddiad Mawr. Caiff cynlluniau eu hadolygu a'u diwygio, yn ôl yr angen, yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Drwy gyflwyno trefniadau gweithio ystwyth/hyblyg a symud gwasanaethau i'r cwmwl, roedd yr holl gydweithwyr yn Ofcom wedi gallu newid yn ddidrafferth i weithio o bell pan gaewyd swyddfeydd yn unol â'r cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19. Symudodd bron pob un o weithwyr Ofcom, gan eithrio gweithwyr allweddol, at weithio o bell yng nghanol mis Mawrth, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

## Diogelwch Gwybodaeth

Mae diogelu systemau gwybodaeth Ofcom yn erbyn y risg gynyddol o fygythiadau seiber yn dal yn flaenoriaeth. Mae ymdrechion gan bartïon allanol i dorri diogelwch Ofcom yn amlwg. Bu'r rhain yn aflwyddiannus o ganlyniad i'r rheolaethau diogelwch sydd ar waith, ac rydym yn parhau i wella'r prosesau monitro er mwyn adnabod ymosodiadau neu wendidau posib. Mae'r profion wedi cynnwys defnyddio ymosodiadau potsian ffug i wella ymwybyddiaeth defnyddwyr a phrofiad treiddiad technegol yn erbyn y seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a ffisegol. Cafodd adnodd eDdysgu newydd ar ddiogelwch ei gyflwyno ym mis Ionawr 2020, ynghyd â gofyniad gorfodol i ddarllen polisïau diogelwch.

Wrth i'r holl gydweithwyr newid i weithio o bell oherwydd Covid-19, nid oedd angen lleihau na chael gwared ar y rheolaethau diogelwch presennol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb wrth reoli risg diogelwch TGCh/ Gwybodaeth, sy'n cyd-fynd ag agwedd "Gwrthwynebus" Bwrdd Ofcom at risg.

O safbwynt llywodraethu, mae'r gwaith wedi parhau i gyd-fynd â'r safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth (ISO27001). Mae proses ardystio ISO27001 wedi dechrau, gyda chaffael gwasanaethau archwilio allanol. Roedd yr archwiliad ardystio i fod i ddechrau ym mis Mawrth, ond mae wedi cael ei ohirio tan nes ymlaen yn 2020, oherwydd COVID-19. Llwyddwyd i gael ardystiad eto yn erbyn cynllun Cyber Essentials Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU.

## Polisi chwythu'r chwiban a llinell gymorth

Ar ôl adolygu ein polisi mewnol ar chwythu'r chwiban, rydym wedi'i gwneud hi'n haws i gydweithwyr ddatgelu materion o dan y polisi, ac i symud ymlaen drwy'r broses. Rydym wedi cyflwyno llinell gymorth chwythu'r chwiban, sy'n cael ei chynnal a'i gweinyddu'n allanol, sy'n caniatáu i gydweithwyr ddatgelu'n ddienw.

## Datgelu er lles y cyhoedd

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond yn y sector cyfathrebiadau, gysylltu ag Ofcom os oes ganddynt bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2018/19, ni chafodd Ofcom unrhyw ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 neu fel arall.

# 12. Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio



**" Mae'r Pwyllgor wedi bod yn weithgar iawn yn ystod 2019/20, ac wedi parhau i ganolbwyntio ar ein prosesau adrodd ar risg, yn enwedig ar risgiau strategol Ofcom a'r rheolaethau a'r camau lliniaru cysylltiedig, yn ogystal â chryfhau ein systemau rheolaeth fewnol."**

**Angela Dean** Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

## Presenoldeb Aelodau yn ystod 2019/20

| Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2019/20: | |
|---|---|
| Angela Dean (Y Cadeirydd) | 5/5 |
| Maggie Carver | 5/5 |
| David Jones[1] | 3/3 |
| Graham Mather[2] | 1/2 |

[1] Wedi ymuno fel aelod ym mis Mehefin 2019

[2] Wedi ymddiswyddo fel aelod ym mis Mehefin 2019

Mae pob aelod wedi gwasanaethu am y cyfnodau canlynol:

- Angela Dean – blwyddyn (fel Cadeirydd)
- Maggie Carver – blwyddyn
- David Jones – 9 mis
- Graham Mather – 3 mis

## Gweithgareddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o dan gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i amlinellu yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor er mwyn:

- Adolygu agwedd Ofcom at risg, ac argymell hynny i'r Bwrdd. Hefyd, sicrhau bod gan Ofcom brosesau priodol ar waith i nodi'r prif Risgiau Strategol, gan gynnwys unrhyw risgiau gweithredol, ariannol a risgiau i enw da, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny;
- Monitro prosesau adrodd ariannol, gan gynnwys y broses adrodd ariannol a chyfrifyddu ar gyfer datganiadau ariannol Ofcom;
- Sicrhau bod fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, a'i systemau a'i bolisïau rheoli risg, yn effeithiol;
- Adolygu a monitro'r trefniadau chwythu'r chwiban, cynllunio parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, trefniadau atal llwgrwobrwyo a thwyll, ac unrhyw wrthdaro sylweddol rhwng buddiannau ar draws Ofcom;

- Goruchwylio'r broses o benodi'r Archwilwyr Mewnol, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer tendro, ffioedd archwilio mewnol, effeithiolrwydd, gallu a pherfformiad Archwiliadau Mewnol;
- Adolygu annibyniaeth yr Archwilwyr Allanol, a chytuno ar natur a chwmpas yr archwiliad mewnol o ddatganiadau ariannol Ofcom.

Roedd gwaith y Pwyllgor yn dilyn rhaglen waith flynyddol y cytunwyd arni, gyda'r Pwyllgor yn neilltuo ei amser yn 2019/20 fel hyn:

- Adrodd Ariannol a materion cysylltiedig
- Llywodraethu a Rheoli Risg
- Archwilio Mewnol
- Archwilio Allanol
- Cadernid Rhwydweithiau a Seiber
- Diogelwch Personol, Ffisegol a TGCh
- Eitemau eraill (e.e. ymgyfreitha, llwgrwobrwyo a thwyll ac ati)

## Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gyflawni ei gyfrifoldebau yn dryloyw ac yn onest. Yn ogystal ag Aelodau penodedig y Pwyllgor, mae gan y canlynol wahoddiadau parhaol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor:

- Ofcom – Y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol, Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: cynrychiolwyr Tîm Archwilio Allanol Ofcom
- Cynrychiolwyr Tîm Archwilio Mewnol Ofcom (KPMG yn 2019/20)

## Trosolwg

Ar ran y Bwrdd, mae'n bleser gennyf roi crynodeb o waith a chwmpas y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar gyfer y cyfnod ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol, ar ran Bwrdd Ofcom, am oruchwylio priodoldeb ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, llywodraethu risg, rheolaethau a systemau mewnol, a datganiadau ariannol Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), archwilwyr allanol Ofcom, gan gynnwys adolygu eu ffioedd a hyd a lled eu harchwiliad o ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae hyn yn cynnwys eu hasesiad o risgiau camddatganiadau o bwys ac afreoleidd-dra o bwys, eu hannibyniaeth, eu hadnoddau ac effeithiolrwydd y broses archwilio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio gydag archwilwyr mewnol Ofcom, (KPMG yn ystod 2019/20), i sefydlu Cynllun Blynyddol i archwilio elfennau penodol o Ofcom, ac wedyn yn monitro cynnydd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny. Fel rhan o fy rôl i fel Cadeirydd y Pwyllgor, bûm yn cwrdd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a KPMG yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd, heb fod Rheolwyr Ofcom yn bresennol.

Mae Ysgrifennydd y Gorfforaeth yn helpu i gynllunio gwaith y Pwyllgor, ac yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth a phapurau yn brydlon ac yn y fformat priodol.

Mae gan bob Aelod o'r Pwyllgor sgiliau a phrofiad perthnasol ar lefel uwch. Y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys tri Chyfarwyddwr Anweithredol ar hyn o bryd, ac mae pob un ohonyn nhw'n annibynnol. Mae gan fwy nag un Aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol diweddar a pherthnasol, ac mae gan y Pwyllgor cyfan allu sy'n berthnasol i'r sector cyfathrebiadau y mae Ofcom yn gweithredu ynddo.

Yn ogystal â'm profiad fel dadansoddwr ariannol, roeddwn yn Gadeirydd Pwyllgor Risg ac Archwilio Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac rwyf yn aelod o Bwyllgorau Archwilio Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog a'r Amgueddfa Bost.

Mae'r Pwyllgor yn cael sesiwn breifat bob blwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, yn ogystal ag Archwilwyr Mewnol (KPMG yn 2019/20) a'n Archwilwyr Allanol, sef y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn cael trafodaethau rheolaidd gyda mi rhwng cyfarfodydd y pwyllgor a gallant gysylltu â mi yn uniongyrchol os ydyn nhw'n dymuno codi unrhyw beth maen nhw'n teimlo na fyddai'n briodol ei godi'n uniongyrchol gyda Rheolwyr Ofcom.

### Datganiadau Ariannol a Pholisïau Cyfrifyddu

Ar y cyd â Rheolwyr Ofcom a'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, adolygodd y Pwyllgor y Datganiadau Ariannol a'r dogfennau cysylltiedig i weld a oedd y rhain yn cynnwys camddatganiad o bwys, ac wedi cael eu paratoi yn unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer adrodd ariannol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi herio penderfyniadau Rheolwyr Ofcom, a'r tybiaethau a'r amcangyfrifon a oedd yn sail i'r penderfyniadau hynny. Roedd y Pwyllgor yn rhoi pwyslais arbennig ar gyflwyniad teg a rhesymoldeb wrth benderfynu ar ffactorau a phriodoldeb y polisïau cyfrifyddu pwysig a ddefnyddiwyd wrth baratoi.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried y ffordd mae gwahanol asedau yn cael eu trin yng nghyfrifon y Grŵp, a'r tybiaethau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd gyda'r canlyniadau, gan gynnwys yr asesiad a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

### Y Fframwaith Risg a Rheolaeth, a Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn rhan bwysig o fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, ac mae'n cynnwys risgiau strategol a risgiau gweithredol mewn polisi rheoli risg, sy'n cael ei gadarnhau a'i gymeradwyo gan Fwrdd Ofcom a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu. I sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn gydnaws â'n gofynion, mae adolygiad o'n fframwaith rheoli risg yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Ym

mis Chwefror 2020, roedd Bwrdd Ofcom wedi adolygu a diweddaru Polisi Rheoli Risg Ofcom a'r Datganiadau Archwaeth Risg.

Mae Cofrestr Risgiau Strategol Ofcom yn cael ei hadolygu bob mis gan Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom, a bob chwarter gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn ymchwilio'n ddwfn i risg strategol benodol ym mhob cyfarfod. Yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Ofcom, rhoddir diweddariad ar lafar am y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gydweithio gydag Uwch Reolwyr ynghylch unrhyw elfennau risg a nodwyd, ac mae'r Pwyllgor wedi adolygu'r rheolaethau a'r camau lliniaru. Ers dechrau argyfwng Covid-19, mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y camau mae Ofcom wedi'u cymryd i sicrhau bod y gwaith yn parhau yn ddi-dor.

## Rheolaethau Mewnol

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom i unigolion a phwyllgorau penodol. Bu'r Pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol Ofcom, ac yn annog gwelliannau parhaus i'r systemau hynny er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol, pan fo'n briodol. Mae disgrifiad o system rheolaeth fewnol y Cwmni wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 74.

Ar ben hynny, ceir sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws Ofcom, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Parhad Busnes.

## Cadernid Rhwydweithiau a Seiber

Yn ystod 2019/20, bu'r Pwyllgor yn monitro gwaith y Grŵp Risg, TGCh a Thechnoleg i reoli risgiau seiber a chadernid rhwydweithiau. O ganlyniad i'r gwaith hwn, gwnaed argymhellion i gryfhau ymhellach brosesau TG, systemau eraill a chynlluniau ymateb Ofcom. Bydd camau pellach yn cael eu cymryd yn yr elfen hon yn ystod 2020/21, a bydd y Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi adolygu diogelwch ffisegol a phersonol yn Ofcom – gan ganolbwyntio ar gynllun gwaith cynhwysfawr i wneud Ofcom yn fwy diogel a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gofynion y safon Diogelwch Gwybodaeth ISO27001, wrth baratoi i gael ei ardystio yn yr elfen hon.

## Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol a Phwyslais Adolygiadau yn 2019/20

Cafodd Cynllun Blynyddol 2019/20 ar gyfer Archwilio Mewnol ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2019. Mae'r Archwilwyr Mewnol wedi adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun yn holl gyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor, a chymeradwyodd y Pwyllgor unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Cynllun. Roedd yr adolygiadau a gynhaliwyd yn cynnwys rhaglen waith yn seiliedig ar risg ar draws ystod o elfennau rheoli allweddol. Roedd y rheolwyr wedi cytuno ar y rhaglen, ac roedd wedi cael sêl bendith y Pwyllgor. Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol gan KPMG ar yr archwiliadau a gynhaliwyd, ymateb Rheolwyr Ofcom i'r canfyddiadau, a'r cynnydd a wnaed i roi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliadau. Roedd yr elfennau gafodd eu harchwilio'n fewnol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Rheolaethau Ariannol Allweddol, Diogelwch a Chadernid Rhwydweithiau, Ymateb i Brexit ac Ansawdd Prosesau Adrodd ar Risg, yn ogystal ag archwiliadau sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol.

Mae Ofcom wedi cynnal ymarfer tendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol. Penodwyd Deloitte yn Archwilwyr Mewnol newydd Ofcom o fis Ebrill 2020 ymlaen am gyfnod o 3 blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn am flwyddyn arall. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i KPMG, ein cyn archwilwyr mewnol, am eu cefnogaeth dros gymaint o flynyddoedd

## Elfennau eraill i'w hadolygu

Mae Polisïau Ofcom ar Chwythu'r Chwiban, Atal Llwgrwobrwyo a Thwyll yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd bob blwyddyn. Mae'r polisi Chwythu'r Chwiban yn rhoi sylw i'r holl faterion sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae'r polisi hwn wedi cael ei gyfleu i'r holl gydweithwyr er mwyn eu hatgoffa am y polisi ac y gallant godi materion yn ddienw gyda darparwr llinell gymorth chwythu'r chwiban Ofcom, Expolink. Er bod nifer o achosion wedi cael eu cyfeirio drwy'r llinell gymorth chwythu'r chwiban yn 2019/20, nid oedd unrhyw un o'r rhain yn ymwneud â chamymarfer fel y mae'n cael ei ddiffinio o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban Ofcom.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau hefyd ar lwgrwobrwyo, twyll, gwrthdaro sylweddol rhwng buddiannau, cydymffurfio â'r ddeddf diogelu data, a chanlyniad yr ymarfer Rheoli Argyfwng a gynhaliwyd ym mis Medi 2019.

### Adrodd i'r Bwrdd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio, rwyf yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar y materion allweddol a drafodir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor wedi adolygu a diweddaru ei gylch gorchwyl yn 2019, gan argymell y rhain i'r Bwrdd i'w cymeradwyo. Cynhaliwyd adolygiad arall ym mis Mawrth 2020, ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.

### Perfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Ddiwedd mis Mawrth / dechrau mis Ebrill 2019, cynhaliwyd adolygiad a hwyluswyd yn allanol o berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor yn 2019/20, fel rhan o Adolygiad Gwerthuso'r Bwrdd, a gofynnwyd i bob Aelod o Fwrdd Ofcom roi barn am effeithiolrwydd cyffredinol y Pwyllgor. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol iawn, gydag effeithiolrwydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cael sgôr uchel ac, yn benodol, y ffordd mae'n cyfleu ei weithgareddau a'i benderfyniadau i Fwrdd Ofcom.

**Angela Dean**
Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

3 Gorffennaf 2020

# 13. Adroddiad taliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i gydymffurfio cymaint ag y bo modd ac i'r graddau sy'n briodol ag Atodlen 8 o Reoliadau'r Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, er nad oes rhaid i Ofcom gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae dull gweithredu'r Bwrdd yn seiliedig ar egwyddorion penodol a nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac mae'n diwallu gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, dim ond lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys holl aelodau anweithredol Bwrdd Ofcom, fel y pennir gan Fwrdd Ofcom, ac mae'r manylion wedi'u nodi ar dudalen 83. Dim ond aelodau'r Pwyllgor gaiff fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid Ofcom ac fel rheol byddid yn disgwyl i'r Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid a'r Prif Weithredwr ddod i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Pan fo angen a phan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor Pobl hefyd yn cael cyngor a/neu wasanaethau gan gydweithwyr yn Ofcom neu gan sefydliadau allanol arbenigol.

Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi cyffredinol

Wrth bennu Polisi Taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Pobl y dylai Ofcom, gan ystyried ei fod yn gorff cyhoeddus, gynnig fframwaith gwobrau sefydlog a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol.

## Elfennau taliadau

Dyma brif elfennau taliadau'r Uwch Dîm Rheoli a'r Aelodau Gweithredol:

### Cyflog

Pennir cyflog sylfaenol yr Uwch Dîm Rheoli a'r Aelodau Gweithredol drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr, ynghyd â dadansoddiad meincnodi o dueddiadau'r farchnad berthnasol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol a daw unrhyw newidiadau i rym ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn.

### Buddion safonol a hyblyg

Mae pob Aelod Gweithredol a phob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn rhai buddion safonol: yn benodol yswiriant meddygol preifat, yswiriant bywyd, amddiffyniad incwm grŵp a'r cyfle i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol yn cael ei ddatgelu yn y tablau taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn ei drin fel enillion trethadwy.

Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg sy'n caniatáu i'r unigolyn dan sylw brynu buddion penodol.

## Pensiwn

Mae Ofcom yn cynnig pensiwn cyfranddeiliaid (Cyfraniad wedi'i ddiffinio) i bob cydweithwyr, a newidiodd darparwr y cynllun hwn o Prudential i Aviva ym mis Ebrill 2020.

Mae holl gydweithwyr Ofcom yn cael lwfans pensiwn, sy'n cael ei bennu fel % o'r cyflog sylfaenol. Gellir naill ai buddsoddi hyn yng nghynllun Pensiwn Ofcom, sy'n caniatáu i unrhyw ddidyniadau gael eu gwneud drwy ildio cyflog, neu ei gymryd fel cyflog ychwanegol.

Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol cyfredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Taliadau sy'n ymwneud â pherfformiad

Nid yw Ofcom yn darparu cynllun cymhelliant tymor hir ar gyfer ei weithwyr. Mae pob Aelod Gweithredol a phob Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn cymryd rhan mewn cynllun bonws blynyddol ar sail perfformiad, sy'n golygu bod modd cydnabod y rheini sydd wedi gwneud yn arbennig o dda mewn unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol. Caiff hwn ei gyfrifo fel canran o'r cyflog (amhensiynadwy) ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20%.

Ar gyfer y flwyddyn perfformiad yma, yn sgil y pandemig Covid-19, penderfynodd yr Uwch Dîm Rheoli yn unfrydol i wirfoddoli i ildio unrhyw fonws perfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 y gallai'r Pwyllgor Pobl ei gynnig i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli.

## Datgeliad cyflog teg

Mae Ofcom yn credu mewn cyflog teg. Rydym yn cadw golwg ar hyn drwy fonitro cymhareb cyflog teg, sy'n cymharu'r unigolyn â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweddill y sefydliad. Mae'r data'n cael ei gyfrifo a'i gyflwyno yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Caiff data'r datgeliad cyflog teg ei ddangos isod:

| | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf (£000) | 330-335 | 390-395 | 380-385 |
| Canolrif tâl (£) | 59,031 | 57,548 | 56,704 |
| Cymhareb tâl | 5.64 | 6.80 | 6.78 |

Nid ydy'r tâl canolrif yn cynnwys yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf ac mae'n seiliedig ar dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd tâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Ofcom, sef y Prif Weithredwr, yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 yn y band £330,000-£335,000 (£390,000-395,000 yn 2018/19). Roedd hyn 5.64 gwaith (6.80 gwaith yn 2018/19) tâl canolrif gweithlu Ofcom sef £59,031 (2018/19: £57,548). Mae tâl y Prif Weithredwr newydd yn is na thâl y Prif Weithredwr blaenorol, fel y nodir yn Nhabl 4.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd y tâl blynyddol yn amrywio o £17,426 i £332,000 (amrywiaeth 2018/19: £17,537 i £395,000). Mae hyn yn adlewyrchu tâl cyfwerth â blwyddyn lawn unigolyn ar 31 Mawrth yn hytrach na'r cyfanswm a dalwyd i unrhyw unigolyn yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'r ffigur taliadau yn cynnwys cyflog sylfaenol, tâl perfformiad, lwfans buddion hyblyg a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, unrhyw gyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr, na gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod.

Ar 31 Mawrth 2020, nid oedd gan unrhyw weithiwr becyn tâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr sy'n derbyn y tâl uchaf.

## Arweiniad i'r tablau taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Uwch Dîm Rheoli wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac maen nhw wedi'u nodi yn y tablau a'r nodiadau canlynol.

Mae'r tablau'n adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys yn unig, neu'n aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli. Roedd yr unigolion hynny sydd â '+' wrth eu henw (yn Nhabl 1 a 4) yn eu rolau am dim ond ran o flwyddyn ariannol 2019/20 neu 2018/19. Yn yr achos hwn, dangosir eu cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau).

Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd neu Bwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 81 i 86) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y rhestri taliadau. Rhestrir yr holl Aelodau Gweithredol dan yr Uwch Dîm Rheoli yn Nhabl 4.

Mae'r cyfeirnodau yn y nodiadau canllaw a ddangosir wrth ymyl enwau unigolion yn cyfeirio at y nodiadau ar y tablau taliadau ar dudalennau 100 a 101.

### Tabl 1: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom:

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 2019/20 £ | Ffioedd 2018/19 £ |
|---|---|---|---|
| Yr Arglwydd Terence Burns | 1 | 120,000 | 120,000 |
| Maggie Carver | 1 | 70,000 | 35,000 |
| Angela Dean | 1 | 42,519 | 21,259 |
| Bob Downes | 1 | 42,519 | 42,519 |
| David Jones + | 1,2 | 41,714 | - |
| Graham Mather CBE | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Y Farwnes Noakes + | | - | 11,667 |
| Nick Pollard + | | - | 4,930 |
| Tim Suter | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Ben Verwaayen | 1 | 42,519 | 42,519 |
| | | **444,309** | **362,932** |

## Tabl 2: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 2019/20 £ | Ffioedd 2018/19 £ |
|---|---|---|---|
| Jonathan Baker | 1,3 | 16,800 | 16,800 |
| Maggie Cunningham | 1,3 | 16,800 | 8,400 |
| Aled Eirug | 1,3 | 16,800 | 16,800 |
| Robin Foster | 1,3 | 16,800 | 16,800 |
| Angelina Fusco | 1,3 | 16,800 | 14,000 |
| Sophie Morgan | 1,3 | 16,800 | 7,000 |
| Stephen Nuttall | 1,3 | 16,800 | 5,267 |
| Monisha Shah | 1,3 | 16,800 | 16,800 |
| Janey Walker | 1,3 | 24,150 | 24,150 |
| | | **158,550** | **126,017** |

## Tabl 3: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom

| | | | | | 2019/20 | | | | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw | Cyfeirnod y Nodyn Canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd ar y Bwrdd Cynnwys | Cyflog a dalwyd £ | Hawl pensiwn/ lwfans pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws Perfformiad Blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ |
| Tony Close | 3,4 | 12 | 163,737 | 24,561 | 15,000 | 2,610 | - | 205,908 | 213,077 |
| **Cyfanswm** | | | **163,737** | **24,561** | **15,000** | **2,610** | **-** | **205,908** | **213,077** |

## Tabl 4 : Taliadau Uwch Dîm Rheoli Ofcom:

### Aelodau ar 31 Mawrth 2020

| Name | Cyfeirnod y Nodyn Canllaw | Misoedd adrodd cyfnod cyflogi yn yr Uwch Dîm Rheoli | Cyflog a dalwyd £ | Hawl pensiwn/ lwfans pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws Blynyddol £ | Cyfanswm taliadau a dalwyd £ (2019/20) | Cyfanswm taliadau a dalwyd £ (2018/19) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Luisa Affuso | 4,5 | 12 | 217,375 | 32,606 | 15,000 | 2,610 | - | 267,591 | 113,600 |
| Kevin Bakhurst | 4,5 | 12 | 239,500 | 35,925 | 15,000 | 2,610 | - | 293,035 | 304,405 |
| David Clarkson + | 4,8 | 4 | 63,911 (190,000) | 9,587 | 5,000 | 882 | - | 79,380 | - |
| Dame Melanie Dawes + | 4,9 | 1 | 26,250 (315,000) | 5,250 | 1,250 | 222 | - | 32,972 | - |
| Lindsey Fussell | 4,5,8 | 12 | 227,375 | 34,106 | 15,000 | 2,610 | - | 279,091 | 275,131 |
| Philip Marnick | 4,5 | 12 | 225,125 | 33,769 | 15,000 | 2,610 | - | 276,504 | 280,449 |
| Jonathan Oxley | 4,5,8 | 12 | 280,042 | 46,131 | 15,000 | 2,610 | - | 343,783 | 339,193 |
| Yih-Choung Teh | 4,5,8 | 12 | 197,361 | 29,604 | 15,000 | 2,610 | - | 244,575 | 177,070 |
| Polly Weitzman | 4,5 | 12 | 257,500 | 38,625 | 15,000 | 2,610 | - | 313,735 | 321,655 |
| **Cyfanswm** | | | **1,734,439** | **265,603** | **111,250** | **19,374** | | **2,130,666** | **1,811,503** |

### Y rhai a adawodd yn ystod cyfnod adrodd 2019 / 2020

| Name | Cyfeirnod y Nodyn Canllaw | Misoedd | Cyflog a dalwyd £ | Hawl pensiwn/ lwfans pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws Blynyddol £ | Cyfanswm 2019/20 £ | Cyfanswm 2018/19 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alison Crosland | 4,6,7 | 12 | 202,250 | 30,338 | 15,000 | 1,044 | - | 248,632 | 245,462 |
| Mansoor Hanif + | 4,6 | 11 | 190,950 (226,500) | 28,642 | 13,250 | 2,389 | - | 235,231 | 127,775 |
| Y Fonesig Sharon White + | 4,6 | 10 | 270,570 (350,000) | 54,114 | 11,685 | 2,167 | - | 338,536 | 459,623 |
| **Cyfanswm** | | | **663,770** | **113,094** | **39,935** | **5,600** | | **822,399** | **832,860** |
| **Cyfanswm Blynyddol holl aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod y cyfnod adrodd** | | | **2,398,209** | **378,697** | **151,185** | **24,974** | **-** | **2,953,065** | **2,644,363** |

## Nodiadau i'r tablau taliadau

Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm a dalwyd yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu. Mae'r ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi aros yn £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008.

Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys.

£16,800 y flwyddyn yw'r ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio'r ffi a delir i Janey Walker sef £24,150 y flwyddyn i adlewyrchu ei gwaith a'i chyfrifoldebau ychwanegol am waith safonau). Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm a dalwyd dros y flwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, ran o'r flwyddyn, os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â Bwrdd Ofcom neu'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohonynt neu ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau, yn ystod y cyfnod dan sylw.

Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol ar ben eu ffioedd heblaw am yr hawl i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig, gael offer TG ar gyfer gweithio gartref. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom fanteisio ar yr hawl hon yn ystod y cyfnod dan sylw.

2. Mae'r gwerthoedd sy'n cael eu dangos yn Nhabl 1 yn adlewyrchu'r swm a dalwyd i Aelodau'r bwrdd yn 2019/20.

   Dyma'r ffioedd blynyddol sy'n cyfateb i flwyddyn lawn:

- Maggie Carver £70,000
- Aelodau Anweithredol y Bwrdd £42,519

   Ymunodd David Jones â Bwrdd Ofcom ar 8 Ebrill 2019 fel yr Aelod cyntaf ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom. Mae ei ffi sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yn cyd-fynd ag aelodau eraill y bwrdd.

3. Nid oedd unrhyw newidiadau i Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys yn ystod cyfnod adrodd 2019/2020.

   O ran Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys, mae Tony Close wedi bod yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys drwy gydol y cyfnod adrodd. Bydd Tony Close yn gadael Ofcom yn ystod Haf 2020. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn nhablau taliadau'r flwyddyn nesaf.

   Cyhoeddodd Ofcom fod Alison Marsden, Cyfarwyddwr Safonau Cynnwys, Trwyddedu a Gorfodi wedi ymuno â'r Bwrdd Cynnwys fel Aelod Gweithredol ym mis Mai 2020.

4. Dangosir cyfanswm y taliadau blynyddol ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom sydd, neu a oedd, yn aelodau o Uwch Dîm Rheoli Ofcom yn ystod cyfnod adrodd 2019/2020.

   Mae cyfanswm y tâl blynyddol yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad blynyddol, lwfans buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn a buddion o fath arall.

   Mae'r golofn 'buddion o fath arall' yn adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat i bob swyddog gweithredol.

   Er gwybodaeth, yn sgil pandemig Covid-19, gwirfoddolodd holl aelodau'r Uwch Dîm Rheoli i ildio unrhyw daliadau bonws posib ar gyfer blwyddyn perfformiad 2019/2020.

5. Mae Luisa Affuso, Kevin Bakhurst, Lindsey Fussell, Philip Marnick, Jonathan Oxley, Yih-Choung Teh a Polly Weitzman wedi bod yn aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli drwy gydol y cyfnod.

6. Gadawodd y Fonesig Sharon White Ofcom ym mis Ionawr 2020.

   Gadawodd Mansoor Hanif Ofcom ym mis Chwefror 2020. Gadawodd Alison Crosland Ofcom ddiwedd mis Ebrill 2020.

7. Ar ôl i Alison Crosland adael a thri mis o absenoldeb garddio o Ofcom, ac yn unol â pholisïau Ofcom a gafodd eu gosod gan y Pwyllgor Pobl, cafodd iawndal

Am golli swydd ar ffurf tâl contractiol yn lle rhybudd am dri mis, a thaliad terfynu o £70,074. Mae'r iawndal hwn yn dod i gyfanswm o £124,574 ac fe gafodd ei gronni ym mlwyddyn ariannol 2019/2020 a'i dalu yn 2020/21.

8. Jonathan Oxley oedd Prif Weithredwr Dros Dro Ofcom rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Chwefror 2020, ac yn ystod y cyfnod hwn roedd ei gyflog wedi cynyddu i £315,000 dros dro, a'i lwfans pensiwn wedi cynyddu i 20% o'i gyflog sylfaenol dros dro.

   Dechreuodd David Clarkson ar ei swydd fel Cyfarwyddwr dros dro y Grŵp Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2019, ac mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn adlewyrchu dim ond ei gyflog ar gyfer y rôl dros dro yma.

   Mae Yih-Choung Teh wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol fel Swyddog Technoleg dros dro ers mis Tachwedd 2019, ac mae gan Lindsey Fussell gyfrifoldebau ychwanegol fel Cyfarwyddwr Grŵp dros dro ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol ers mis Chwefror 2020. Mae'r naill a'r llall wedi derbyn codiad cyflog arferol o 5% dros dro ar gyfer cyfnod y dyletswyddau ychwanegol.

9. Dechreuodd y Fonesig Melanie Dawes ar ei swydd fel Prif Weithredwr Ofcom ym mis Mawrth 2020.

## Contract cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr a Jonathan Oxley, Cyfarwyddwr y Grŵp Cystadleuaeth, gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am gyfnod penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o oddeutu ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am yr Arglwydd Burns (Cadeirydd Bwrdd Ofcom) a Maggie Carver (Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Ofcom) a neilltuodd hyd at dri diwrnod yr wythnos a dau ddiwrnod a hanner yr wythnos yn y drefn honno).

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Pobl sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau. Bydd unrhyw ffioedd a delir i Aelod Gweithredol am benodiad o'r fath yn cael eu cadw dim ond yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Pobl.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, roedd y Fonesig Sharon White DBE yn Gyfarwyddwr anweithredol annibynnol ar Barratt Developments Plc. Mae hi'n gwneud y rôl honno ers mis Ionawr 2018. Talwyd cyfanswm o £56,547 o ffioedd yn uniongyrchol i Ofcom yn ystod 2019/20 ac ni chafodd Sharon White unrhyw ran o'r ffi hwn yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

Ar ran Ofcom,

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

**Ben Verwaayen**
Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

17 Gorffennaf 2020

# 14. Ein gweithwyr

## Gwerthoedd Ofcom

Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n ffordd o weithredu, yn llywio ein gwaith ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'n ffordd o gydweithio er mwyn cyflawni'n blaenoriaethau. Mae gennym bedwar gwerth craidd sy'n adlewyrchu ein dymuniad i weithio mewn ffordd agored ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar bobl.

Sef:

- **Rhagoriaeth**
- **Cydweithio**
- **Ystwythder**
- **Grymuso**

### Amrywiaeth a chynhwysiant

Cafodd ein pedwaredd strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2018. Mae'n adlewyrchu ein huchelgais i ganolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl waith, gan greu diwylliant lle mae cydweithwyr yn cael eu gwerthfawrogi ar sail haeddiant a thalent, a gan sicrhau ein bod yn gyflogwr ac yn rheoleiddiwr mwy effeithiol a chyfrifol.

Mae Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Ofcom yn egluro sut mae amrywiaeth a chydraddoldeb yn hanfodol i'r ffordd rydym ni'n gweithredu, fel cyflogwr ac fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU. Mae'n adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud ers sefydlu ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn 2014, ac yn amlinellu ein camau gweithredu a'n hamcanion, sef:

- creu gweithlu amrywiol a chynhwysol er mwyn sicrhau bod y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn y DU yn cael ei hadlewyrchu'n well;
- sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan ganolog o'n diwylliant a'n harferion gwaith er mwyn gwneud yn siŵr pawb yn deall amrywiaeth, yn ei gefnogi ac yn atebol amdano; a sicrhau bod anghenion a buddiannau gwahanol pob unigolyn yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein gwaith rheoleiddio.

Bydd strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer ein gwaith mewnol ar amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020 a byddwn hefyd yn cadarnhau targedau amrywiaeth pum mlynedd newydd ar gyfer Ofcom, oherwydd bydd y targedau presennol a gafodd eu gosod yn 2015 yn dod i ben ddiwedd 2020.

Fel cyflogwr, rydym yn ymrwymo i drin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg. Rydym eisiau i bob cydweithiwr deimlo y gallant fod yn nhw eu hunain yn y gwaith, a chyfrannu'n llawn at ein gwaith. Rydym yn benderfynol o hyrwyddo cyfle cyfartal i bob cydweithiwr, ni waeth beth yw ei hil, ei anabledd, ei rywedd, ei hunaniaeth o ran rhywedd, ei oedran, ei grefydd neu gred na'i gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ymrwymiad hwn wrth wraidd ein polisïau cyflogaeth a'n hagwedd at recriwtio a datblygu gyrfa.

Rydym yn monitro ein polisïau a'n harferion yn helaeth drwy adroddiadau mewnol a dadansoddiadau data, arolygon o gydweithwyr, ymgynghori â rhwydweithiau cydweithwyr, prosesau meincnodi allanol, ac archwiliad rheolaidd o gyflog cyfartal ac adrodd ar y bwlch cyflog.

Cyhoeddwyd ein diweddariad cynnydd blynyddol cyntaf ym mis Gorffennaf 2019, gan nodi'r prif elfennau y byddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw yn ystod 2019/2020, a bennwyd drwy edrych ar ein data. Roedd yr elfennau hyn yn cynnwys bod yn fwy cynhwysol i bobl anabl;

gwella canlyniadau a phrofiadau cydweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig; canolbwyntio ar les, yn enwedig o ran iechyd meddwl a lles; adolygu ein polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd, a meithrin diwylliant cynhwysol er mwyn i gydweithwyr allu dweud 'Rwy'n gallu bod yn fi fy hun'.

Ym mis Mawrth 2020 roeddem wedi cyhoeddi canlyniadau ein harchwiliad tâl rheolaidd sy'n cynnwys archwiliad cyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd. Mae'r dadansoddiad o'r bwlch cyflog eto'n dangos ein bod wedi lleihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond mae ein bwlch cyflog o ran ethnigrwydd wedi aros yr un fath i raddau helaeth. Canfu ein harchwiliad fod llawer o gysondeb mewn gwahanol gategorïau proffesiynol, sy'n dangos bod elfennau perthnasol mewnol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am gyflogau, a'n bod yn dal i weithredu ar unrhyw fylchau cyflog a ddaw i'r amlwg.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y gwaith o gyflawni ein targedau presennol ar gyfer y gweithlu erbyn diwedd 2020. Yn 2015, gwnaethom osod targedau ar gyfer cynyddu nifer y menywod ar draws Ofcom yn gyffredinol ac mewn uwch swyddi a chynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn uwch swyddi.

Roeddem wedi llwyddo i gyrraedd a rhagori ar ein targed ar gyfer menywod mewn swyddi uwch yn gynnar, ac rydym wedi gwneud cynnydd cyson, ond arafach, ar ein targed cyffredinol o ran rhywedd. Nid oedd y cynnydd o ran ein targed lleiafrifoedd ethnig wedi newid rhyw lawer o'i gymharu â'r llynedd (edrychwch ar y tabl isod).

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd ein set nesaf o dargedau amrywiaeth pum mlynedd ar gyfer 2021-2025 yn cael eu cyhoeddi yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bydd ein diweddariad cynnydd nesaf ar ein Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

### Rhywedd

| Cyfansoddiad Ofcom ar hyn o bryd | | Economaidd weithgar[1] | | Targedau: Erbyn 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| 48% yn fenywod | 52% yn ddynion | 47% yn fenywod | 53% yn ddynion | 50% yn fenywod | 50% yn ddynion |
| **Arbenigwyr/Uwch Reolwyr ac Arbenigwyr** | | | | | |
| 43% yn fenywod | 57% yn ddynion | Amh | | 40% yn fenywod | 60% yn ddynion |

### Ethnigrwydd

| Cyfansoddiad Ofcom ar hyn o bryd | | | | Economaidd weithgar | Targedau: Erbyn 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| 20% lleiafrifoedd ethnig | 74% ethnig gwyn | 0% ddim yn gwybod | 5% dewis peidio â dweud | 13% lleiafrifoedd ethnig | Dim targed |
| **Principal/SMS** | | | | | |
| 10% lleiafrifoedd ethnig | 85% ethnig gwyn | 0% ddim yn gwybod | 4% dewis peidio â dweud | Amh | 13% o gefndir lleiafrifoedd ethnig |

Sail: pob cydweithiwr ddiwedd mis Mawrth 2020.
Oherwydd talgrynnu, gall y cyfansymiau ddisgyn o dan 100%.

1 Mae 'Economaidd weithgar' yn cynnwys y rheini a oedd yn gweithio amser-llawn neu ran-amser (Cyfrifiad 2011)

## Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Anogir cydweithwyr i helpu i sicrhau bod Ofcom yn cael safbwyntiau amrywiol yn ei waith. Mae ein dulliau ffurfiol arferol o hysbysu ac ymgynghori â chydweithwyr yn cynnwys:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cydweithwyr ar draws Ofcom sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys dau aelod o'r undeb);
- arolygon cydweithwyr, a hynny'n ddienw sy'n gwahodd cydweithwyr i rannu eu safbwyntiau ar amrywiaeth eang o bynciau. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen i'n gwaith yn datblygu ein sefydliad.
- ein rhwydweithiau amrywiaeth cydweithwyr;
- cyfarfodydd grŵp rhyngweithiol gyda'r Prif Weithredwr a chadeirydd Bwrdd Ofcom, sy'n fforwm i gydweithwyr ofyn cwestiynau iddynt yn uniongyrchol;
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd, i siarad â chydweithwyr, ac i glywed ganddynt.

## Datblygiad proffesiynol

Mae ansawdd ac ymrwymiad ein pobl yn ganolog i'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau. Yn ystod 2019 roeddem wedi parhau i gefnogi cydweithwyr yn eu gyrfaoedd drwy amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Roeddem wedi cyflwyno ein rhaglen ddatblygu benodol, Ofcom Rise, gyda'r nod o wella amrywiaeth ein cymuned o uwch arweinwyr. Mae'n targedu Uwch Weithwyr Cyswllt a phenaethiaid sy'n perfformio'n dda ac yn dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ganolbwyntio ar fenywod, cydweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a chydweithwyr sy'n anabl (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhestr hon).

Rydym yn defnyddio dull cydblethu ar gyfer y rhaglen lle bynnag y bo modd, ac mae'n cael ei datblygu'n arbennig ar gyfer anghenion unigol ein cydweithwyr.

## Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Rydym yn adolygu ein prosesau a'n polisïau staff yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.

Yn ystod 2019, gan adeiladu ar ein hymrwymiad i greu gweithle cynhwysol, aethom ati i adolygu ein polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd (fel polisïau absenoldeb mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu, ac absenoldeb rhiant a rennir) er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn adlewyrchu teuluoedd modern. Roeddem hefyd wedi mabwysiadu iaith nad yw'n benodol i ryw. Fel rhan o'r gwaith hwn, roeddem yn gweithio'n unol â chanllawiau arferion gorau gan sefydliad LGBT allanol.

Lansiwyd ein proses a'n polisi addasiadau yn y gweithle ar eu newydd wedd, a oedd yn disodli ein polisi addasiadau rhesymol blaenorol. Mae'r polisi diwygiedig yn mynd ymhellach na'n dyletswydd gyfreithiol i wneud newidiadau yn y gwaith i ddileu'r rhwystrau i bobl anabl er mwyn cynnwys cydweithwyr sydd â chyfrifoldebau rhiant, cyfrifoldebau gofalu, y rheini sy'n delio â digwyddiadau bywyd neu drawma, a chydweithwyr sydd ag ymlyniad crefyddol neu ddiwylliannol. Rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod cydweithwyr a rheolwyr llinell yn cael sgyrsiau da am unrhyw rwystrau maen nhw'n eu hwynebu (heb orfod datgelu unrhyw wybodaeth bersonol benodol), a bod rheolwyr llinell yn gefnogol o'r is-weithwyr hynny sy'n atebol iddyn nhw yn uniongyrchol. Fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r prosesau hyn ar eu newydd wedd, roeddem wedi cyflwyno 'pasbort' addasiadau i'r gweithle sy'n cofnodi unrhyw addasiadau y cytunwyd arnynt, a gall cydweithwyr gario'r pasbort gyda nhw o amgylch y sefydliad.

## Absenoldeb

Rydym yn hybu diwylliant lle mae presenoldeb da yn ddisgwyliedig ac yn cael ei werthfawrogi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes modd osgoi absenoldeb am resymau meddygol o bryd i'w gilydd.

Ein nod yw trin staff sy'n sâl yn deg ac â chydymdeimlad gan roi cefnogaeth iddynt, lle bo modd, eu cefnogi i'w galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2019/20, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 6.1 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2018/19, 4.3 diwrnod).

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a'r canllawiau ar gyfer y System Gwariant Cyhoeddus gan Drysorlys EM, rydym wedi datgelu pob ymrwymiad oddi ar y gyflogres ym mlwyddyn ariannol 2019/20 i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

# 15. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Cyfarwyddwyr y Grwpiau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Y fframwaith hwn yw sail gwaith y drefn archwilio mewnol a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu ac i oruchwylio'n strategol y trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan Gyfarwyddwyr ar eu meysydd cyfrifoldeb, a drwy adroddiadau penodol i'w trafod gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio wedi ystyried:

- adroddiadau archwilio mewnol unigol, ymatebion rheolwyr a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yng nghyswllt unrhyw gamau a nodwyd;
- adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol a'i farn ar ddigonolrwydd ein system rheolaeth fewnol;
- adroddiadau ac argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau strategol Ofcom, gan gynnwys pennu'r risgiau i system rheolaeth fewnol y sefydliad a gwybodaeth am y rheolaethau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau hyn; ac
- unrhyw adroddiadau ychwanegol am sicrwydd y mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio wedi gofyn amdanynt.

Rwy'n cadarnhau nad oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, hyd y gwn i. Rwyf hefyd wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn bod yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol, ac rwyf wedi cadarnhau bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rwy'n hyderus y bydd Ofcom yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyw a llwyddiannus sy'n cael ei reoli'n dda wrth symud ymlaen. Er y bydd heriau anochel yn y tymor canolig, credaf fod y trefniadau llywodraethu sydd gennym ar waith yn gadarn ac yn ddigon i ymdopi â'r heriau hynny.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon gyda'i gilydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwyf fi'n ysgwyddo cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a'r casgliadau y mae angen eu gwneud er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

17 Gorffennaf 2020

# 16. Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr; y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol; y Datganiad am y Llifoedd Arian; y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu yng nghyswllt hynny. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg cywir a theg o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2020, a'r gwarged ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Senedd y DU, ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Moesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar y Swyddfa Gyfathrebiadau yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Nid oes gennyf fi ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi roi gwybod i chi:

- os nad yw defnydd y Swyddfa Gyfathrebiadau o'r sail busnes byw cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a ganfuwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau i fabwysiadu'r sail o gyfrifo ar gyfer y cyfnod sydd o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad pan awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy gamgymeriad neu dwyll. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (DU), rwyf yn defnyddio barn broffesiynol ac yn defnyddio amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- canfod ac yn asesu risgiau o gamddatganiad o bwys o'r datganiadau ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, yn dylunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad o bwys sy'n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer un sy'n deillio o gamgymeriad, gan fod twyll yn gallu golygu cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, anwiredd, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- dod i ddeall y rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid er mwyn mynegi barn ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau.
- gwerthuso pa mor briodol ydy'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi cael eu defnyddio a pha mor rhesymol ydy'r amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wneir gan reolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol yn gyffredinol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a ydy'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodiadau a'r digwyddiadau sylfaenol mewn ffordd sy'n rhoi cyflwyniad teg.
- llunio casgliad ynghylch pa mor briodol yw defnydd y Swyddfa Gyfathrebiadau o'r sail busnes byw cyfrifyddu ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gasglwyd, a oes ansicrwydd sylweddol yn bodoli sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw. Os byddaf yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd o bwys yn bodoli, mae'n rhaid i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gasglwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu y bydd y Swyddfa Gyfathrebiadau yn rhoi'r gorau i barhau fel busnes byw.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU, a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y rhannau o'r Adroddiad Taliadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi cael ei harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio ar hynny.
Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn gamddatganiad o bwys fel arall. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;
- yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Swyddfa Gyfathrebiadau a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Berfformiad neu'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gydnaws â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
20 Gorffennaf 2020
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road Victoria
Llundain SW1W 9SP



ADRAN C

# Datganiadau Ariannol

# 17. Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodiadau | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | 124,994 | 124,283 |
| Clirio sbectrwm | 3 | 76,651 | 72,452 |
| Cyllid setliad cyfreithiol | 3 | 232,533 | - |
| **Cyfanswm incwm** | | **434,178** | **196,735** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau staff | 4 | (78,757) | (76,281) |
| Gwariant gweithredu arall | 6 | (47,890) | (46,035) |
| Clirio sbectrwm | 4,6 | (76,651) | (72,452) |
| Cost gyfreithiol yn ystod y flwyddyn | 6 | (3,533) | (232,000) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **(206,831)** | **(426,768)** |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu** | | **227,347** | **(230,033)** |
| Incwm/(costau) cyllido | 16,17 | (1,058) | 1 |
| Incwm llog pensiwn | 20 | 382 | 439 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth am y flwyddyn** | | **226,671** | **(229,593)** |
| Trethiant | 7 | - | - |
| **Gwarged/(Diffyg) ar ôl treth am y flwyddyn** | | **226,671** | **(229,593)** |
| **Incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | 4,534 | **(196)** |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr** | | **231,205** | **(229,789)** |

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 115 i 154 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# 18. Datganiad am y Sefyllfa Ariannol

## ar 31 Mawrth 2020

| | Nodiadau | ar 31 Mawrth 2020 £'000 | ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 11,312 | 12,490 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 47,650 | - |
| Asedau anniriaethol | 10 | 627 | 966 |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 541 | 484 |
| Asedau buddion ymddeol | 20 | 22,426 | 17,691 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **82,556** | **31,631** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11 | 15,920 | 15,216 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 13 | 13,827 | 7,685 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **29,747** | **22,901** |
| **Cyfanswm asedau** | | **112,303** | **54,532** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 14 | 28,428 | 21,584 |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 16 | 4,052 | - |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | 3,014 | 232,031 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **35,494** | **253,615** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 15 | 1,290 | 1,000 |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 16 | 44,522 | - |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | 152 | 151 |
| Rhwymedigaethau buddion ymddeol | 20 | 1,085 | 1,211 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **47,049** | **2,362** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **82,543** | **255,977** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **29,760** | **(201,445)** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | 29,760 | (201,445) |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **29,760** | **(201,445)** |

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 115 i 154 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 03 Gorffennaf 2020.

**Yr Arglwydd Terry Burns**
Cadeirydd
3 Gorffennaf 2020

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu
3 Gorffennaf 2020

# 19. Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £’000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2018** | | **28,344** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2018/19** | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | (196) |
| Diffyg am y flwyddyn | | (229,593) |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2018/19** | | **(229,789)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **(201,445)** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2019/20** | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | 4,534 |
| Gwarged am y flwyddyn | | 226,671 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am 2019/20** | | **231,205** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **29,760** |

Mae’r nodiadau a’r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 115 i 154 yn rhan o’r datganiadau ariannol hyn.

# 20. Datganiad am y Llifoedd Arian

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodiadau | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | | 227,347 | (230,033) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodiadau anariannol** | | | |
| Dibrisiant | 8 | 2,115 | 2,448 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 4,775 | - |
| Amorteiddiad | 10 | 265 | 636 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 6 | 97 | 93 |
| Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11,12 | (761) | (5,223) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 14,15 | 7,134 | (12,337) |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn darpariaethau | 17 | (229,032) | 231,970 |
| Lleihad mewn pensiwn ymddeol | 20 | 55 | 790 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | **11,995** | **(11,656)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (895) | (5,558) |
| Prynu asedau anniriaethol | 10 | (68) | (385) |
| Enillion o werthu asedau anghyfredol | | 3 | 51 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(960)** | **(5,892)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Taliadau rhwymedigaethau lesoedd | 16 | (4,893) | - |
| **All-lif arian net o weithgareddau cyllido** | | **(4,893)** | **-** |
| **Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **6,142** | **(17,548)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | | 7,685 | 25,233 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn | | 6,142 | (17,548) |
| **Cronfeydd net terfynol** | **13** | **13,827** | **7,685** |

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 115 i 154 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# 21. Nodiadau i'r Cyfrifon

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

## 1. Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisïau cyfrifyddu

Mae'r **Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)** yn gorfforaeth statudol sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol Ofcom ar gyfer 31 Mawrth 2020 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, ar wahân i'r gwaith o ailbrisio rhai asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol sy'n cael eu mesur yn ôl symiau wedi'u hailbrisio neu werth teg, os o gwbl, ar sail busnes byw, yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Paratoir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n llunio adroddiadau o dan IFRS ac Erthygl 4 o Reoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan fydd Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 yn eu dirymu. Paratoir y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, i'r fil agosaf, sef yr arian y mae Ofcom yn delio ag ef.

### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r safon a'r datganiad isod yn berthnasol i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol.

- Diwygiadau i IAS 19 Diwygio, Cwtogi neu Setlo Cynllun sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2019 neu ar ôl hynny. Ar gyfer Ofcom, y dyddiad trosglwyddo yw dechrau'r flwyddyn ariannol ar 1 Ebrill 2019. Nid yw hyn yn effeithio ar ein ffigurau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, gan na fu unrhyw amgylchiadau a fyddai'n golygu bod setliad neu gost gwasanaeth blaenorol yn effeithio ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr.
- Datganiad Ymarfer 2 IFRS: Gwneud Penderfyniadau ynghylch Perthnasedd, sef canllaw anorfodol i helpu i wneud penderfyniadau ynghylch perthnasedd wrth baratoi cyfrifon, i gael ei roi ar waith ar unwaith.

Mae safon, diwygiad a dehongliad newydd i'r safonau cyfredol – a restrir isod – wedi cael eu cyhoeddi, ac maent yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r safon isod yn ymwneud â'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol.

- Mae IFRS 16 Lesoedd yn berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2019 neu ar ôl hynny. Ar gyfer Ofcom, y dyddiad trosglwyddo yw dechrau'r flwyddyn ariannol ar 1 Ebrill 2019.

  Mae'r safon yma, a ddaeth yn lle IAS 17, ynghyd â thri Dehongliad (IFRIC 4 'Pennu a yw Cytundeb yn cynnwys Les', SIC 15 'Lesoedd Gweithredol – Cymelliadau', a SIC 27

‘Lesoedd Gweithredol – Cymelliadau’, a SIC 27 ‘Gwerthuso Sylwedd Trafodiadau sy’n ymwneud â Ffurf Gyfreithiol Les’) yn mynnu bod lesddeiliaid yn cydnabod asedau a rhwymedigaethau pob les, oni bai fod cyfnod y les yn 12 mis neu’n llai, neu fod gwerth yr ased sylfaenol yn isel. Ar 31 Mawrth 2020, mae gan Ofcom nifer o lesoedd gweithredol a oedd yn arfer, o dan IAS 17, cael eu gosod fel treuliau ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Mae Ofcom wedi defnyddio’r safon ers y dyddiad trosglwyddo, gan ddefnyddio’r dull ôl-weithredol wedi’i addasu, gan addasu enillion agoriadol wedi’u cadw a pheidio ag ailddatgan ffurfiau cymharol. Mae hyn yn golygu cyfrifo’r rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a’r rhwymedigaeth lesoedd ar sail gwerth presennol taliadau’r les sy’n weddill ar bob contract les perthnasol ar y dyddiad trosglwyddo, wedi’i ddisgowntio’n unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi. Roedd y rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a’r rhwymedigaeth lesoedd wedi cynyddu £51,563k ar 1 Ebrill 2019, gan addasu ar gyfer balans TAW nad oes modd ei adennill. Nid oes effaith ar enillion wedi’u cadw ar 1 Ebrill 2019.

Cyn y cyfnod trosglwyddo, roedd yn bosib y byddai’r gyfradd ddisgownt, adnewyddu a newidiadau i’r portffolio lesoedd i gyd yn newid mewn cyfnodau yn y dyfodol, felly nid yw’r addasiad trosglwyddo go iawn wedi arwain at newid sylweddol i’r datgeliad meintoli a amcangyfrifwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Wrth ddefnyddio IFRS 16 am y tro cyntaf, mae Ofcom wedi defnyddio’r dulliau ymarferol canlynol a ganiateir gan y safon:

- Mae Ofcom wedi coladu’r wybodaeth am y les weithredol er mwyn asesu’r addasiad cronnus wedi’i ddiweddaru wrth drosglwyddo, ac wedi dewis peidio â defnyddio IFRS 16 gyda chontractau nad ydynt yn cynnwys les o dan IAS 17 ac IFRIC 4 Pennu a yw Cytundeb yn cynnwys Les.
- Defnyddio un gyfradd ddisgownt gyda phortffolio o lesoedd sydd â nodweddion gweddol debyg.
- Cyfrifyddu lesoedd gweithredol sydd â llai na 12 mis ar ôl yn nhymor y les ar 1 Ebrill 2019 fel lesoedd tymor byr.
- Cyfrifyddu lesoedd gweithredol lle mae gwerth yr ased sylfaenol yn isel.
- Eithrio costau uniongyrchol cychwynnol ar gyfer mesur yr asedau hawl i ddefnyddio ar y dyddiad dechrau defnyddio. Ar y dyddiad hwn, mae Ofcom hefyd wedi dewis mesur yr ased hawl i ddefnyddio ar sail swm sy’n hafal i’r rhwymedigaeth lesoedd a addaswyd ar gyfer unrhyw daliadau ymlaen llaw neu daliadau cronedig ar gyfer les, a oedd yn bodoli ar y dyddiad trosglwyddo.
- Defnyddio ôl-ddoethineb wrth bennu cyfnod y les pan fydd y contract yn cynnwys dewisiadau i ymestyn y les neu i ddod â hi i ben.

Mae'r canlynol yn cysoni cyfanswm yr ymrwymiadau lesoedd gweithredol ar 31 Mawrth 2019 (fel y datgelir yn y datganiadau ariannol hyd 31 Mawrth 2019) â'r rhwymedigaethau lesoedd a gydnabuwyd ar 1 Ebrill 2019:

| | **£'000** |
|---|---|
| Ymrwymiadau lesoedd gweithredol a ddatgelwyd ar 31 Mawrth 2019 | 68,320 |
| Wedi'u disgowntio gan ddefnyddio cyfradd Trysorlys EM o 1.99% | (6,898) |
| (Llai): lesoedd tymor byr a gydnabyddir ar sail llinell syth fel gwariant | (49) |
| (Llai): lesoedd sy'n isel eu gwerth a gydnabyddir ar sail llinell syth fel gwariant | (25) |
| (Llai): contractau wedi'u hailasesu fel cytundebau gwasanaeth | - |
| (Ychwanegu): addasiadau oherwydd bod opsiynau ymestyn a therfynu wedi cael eu trin yn wahanol | (9,785) |
| Ychwanegu/(Llai): addasiadau sy'n ymwneud â newidiadau yn y mynegai neu'r gyfradd sy'n effeithio ar daliadau amrywiol | - |
| **Rhwymedigaethau lesoedd a gydnabuwyd ar 1 Ebrill 2019** | **51,563** |

Nid oes safon, diwygiad na dehongliad newydd arall i safon gyfredol wedi cael eu cyhoeddi, sy'n effeithio ar ddatganiadau ariannol Ofcom sy'n berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

## b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y taliadau sydd wedi'u derbyn neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgareddau arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau. Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy, a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i'r endid yn y dyfodol.

Mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid: yn cynnwys model pum cam ar gyfer cydnabod incwm sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Yr egwyddor graidd oedd cydnabod incwm er mwyn iddo ddangos trosglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu haddo i gwsmeriaid mewn swm a oedd yn adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r endid yn disgwyl cael hawl iddo yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Roedd Ofcom wedi ystyried y broses pum cam ac wedi penderfynu peidio â newid y ffordd mae incwm yn cael ei gydnabod:

- Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Ofcom gydbwyso ei wariant gyda'i incwm. Mae'r statud yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm o bob un o'r sectorau mae'n eu rheoleiddio er mwyn talu am y costau a gaiff Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw ynghyd â chyfran briodol o 'gostau cyffredin' Ofcom ar gyfer pob un o'r sectorau hynny. Felly, mae Deddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofcom i adennill ei gostau gan drydydd partïon.
- Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn ymwneud â'r gwaith sylfaenol a wneir gan Ofcom fel rheoleiddiwr y sector Cyfathrebiadau, ac fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol a gyhoeddir.
- Caiff y ffioedd eu cyfrifo ar sail adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofcom ac wedi'u haddasu ar gyfer adennill gormod neu ddim digon yn y flwyddyn flaenorol. Bydd yr holl ffioedd yn cael eu cyhoeddi yn y Tablau Tariff ar gyfer pob blwyddyn ariannol.
- Caiff costau eu dyrannu i drydydd partïon yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Mae hyn yn sicrhau bod y taliadau'n adlewyrchu'r costau a ddyrennir i'r sector priodol ac yn unol â throsiant perthnasol.

- Caiff incwm ei gydnabod yn y flwyddyn y ceir y rhwymedigaeth perfformiad (cost). Bydd adennill gormod neu ddim digon o incwm yn cael ei gronni neu ei ohirio a bydd taliadau yn y dyfodol yn cael eu haddasu yn unol â hynny.
- Mae incwm hefyd yn cael ei gydnabod ar gyfer y costau hynny lle nad oes modd codi ffioedd na thaliadau ar randdeiliaid, yn bennaf am gost rheoli sbectrwm drwy gadw ffioedd trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn unol ag adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad o Egwyddorion Cyllido.

### Cymorth Grant DCMS

Darperir cymorth grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ariannu rhaglen clirio'r band 700MHz. Mae'r rhaglen hon yn goruchwylio'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posib). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EM.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl i amodau'r grant gael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

### Cadw Derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA)

Telir ffioedd i Ofcom mewn perthynas â'n swyddogaeth rheoli sbectrwm. Yn dilyn gweithredu Deddf yr Economi Ddigidol 2017, caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall. Pennir y swm misol a gedwir gan y gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y swyddogaethau hyn. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus, a bydd y swm a gedwir ar gyfer y mis canlynol yn cael ei addasu os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill.

### Incwm rhanddeiliaid

#### Ffioedd gweinyddu gwasanaethau post, rhwydweithiau a gwasanaethau

Caiff y ffioedd hyn eu codi ar randdeiliaid yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau post sy'n gweithredu o dan gyfundrefn heb drwydded, ond sy'n dod o dan bwerau rheoleiddio Ofcom. Mae'r costau hyn yn gyfuniad o wariant a gynlluniwyd ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol, ac addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Cyfrifir yr incwm hwn ar sail gronnus. Ar ôl penderfynu'n derfynol ar y costau ar ddiwedd y flwyddyn, bydd incwm sy'n fwy na'r arian sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Yn groes i hynny, os bydd yr arian sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

#### Cadwyn atal

Ym mis Hydref 2018, dyfarnwyd grant i ni gan Innovate UK, rhan o UK Research and Innovation, corff cyhoeddus anadrannol a ariennir gan Lywodraeth y DU. Dyfarnwyd y grant o dan Gronfa Arloesi'r Rheoleiddiwr, a sefydlwyd ar gyfer rheoleiddwyr yn y DU i helpu i sbarduno arloesedd yn y sector cyhoeddus. Roedd ein prosiect yn seiliedig ar ddefnyddio technoleg cadwyn atal i wella'r rheolaeth ar rifau ffôn y DU, a rheoli hunaniaeth ddigidol. Mae swm y dyfarniad yn amodol ar arian cyfatebol (Ofcom 25%, grant 75%) a chafodd ei ymestyn ym mis Awst 2019. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus a chaiff ei addasu yn y flwyddyn ariannol ganlynol os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill.

#### Ffioedd trwyddedau darlledu

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebir i ddeiliaid trwyddedau darlledu ar gyfer ein gwaith rheoleiddio arfaethedig, gan gynnwys unrhyw addasiadau i'r flwyddyn

flaenorol. Cyfrifir yr incwm hwn ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n fwy na'r arian sydd wedi'i wario yn y sector darlledu ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Os bydd yr arian sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

### Ffioedd ymgeisio

Am resymau ymarferol, rydym yn codi ffioedd penodedig ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio ar wahân sydd o dan reolaeth rhanddeiliaid unigol (er enghraifft, cais am drwydded darlledu), neu lle nad yw'r trosiant perthnasol yn sail briodol ar gyfer codi ffi (er enghraifft, radio cymunedol). Ni ellir ad-dalu'r ffioedd hyn, ac felly fe'u cofnodir fel refeniw adeg derbyn cais y rhanddeiliad. Fodd bynnag, os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, caiff hynny ei wrthbwyso yn erbyn cyfanswm costau'r sector yn y flwyddyn ganlynol. Er enghraifft, os yw cyfanswm y gwariant ar gyfer ceisiadau radio yn fwy na'r refeniw o'r ceisiadau, bydd yr incwm annigonol sydd wedi'i adennill yn cael ei gynnwys yng nghyfanswm y costau rheoleiddio radio sydd i'w hadennill gan dalwyr ffi'r drwydded radio.

### Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau

Mae incwm gan randdeiliaid systemau Gwybodaeth a Rhwydweithiau (NIS) yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus gan weithredwyr dynodedig gwasanaethau hanfodol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio. Cyfrifir yr incwm hwn ar sail gronnus. Yn unol â rheoliadau NIS, mae'r incwm hwn yn cael ei adennill mewn ôl-daliadau; felly bydd yr arian sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm cronedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### Incwm arall

Cyfrifir incwm anstatudol ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

### c) MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, mae'r symiau mae Gweinidogion yr Alban yn eu talu i Ofcom yn cael eu talu wedyn gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg a reolir gan MG Alba. O ganlyniad, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom.

### d) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau. Cesglir yr incwm o bum prif ffynhonnell:

- Ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr
- Ffioedd sbectrwm Adran Llywodraeth
- Cosbau Ariannol
- Taliadau Ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- Rhifau daearyddol

Cafodd yr incwm a gasglwyd (ac eithrio'r incwm a gadwyd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017) ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél – Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol 1991, Rhifau 998, 1710 ac 1709 y naill a'r llall, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Mae Ofcom yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron Senedd y DU.

Felly, ni wneir unrhyw dderbyniadau, taliadau nac eitemau Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn Natganiadau Ariannol Ofcom o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, onid yw'r taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol. Er enghraifft, mae caledwedd cyfrifiadurol sefydlog fel gweinyddion, muriau cadarn a switshis rhwydwaith a ddefnyddir mewn swyddfeydd yn cael eu cyfalafu. Ond mae offer TG isel ei werth, byr ei oes y gellir ei symud yn costio llawer, gan nad oes gan Ofcom reolaeth dros yr amgylchedd ffisegol na'r ffordd y gwneir defnydd ohono.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Prydles | Cyfnod y brydles |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei ddyrannu i'r Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli'r costau a wynebwyd yn datblygu asedau diriaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u dibrisio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod o dan 'Colled/(Elw) wrth waredu asedau anghyfredol' yn y nodyn 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr.

## f) Rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesoedd

Fel y disgrifir yn Nodyn 1, mae Ofcom wedi rhoi IFRS 16 ar waith gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu, ac felly nid oes gwybodaeth gymharol wedi cael ei hailddatgan. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth gymharol yn dal i gael ei chofnodi o dan IAS 17 ac IFRIC 4.

Ar gyfer unrhyw gontractau newydd a wnaed ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny, mae Ofcom yn ystyried a yw contract yn les, neu'n cynnwys les. Diffinnir les fel contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod yn gyfnewid am dâl cydnabyddiaeth. I gymhwyso'r diffiniad hwn, mae Ofcom yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri gwerthusiad allweddol, sef:

- a yw'r contract yn cynnwys ased dynodedig, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu wedi'i nodi'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg y daw'r ased ar gael i Ofcom.
- a oes gan Ofcom yr hawl i gael yr holl fanteision economaidd o ddefnyddio'r ased dynodedig drwy gydol y cyfnod defnyddio, wrth ystyried ei hawliau o fewn cwmpas diffiniedig y contract.
- a oes gan Ofcom yr hawl i fynnu sut mae'r ased dynodedig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio. Mae Ofcom yn asesu a oes ganddo'r hawl i fynnu 'sut ac at ba ddiben' y mae'r ased yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio.

Ar ddyddiad cychwyn y les, mae Ofcom yn cydnabod y rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a'r rhwymedigaeth lesoedd, heb gynnwys TAW, ar y fantolen. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur ar sail cost, sy'n cynnwys mesur cychwynnol o'r rhwymedigaeth lesoedd, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y les, ac unrhyw daliadau les a wnaed cyn dyddiad dechrau'r les (heb gynnwys unrhyw gymelliadau a gafwyd) hyd at ddiwedd neu estyniad y les, pa un bynnag sydd hwyraf, neu hyd at derfyniad y les os yw'n berthnasol.

Mae Ofcom yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnyddio ar sail llinell syth ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau o'r mis y mae ased yn cael ei roi ar waith, hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y les – pa un bynnag yw'r cynharaf. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Mae Ofcom hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnyddio am amhariad pan fydd dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Y trothwy cyfalafu isaf yw £2,500 a chofnodir asedau hawl i ddefnyddio ar sail cyfanswm costau'r contract ar brydles, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Mae trothwyon cyfalafu'n cael eu defnyddio ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, caiff swm cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio ei addasu yn ôl yr un swm â'r addasiad i werth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd. Nid oes elw na cholled yn syth, ond bydd y llifoedd arian diwygiedig yn effeithio ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr dros weddill cyfnod y les. Mae eithriadau i'r egwyddor hon: pan fydd gostyngiad yng ngwerth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd yn fwy na gwerth cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio perthnasol ar adeg yr ailfesur – os felly caiff yr ased ei ostwng i ddim, a bydd y swm dros ben yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr – ac mewn sawl achos lle mae addasiad i les yn lleihau cwmpas les bresennol. Bydd ailbrisiadau o asedau hawl i ddefnyddio, os oes rhai, yn cael eu cydnabod yn y gronfa ailbrisio.

Mae Ofcom yn mesur y rhwymedigaeth lesoedd ar werth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'i disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd yn y les os yw'r gyfradd honno ar gael yn hwylus, neu'n unol â chyfradd Trysorlys EM o 1.27% ar gyfer blwyddyn galendr 2020 ( 1.99% ar gyfer blwyddyn galendr 2019).

Mae taliadau lesoedd a gynhwysir wrth fesur y rhwymedigaeth lesoedd yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys rhai sefydlog yn y bôn) ac, os oes rhai, y taliadau amrywiol ar sail mynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n eithaf sicr o gael eu harfer.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei lleihau ar gyfer taliadau a wneir a'i gynyddu ar gyfer llog. Caiff ei ailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog yn y bôn. Pan gaiff y rhwymedigaeth lesoedd ei hailfesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnyddio, neu'r Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr os yw'r ased hawl i ddefnyddio eisoes wedi'i leihau i sero.

Mae Ofcom wedi dewis rhoi cyfrif am lesoedd tymor byr ac am lesoedd asedau isel eu gwerth gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn hytrach na chydnabod rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesoedd, mae'r taliadau mewn perthynas â'r rhain yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

## g) Asedau anniriaethol

Ar ôl ei gydnabod i gychwyn, mae ased anniriaethol yn cael ei gario ar ei union gost llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad sydd wedi cronni yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd, ffioedd trwyddedau cysylltiedig, a'r dechnoleg gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu ein systemau craidd. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os caiff ased ei greu y gellir ei ddynodi. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff costau datblygu eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff amorteiddiad ar asedau anniriaethol a gyfalafwyd ei gofnodi ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis pan fydd ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o 3 i 5 mlynedd. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae systemau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu meddalwedd a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u hamorteiddio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod o dan 'Colled/(Elw) wrth waredu asedau anghyfredol' yn y nodyn 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr.

## h) Amhariad ar Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth cario ymlaen asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth cario ymlaen yr asedau, yn unol ag IAS 36 Amhariad ar Asedau.

Caiff swm cario ymlaen ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adenilladwy os yw swm cario ymlaen yr ased yn fwy na'r amcangyfrif o'r swm adenilladwy.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad o Incwm

Net Cynhwysfawr a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

## i) Offerynnau Ariannol

### Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

Symiau masnach derbyniadwy yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill, a chânt eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg llai unrhyw ddiddymu ar gyfer amhariad. Mae enillion a cholledion ar fesur dilynol yn cael eu cydnabod fel gwerth teg yn llwyr yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr.

Mae rhagdaliadau'n daliadau sydd wedi cael eu gwneud, ond y buddion ohonynt heb gael eu defnyddio.

Incwm cronedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm

### Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

### Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill

Ystyr symiau masnach taladwy yw dyletswyddau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill, ac maent yn cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg.

Mae symiau taladwy eraill yn cynrychioli arian sy'n ddyledus i drydydd partïon ar y dyddiad adrodd.

Incwm gohiriedig - gweler Nodyn 1(b) cydnabod Incwm.

### Risgiau Ariannol a Amhariad ar Offerynnau Ariannol

Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg o'i gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi gwargedion o gronfeydd. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid yw mabwysiadu IFRS 9 Offerynnau Ariannol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ganlyniadau Ofcom. Nid oes gan symiau masnach derbyniadwy nac asedau contract Ofcom unrhyw elfen gyllido sylweddol, ac nid ydynt yn agored chwaith i risgiau credyd, oherwydd os na fydd digon o ffioedd rhanddeiliaid wedi cael eu hadennill mewn blwyddyn, byddant yn cael eu hadennill drwy dariffau'r blynyddoedd dilynol. Mae Ofcom wedi asesu'r lwfans colledion ar gydnabyddiaeth gychwynnol yn unol â swm sy'n cyfateb i'r colledion credyd hyd oes a ddisgwylir, ac roedd y canlyniad yn amherthnasol. Felly, er mwyn sicrhau bod hyn yn aros yr un fath drwy gydol oes y swm derbyniadwy, mae Ofcom yn parhau i werthuso cadernid ei reolaeth credyd fisol a'i amhariad ar asedau ariannol, os o gwbl, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

## j) Buddion gweithwyr

### Pensiynau

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

### Cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod o dan gostau staff fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr fel y'u hwynebwyd. Gall staff newydd ymuno â'r cynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

### Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio, lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddynt yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi'i ennill tra oeddent yn aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod o dan (gwariant)/incwm cynhwysfawr arall yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr yn llawn yn y cyfnod y byddant yn codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, yn cael eu cydnabod o dan (gwariant)/incwm cynhwysfawr yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o reoleiddiwr blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol ers 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae hwn yn gynllun ar gyfer sawl cyflogwr, a'r cyflogwyr sy'n cyfrannu yw Ofcom, ASA ac S4C. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged ar y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

### Cynlluniau heb eu cyllido

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 Buddion Gweithwyr drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

### Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr

Dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted ag y cyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos. Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflogau, ei gynnwys fel rhan o groniadau. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

## k) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a darpariaethau cyfreithiol eu cydnabod:

Pan fydd y pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar hen delerau ac amodau cyflogaeth y Gwasanaeth Sifil yn cael ei ddarparu o'r dyddiad ymddeol yn gynnar tan yr oed ymddeol. Bydd y cydweithiwr yn cael taliad iawndal blynyddol sy'n hafal i'r pensiwn a gedwir, sy'n cael ei dalu drwy randaliadau misol mewn ôl-daliadau fel pensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

Mae gan Ofcom rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ar gyfer amcangyfrif o iawndal a chostau cyfreithiol trydydd parti mewn perthynas â heriau yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom pan bernir ei bod yn debygol y bydd yn rhaid talu'r rhain; mae'n debygol y bydd angen rhoi adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac roedd modd llunio amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried y dosbarth rhwymedigaethau yn ei gyfanrwydd. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif yng nghyswllt unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

## l) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n bunnoedd yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd, a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

## m) Y dreth gyfredol

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu.  O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir ganddo fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Mae modd asesu Treth Gorfforaeth ar y llog sy'n cael ei dderbyn, ac o ran incwm rhent.

## n) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgareddau mewn segment daearyddol na segment busnes, gan y cynhelir holl weithgareddau Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

## o) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r meysydd y rhoddir barn arnynt sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Darpariaethau cyfreithiol – polisi cyfrifyddu (k)
- Cydnabod incwm ac asesu incwm heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)

Dyma'r ffynonellau lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i symiau cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (j)
- Penderfyniad ynghylch a yw contract yn cynnwys les (f)
- Cyfrifo'r lwfans colledion credyd a ddisgwylir mewn perthynas â symiau derbyniadwy (i)

## 2. Dadansoddiad Sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt. Paratoir hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt Segmentau Gweithredu IFRS 8, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (n).

| | Rheoli sbectrwm | Clirio sbectrwm | Ffeilio lloerennau | Cyfreitha Trydydd Parti | Gwybodaeth a gwasanaethau rhwydwaith | Rhwydweithiau a gwasanaethau | Darlledu | Rheoleiddio post | Gweithgareddau rheoleiddio eraill | Cyfanswm 2019/20 | Cyfanswm 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Incwm** | | | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedau, rheoleiddio a gweinyddu | - | - | - | - | - | 49,327 | 22,633 | 4,284 | - | 76,244 | 72,772 |
| Ffioedd ymgeisio | - | - | - | - | - | 370 | 214 | - | - | 584 | 437 |
| Cymorth Grant (GIA) | - | 79,241 | - | 230,826 | - | - | - | - | - | 310,067 | 72,245 |
| Derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw | 52,481 | - | - | 1,146 | - | - | - | - | 1,298 | 54,925 | 54,156 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | 437 | (2,590) | 930 | 561 | 93 | (9,210) | 1,303 | 911 | (1,079) | (8,644) | (3,307) |
| **Incwm gweithredu** | **52,918** | **76,651** | **930** | **232,533** | **93** | **40,487** | **24,150** | **5,195** | **219** | **433,176** | **196,303** |
| Incwm arall | 364 | - | 6 | - | - | 279 | 166 | 36 | 2 | 853 | 296 |
| Llog sydd i'w dderbyn | 63 | - | 1 | - | - | 48 | 31 | 6 | - | 149 | 136 |
| **Cyfanswm incwm** | **53,345** | **76,651** | **937** | **232,533** | **93** | **40,814** | **24,347** | **5,237** | **221** | **434,178** | **196,735** |
| Incwm rhent cronedig | 1 | - | - | - | - | 1 | - | - | - | 2 | 12 |
| **Incwm ariannol** | **53,346** | **76,651** | **937** | **232,533** | **93** | **40,815** | **24,347** | **5,237** | **221** | **434,180** | **196,747** |
| Addasiadau i'r gwariant gweithredu | (428) | - | (7) | - | - | (328) | (197) | (42) | (2) | (1,004) | (444) |
| Costau eraill | (52,918) | (76,651) | (930) | (561) | (93) | (40,487) | (24,150) | (5,195) | (219) | (201,204) | (196,303) |
| **Gwariant gweithredu - arian parod** | **(53,346)** | **(76,651)** | **(937)** | **(561)** | **(93)** | **(40,815)** | **(24,347)** | **(5,237)** | **(221)** | **(202,208)** | **(196,747)** |
| Setliad cyfreithiol | - | - | - | (231,972) | - | - | - | - | - | (231,972) | - |
| **Cyfanswm** | **(53,346)** | **(76,651)** | **(937)** | **(232,533)** | **(93)** | **(40,815)** | **(24,347)** | **(5,237)** | **(221)** | **(434,180)** | **(196,747)** |
| **Gwarged ar sail costau ariannol** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | **(53,346)** | **(76,651)** | **(937)** | **(561)** | **(93)** | **(40,815)** | **(24,347)** | **(5,237)** | **(221)** | **(202,208)** | |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | (54,275) | (72,452) | - | - | - | (37,850) | (25,175) | (4,506) | (2,489) | (196,747) | |

Mae gweithgareddau rheoleiddio eraill yn cynnwys:

- gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch profion lles y cyhoedd, galwadau niwsans a diogelu defnyddwyr; a derbyniadau WTA i dalu am y categorïau cost hyn;
- gwariant yng nghyswllt dyletswyddau sy'n ymwneud â gwella rheoli rhifau ffôn y DU, a ariennir gan grant gan UK Research and Innovation;
- incwm dyfarnwyr;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant parthed sbectrwm; ac
- incwm rhent o is-osod gofod eiddo dros ben mewn adeiladau.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, mae cymorth grant a derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu dyrannu a'u cyfateb i gostau yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff y tabl ar dudalen 127 ei baratoi ar sail arian wedi'i addasu (adjusted cash basis), sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad.

Mae ffioedd trwyddedau a gweinyddol Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian.  Pan fydd mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol, fel arall, pan fydd mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, bydd y diffyg yn cael ei gasglu gan y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

Mae darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau i reoleiddio'r BBC.

## Cysoni'r gwariant gweithredu â'r alldro costau gweithredu terfynol

| | Nodiadau | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredu - Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr** | | **206,831** | **426,768** |
| Addasiadau o ran rhwymedigaethau ac asedau pensiwn | | (131) | (790) |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant ac amorteiddiad | 8,10 | (1,417) | 2,859 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | (4,775) | - |
| Taliadau lesoedd | 16 | 4,893 | - |
| Addasiad dim rhent | | 79 | 25 |
| Addasiadau eraill | | (3,272) | (232,115) |
| **Gwariant gweithredu - arian parod** | - | **202,208** | **196,747** |
| Clirio sbectrwm | 4,6 | (76,651) | (72,452) |
| Cyfreitha trydydd parti - WTA | | (561) | - |
| Incwm Anweithredol | | (1,004) | (444) |
| **Alldro costau gweithredu terfynol** | | **123,992** | **123,851** |

Mae'r cynnydd mewn incwm anweithredol yn cael ei wthio gan weithgarwch atal cadwyn o'i gymharu â 18/19, ond mae'r addasiadau eraill yn adlewyrchu'r symudiad yn ystod y flwyddyn o faterion nad ydynt yn ymwneud ag arian, fel darpariaethau a thal gwyliau.

## 3. Incwm

| | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfreitha trydydd parti | Cyfanswm 2019/20 | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfreitha trydydd parti | Cyfanswm 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cymorth Grant DCMS** | | | | | | | | |
| Clirio sbectrwm | - | 76,651 | - | 76,651 | - | 72,452 | - | 72,452 |
| Cyllid setliad cyfreithiol | - | - | 230,826 | 230,826 | - | - | - | - |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **-** | **76,651** | **230,826** | **307,477** | **-** | **72,452** | **-** | **72,452** |
| **Derbyniadau WTA Sydd Wedi'u Cadw** | | | | | | | | |
| Rheoli sbectrwm | 52,918 | - | - | 52,918 | 54,082 | - | - | 54,082 |
| Gorfodi'r gyfraith cystadleuaeth | - | - | - | - | 1,774 | - | - | 1,774 |
| Galwadau niwsans | - | - | - | - | 212 | - | - | 212 |
| Diogelu defnyddwyr | 95 | - | - | 95 | 28 | - | - | 28 |
| Prawf lles y cyhoedd | 124 | - | - | 124 | 102 | - | - | 102 |
| Ffeilio lloerennau | 930 | - | - | 930 | - | - | - | - |
| Cyllid setliad cyfreithiol | - | - | 1,707 | 1,707 | - | - | - | - |
| **Cyfanswm derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw** | **54,067** | **-** | **1,707** | **55,774** | **56,198** | **-** | **-** | **56,198** |
| **Incwm rhanddeiliaid** | | | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | 40,487 | - | - | 40,487 | 37,715 | - | - | 37,715 |
| Cadwyn atal | 651 | - | - | 651 | 211 | - | - | 211 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 24,150 | - | - | 24,150 | 25,084 | - | - | 25,084 |
| Rheoleiddio gwasanaethau post | 5,195 | - | - | 5,195 | 4,490 | - | - | 4,490 |
| Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau | 93 | - | - | 93 | - | - | - | - |
| Incwm arall | 351 | - | - | 351 | 585 | - | - | 585 |
| **Cyfanswm incwm rhanddeiliaid** | **70,927** | **-** | **-** | **70,927** | **68,085** | **-** | **-** | **68,085** |
| **Cyfanswm incwm** | **124,994** | **76,651** | **232,533** | **434,178** | **124,283** | **72,452** | **-** | **196,735** |

Mae ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC. Mae incwm Clirio Sbectrwm wedi'i gyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd. Mae cyfanswm y cynnydd mewn incwm yn ganlyniad i gyllid Cymorth Grant a dderbyniwyd ar gyfer setliad cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r Ffi Trwydded Flynyddol.

## 4. Costau staff

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2019/20 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr oedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:** | | | | | | |
| Cyflogau a buddion | 64,163 | 397 | 64,560 | 61,047 | 421 | 61,468 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 7,556 | 42 | 7,598 | 7,280 | 45 | 7,325 |
| Costau pensiwn | 6,722 | 34 | 6,756 | 7,040 | 35 | 7,075 |
| Costau ailstrwythuro | 316 | - | 316 | 914 | - | 914 |
| **Cyfanswm costau staff** | **78,757** | **473** | **79,230** | **76,281** | **501** | **76,782** |

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2019/20 yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac yn cynnwys croniad ar gyfer y costau hynny nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn sy'n ymwneud â saith (2018/19: 13) o weithwyr.

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion gweithredol ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 95 i 101.

Nid oes costau gwasanaeth pensiwn ar gyfer cydraddoli Pensiwn Sylfaenol wedi'i Warantu (GMPs), a Gweithred Diwygio a gyflawnwyd mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2018/19: £675k). Mae rhagor o wybodaeth am y rhain yn Nodyn 20.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 31 (2018/19: 22) o weithwyr eu secondio i sefydliadau eraill, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 5. Nifer y gweithwyr

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| **Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)** | **937** | **902** |

Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan Ofcom 958 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) (2018/19: 901).

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

## 6. Gwariant gweithredu arall

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2019/20 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 83 | - | - | 83 | 76 | - | - | 76 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 14 | - | - | 14 | 13 | - | - | 13 |
| Ffioedd proffesiynol | 4,024 | 2,489 | - | 6,513 | 4,064 | 1,241 | - | 5,305 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 8,108 | - | - | 8,108 | 7,684 | - | - | 7,684 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 5,513 | - | - | 5,513 | 5,142 | - | - | 5,142 |
| Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 172 | - | - | 172 | 328 | - | - | 328 |
| Cynllun clirio sbectrwm | - | 73,679 | - | 73,679 | - | 70,691 | - | 70,691 |
| Staff dros dro a recriwtio | 3,076 | - | - | 3,076 | 2,321 | 6 | - | 2,327 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,465 | 7 | - | 1,472 | 1,311 | 9 | - | 1,320 |
| Costau eiddo | 4,320 | - | - | 4,320 | 9,859 | - | - | 9,859 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 7,183 | 1 | - | 7,184 | 7,044 | 4 | - | 7,048 |
| Elw ar waredu heblaw cyfalaf | - | - | - | - | (50) | - | - | (50) |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 6,484 | 2 | - | 6,486 | 5,035 | - | - | 5,035 |
| Cerbydau | 171 | - | - | 171 | 271 | - | - | 271 |
| Dyledion gwael ac amheus | 25 | - | - | 25 | (240) | - | - | (240) |
| Amorteiddiad | 265 | - | - | 265 | 636 | - | - | 636 |
| Dibrisiant | 2,115 | - | - | 2,115 | 2,448 | - | - | 2,448 |
| Dibrisiant asedau les ROU | 4,775 | - | - | 4,775 | - | - | - | - |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 97 | - | - | 97 | 93 | - | - | 93 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu arall** | **47,890** | **76,178** | **-** | **124,068** | **46,035** | **71,951** | **-** | **117,986** |

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i wariant gweithredu arall Ofcom, sy'n gostau craidd, er mwyn bod yn dryloyw a rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

### Cost gyfreithiol yn ystod y flwyddyn

| | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfreitha trydydd parti | Cyfanswm 2019/20 | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfreitha trydydd parti | Cyfanswm 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost gyfreithiol yn ystod y flwyddyn** | **-** | **-** | **3,533** | **3,533** | **-** | **-** | **232,000** | **232,000** |

## 7. Trethiant

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Cysoni'r tâl treth** | | |
| Gwarged/(Diffyg) cyn treth | 226,671 | (229,593) |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 20% (2018/19: 20%) | 45,334 | (45,919) |
| **Effaith treth:** | | |
| Incwm na thelir treth arno | (86,802) | (39,298) |
| Costau na thelir treth arnynt | 41,501 | 85,266 |
| Lleihad yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | (33) | (49) |
| **Costau treth** | **-** | - |

Ar y dyddiad adrodd, roedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol o £11,379k (2018/19: £11,542k). Nid oes unrhyw asedau treth gohiriedig cydnabyddedig yng nghyswllt y colledion hyn, gan nad yw'n debygol y bydd digon o incwm trethadwy'n codi y gellir defnyddio'r colledion yn eu herbyn.

## 8. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau lesddaliad | Gosodiadau a ffitiadau | Cyfarpar swyddfa a maes | Caledwedd cyfrifiadurol | Cerbydau modur | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **15,355** | **1,211** | **13,113** | **4,350** | **751** | **2,707** | **37,487** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 3,529 | 656 | 411 | 128 | 3 | 831 | 5,558 |
| Gwarediadau | (11,949) | (667) | (616) | (2,347) | (109) | - | (15,688) |
| Trosglwyddiadau | 2,130 | 398 | 1 | 3 | 91 | (2,623) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **9,065** | **1,598** | **12,909** | **2,134** | **736** | **915** | **27,357** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 270 | 94 | 76 | 123 | - | 332 | 895 |
| Gwarediadau | (1,174) | (33) | (701) | (698) | - | - | (2,606) |
| Trosglwyddiadau | - | 163 | 507 | 300 | - | (912) | 58 |
| **Cost ar 31 Mawrth 2020** | **8,161** | **1,822** | **12,791** | **1,859** | **736** | **335** | **25,704** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **12,957** | **684** | **10,285** | **3,690** | **347** | **-** | **27,963** |
| Tâl am y flwyddyn | 928 | 316 | 735 | 344 | 125 | - | 2,448 |
| Gwarediadau | (11,839) | (660) | (602) | (2,342) | (101) | - | (15,544) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **2,046** | **340** | **10,418** | **1,692** | **371** | **-** | **14,867** |
| Tâl am y flwyddyn | 675 | 230 | 671 | 425 | 114 | - | 2,115 |
| Gwarediadau | (1,171) | (29) | (694) | (696) | - | - | (2,590) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 20200** | **1,550** | **541** | **10,395** | **1,421** | **485** | **-** | **14,392** |
| **NBV 31 Mawrth 2020** | **6,611** | **1,281** | **2,396** | **438** | **251** | **335** | **11,312** |
| NBV 31 Mawrth 2019 | 7,019 | 1,258 | 2,491 | 442 | 365 | 915 | 12,490 |

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri asedau Ofcom o dan Cyfarpar Maes.

## 9. Asedau hawl i ddefnyddio

Mae Ofcom yn lesio asedau, gan gynnwys adeiladau, cerbydau a chyfarpar swyddfa. Cyflwynir isod wybodaeth am lesoedd y mae Ofcom yn lesddeiliad arnynt.

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **51,145** | **292** | **126** | **51,563** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 750 | - | 112 | 862 |
| **Cost ar 31 Mawrth 2020** | **51,895** | **292** | **238** | **52,425** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Tâl am y flwyddyn | 4,605 | 118 | 52 | 4,775 |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2020** | **4,605** | **118** | **52** | **4,775** |
| **NBV 31 Mawrth 2020** | **47,290** | **174** | **186** | **47,650** |
| NBV 31 Mawrth 2019 | - | - | - | - |

# 10. Asedau anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Systemau sy'n cael eu datblygu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **6,282** | **20,079** | **455** | **26,816** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 380 | 5 | - | 385 |
| Gwarediadau | (1,274) | (2,112) | - | (3,386) |
| Trosglwyddiadau | 63 | - | (63) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **5,451** | **17,972** | **392** | **23,815** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | - | 68 | 68 |
| Amhariad | - | - | (84) | (84) |
| Trosglwyddiadau | - | 1 | (59) | (58) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2020** | **5,451** | **17,973** | **317** | **23,741** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **5,977** | **19,622** | **-** | **25,599** |
| Tâl am y flwyddyn | 343 | 293 | - | 636 |
| Gwarediadau | (1,274) | (2,112) | - | (3,386) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **5,046** | **17,803** | **-** | **22,849** |
| Tâl am y flwyddyn | 147 | 118 | - | 265 |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2020** | **5,193** | **17,921** | **-** | **23,114** |
| **NBV 31 Mawrth 2020** | **258** | **52** | **317** | **627** |
| NBV 31 Mawrth 2019 | 405 | 169 | 392 | 966 |

## 11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | 1,783 | 2,122 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 2,646 | 590 |
| Rhagdaliadau | 6,062 | 6,317 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | 205 | 249 |
| Incwm cronedig | 2,695 | 3,463 |
| Incwm cronedig (Cymorth Grant) | 561 | 520 |
| Incwm cronedig (derbyniadau WTA) | 1,968 | 1,955 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol** | **15,920** | **15,216** |

Mae benthyciadau staff yn ymwneud â 112 (2018/19: 120) o fenthyciadau tocyn tymor i gydweithwyr i'w talu'n ôl dros 12 mis.

## 12. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm cronedig | 541 | 484 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol** | **541** | **484** |

## 13. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 13,827 | 7,685 |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **13,827** | **7,685** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau arian sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedau ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400. Mae'r symudiad mewn balansau arian yn bennaf oherwydd y grantiau sydd wedi cael eu talu mewn perthynas â chlirio'r sbectrwm 700MHz, a gafodd eu talu wedyn yn 2020/21.

## 14. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | 4,845 | 1,171 |
| Symiau taladwy eraill | 582 | 986 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | 268 | 106 |
| Croniadau | 9,765 | 10,416 |
| Croniad cymhellion prydles | - | 38 |
| Incwm gohiriedig | 9,215 | 8,847 |
| Incwm gohiriedig (Cymorth Grant) | 2,634 | 4 |
| Incwm gohiriedig (Derbyniadau WTA) | 1,119 | 16 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol** | **28,428** | **21,584** |

Targed y Llywodraeth ar gyfer talu i gyflenwyr yw pum diwrnod ar gyfer 80 y cant o anfonebau diamheuol. Yn ogystal â chyflenwyr bach a chanolig, mae Ofcom hefyd yn cynnwys cyflenwyr mawr yn y cynllun hwn er mwyn eu hannog i dalu'r busnesau bach sy'n eu cyflenwi nhw o fewn cyfnod llai.

O ran perfformiad Ofcom yng nghyswllt y targedau hyn yn 2019/20, llwyddwyd i gyrraedd 97.92 y cant ar gyfartaledd (2018/19: 96.97 y cant).

Mae'r symudiad mewn symiau masnach taladwy a chroniadau yn bennaf oherwydd y grantiau sydd wedi cael eu talu mewn perthynas â chlirio'r sbectrwm 700MHz, a gafodd eu talu wedyn yn 2020/21.

Mae symiau taladwy eraill yn cynnwys arian a dderbyniwyd gan y landlord parthed adnewyddu eiddo a chyfarpar y landlord.

## 15. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Croniad cymhellion prydles | - | 41 |
| Incwm gohiriedig | 1,290 | 959 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol** | **1,290** | **1,000** |

## 16. Rhwymedigaethau Lesoedd

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad aeddfedrwydd o'r rhwymedigaethau lesoedd ar sail llifoedd arian gros heb eu disgowntio:

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian contractiol: heb eu disgowntio** | | | | | |
| Llai na blwyddyn | 4,837 | 103 | 77 | 5,017 | - |
| Rhwng un a phum mlynedd | 19,828 | 80 | 118 | 20,026 | - |
| Mwy na phum mlynedd | 29,462 | - | - | 29,462 | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: heb eu disgowntio** | **54,127** | **183** | **195** | **54,505** | **-** |

Nid yw Ofcom yn wynebu risg sylweddol o ran hylifedd yng nghyswllt ei rwymedigaethau lesoedd.

| | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau a gydnabyddir yn y datganiad am y sefyllfa ariannol** | | |
| Rhwymedigaethau lesoedd: cyfredol | 4,052 | - |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 44,522 | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: wedi'u disgowntio** | **48,574** | **-** |

Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 1.27 y cant ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2020. Mae lesoedd sy'n newid i IFRS 16 cyn Ionawr 2020 ac yn ystod blwyddyn galendr 2019 yn cael eu disgowntio ar gyfradd ddisgownt y flwyddyn flaenorol, sef 1.99 y cant, yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi.

Yn gyffredinol, mae pob les yn gosod cyfyngiad – oni bai fod gan Ofcom hawl gontractiol isosod yr ased i barti arall, dim ond Ofcom all ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio. Ni ellir canslo lesoedd, neu ni ellir eu canslo heb dalu ffi terfynu sylweddol. Mae rhai lesoedd yn cynnwys opsiwn i brynu'r ased sylfaenol sy'n cael ei lesio ar ddiwedd y les, neu i ymestyn y les am gyfnod arall. Mae Ofcom wedi'i wahardd rhag gwerthu nac ymrwymo'r asedau sylfaenol sy'n cael eu lesio fel gwarant. O ran lesoedd adeiladau, rhaid i Ofcom gadw'r eiddo hwnnw mewn cyflwr da a dychwelyd yr eiddo yn ei gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y les. Ar ben hynny, rhaid i Ofcom yswirio asedau hawl i ddefnyddio a thalu ffioedd cynnal a chadw ar asedau o'r fath, yn unol â chontract y les.

| | **Ar 31 Mawrth 2020 £'000** | **Ar 31 Mawrth 2019 £'000** |
|---|---|---|
| **Y symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr** | | |
| Llog ar rwymedigaethau lesoedd (wedi'i gynnwys o dan gostau cyllid) | 1,042 | - |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd tymor byr (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 39 | - |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd asedau isel eu gwerth (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 22 | - |
| **Y symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad am y Llifoedd Arian Parod** | | |
| Cyfanswm y llif arian parod allan ar gyfer lesoedd | (4,893) | - |

## 17. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **213** | **-** | **213** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | (1) | - | (1) |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (30) | - | (30) |
| Darpariaeth wedi'i chynyddu | - | 232,000 | 232,000 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **182** | **232,000** | **232,182** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | 16 | - | 16 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (32) | (231,972) | (232,004) |
| Darpariaeth wedi'i chynyddu | - | 2,972 | 2,972 |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2020** | **166** | **3,000** | **3,166** |

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o pryd y disgwylir y llifoedd arian** | | | |
| **Cyfredol** | | | |
| Llai na blwyddyn | 14 | 3,000 | 3,014 |
| **Cyfanswm cyfredol** | **14** | **3,000** | **3,014** |
| **Anghyfredol** | | | |
| Rhwng un a phum mlynedd | 46 | - | 46 |
| Mwy na phum mlynedd | 106 | - | 106 |
| **Cyfanswm anghyfredol** | **152** | **-** | **152** |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2020** | **166** | **3,000** | **3,166** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £166k (2018/19: £182k) ar gyfer Taliadau Iawndal Blynyddol, sy'n rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

Cyfrifir y darpariaethau yn unol â gofynion IAS 37. Bydd disgownt o -0.50 y cant ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar (2018/19: 0.29 y cant) y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 1 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr o 0.51 y cant (2018/19: 0.76 y cant) ac ar gyfer darpariaethau â therfyn amser o 5 i 10 mlynedd, y gyfradd tymor canolig o 0.55 y cant (2018/19: 1.14 y cant).

Mae modd apelio yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom. Gallai apeliadau yn erbyn penderfyniadau Ofcom arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn y datganiadau ariannol am gostau i'r graddau eu bod yn debygol ac yn fesuradwy.

Yn dilyn canlyniad apêl y Ffi Trwydded Flynyddol ym mis Chwefror 2020, mae gan un trydydd parti apêl barhaus i'r Llys Apêl, gan geisio rhagor o log cosb ar swm ad-daliad gwreiddiol y Ffi Trwydded Blynyddol. Bydd hyn nawr yn mynd rhagddo (disgwylir ym mis Mehefin 2020), lle bydd yn ceisio llog ychwanegol yn ogystal â chostau.

## 18. Symiau derbyniadwy o dan lesoedd gweithredol

| | Ar 31 Mawrth 2020 Adeiladau | Ar 31 Mawrth 2019 Adeiladau |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Dyma'r taliadau les lleiaf sy'n dderbyniadwy yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredol na ellir eu canslo:** | | |
| Llai na blwyddyn | - | 9 |
| Rhwng un a phum mlynedd | - | - |
| Mwy na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy o dan lesoedd gweithredol** | **-** | **9** |

Mae gan gontractau is-les Ofcom, mewn perthynas â gofod swyddfa gwag mewn nifer o'i adeiladau swyddfa, opsiynau torri neu lesoedd sy'n dod i ben yn 2019/20.

## 19. MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £12,950k (2018/19: £13,355k) i Ofcom. Nid yw'r symiau wedi'u hadlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom, gan fod Ofcom wedyn yn eu talu i'r Gronfa Darlledu Gaeleg o dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi adroddiadau a datganiadau ariannol ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

## 20. Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

### a) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio - cynllun pensiwn cyfranddeiliaid

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £6,070k yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (2018/19: £5,732k). Mae adran cyfraniadau wedi'u diffinio hefyd yng Nghynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom.  Ond, mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

## b) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 oedd £5k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2018/19: £3k). Trosglwyddwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £360k o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (2018/19: £360k); a
- Chynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 oedd £10k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2018/19: £10k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £180k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (2018/19: £185k).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiadau ariannu o dan y Ddeddf Pensiynau, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2018 eu cwblhau ar gyfer y ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio ac, yn wahanol i IFRS, roeddent yn dangos gwarged cyfun o £5.3m.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun oherwydd y prisiadau hyn. Dan yr amserlenni presennol, byddai Ofcom yn disgwyl cyfrannu £540k i'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau. Mae'r cyfraniadau hyn i'w talu o'r Ymddiriedolaeth Bwydo. Mae Ofcom hefyd wedi cytuno i dalu ardollau eraill yn uniongyrchol. Talwyd £555k yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2020 (gan gynnwys y cyfraniad a dalwyd o'r Ymddiriedolaeth Bwydo).

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom ydy'r mecanwaith mae Ofcom yn ei ddefnyddio i roi cronfeydd o'r neilltu er mwyn gwneud cyfraniadau yn y dyfodol ac i dalu am gostau rhedeg ei ddau gynllun pensiwn buddion diffiniedig, Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom a Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt).

Mae cronfeydd sy'n cael eu trosglwyddo i Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn ariannol pan gaiff y trosglwyddiad ei wneud ond wedyn mae modd defnyddio'r cronfeydd hyn mewn cyfnodau sydd i ddod. Fydd dim ond modd defnyddio'r arian sy'n cael ei gadw yn y Cyfrif Bwydo er mwyn talu am y cynlluniau pensiwn yn unol â'r atodlen gyfraniadau ar gyfer pob Cynllun neu drwy daliad ad hoc a fydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom mewn perthynas â phrosiect penodol (fel ymarfer i leihau risg) yn ogystal ag i dalu am gostau rhedeg y cynlluniau.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, cyfrannodd Ofcom £540k at yr Ymddiriedolaeth Bwydo (2018/19: £540k). Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2020 oedd £8,389k (2018/19: £8,345k).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

## Cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi'u Gwarantu

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Lloyds Bank ar 26 Hydref 2018, a ddyfarnodd ei bod yn rhaid i gynlluniau addasu buddion er mwyn cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi'u Gwarantu (GMPs) rhwng dynion a menywod, roedd Ofcom wedi gwneud lwfans ar gyfer effaith bosibl hyn ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Cafodd hyn ei ganiatáu ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr. Roedd lwfans o £284k wedi cael ei wneud mewn perthynas â (Hen Gynllun ITC) Ofcom, ac roedd lwfans o £14k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom.

Darparwyd ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol ychwanegol o £377k yn y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio. Mae hyn o ganlyniad i Weithred Diwygio a gafodd ei gweithredu mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 28 Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn i reolau, roedd yn rhaid ailgyfrifo buddion rhai aelodau pensiynwyr, a oedd wedi arwain at gynnydd yn eu buddion.

Ni fyddwn yn gwybod faint mae cydraddoli pensiynau sylfaenol wedi'u gwarantu yr aelodau yn ei gostio i gyd nes byddant wedi cael eu cydraddoli'n llawn (ac mae'n siŵr na fydd hynny'n digwydd am flynyddoedd lawer).

## Newidiadau posib i'r Mynegai Prisiau Manwerthu

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) wedi dweud ei fod yn bwriadu newid y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), erbyn 2030 fan hwyraf, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r CPIH (y Mynegai Prisiau Manwerthu gan gynnwys costau tai perchnogion-feddianwyr). Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater eleni, a'r dyddiad cynharaf y bydd unrhyw newid yn dod i rym yw 2025. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn, cafodd tarddiad rhagdybiaethau RPI a CPI eu hadolygu ar 31 Mawrth 2020. Mae Ofcom wedi penderfynu bod cromlin chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), sy'n seiliedig ar y farchnad, yn parhau i fod yn sail resymol ar gyfer amcangyfrif cynnydd tymor hir mewn pensiynau sy'n gysylltiedig ag RPI yn y dyfodol, gan gynnwys y newidiadau posibl yn RPI i CPIH (y Mynegai Prisiau Manwerthu gan gynnwys costau tai perchnogion-feddianwyr), ac mae deillio tybiaethau chwyddiant RPI ar 31 Mawrth 2020 wedi aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol. I darddu'r dybiaeth CPI, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn briodol lleihau'r gwahaniaeth tybiedig rhwng RPI a CPI (a elwir yn "lletem RPI-CPI") 0.15% i 0.85% ar 31 Mawrth 2020, gan ystyried nodweddion a phroffiliau aelodaeth y cynlluniau DB.

Bydd y rhagdybiaethau chwyddiant yn cael eu hadolygu ar ôl i'r Llywodraeth ddarparu mwy o wybodaeth y flwyddyn nesaf fel rhan o'r ymgynghoriad.

# Crynodeb o rwymedigaethau pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio Ofcom

## Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedig-aethau pensiwn na chânt eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedig-aethau pensiwn na chânt eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2020** | **31 Mawrth 2020** | **31 Mawrth 2020** | **31 Mawrth 2019** | **31 Mawrth 2019** | **31 Mawrth 2019** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Statws ariannu, diwedd y flwyddyn | | | | | | |
| - Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiriedig | (67,572) | - | (67,572) | (77,115) | - | (77,115) |
| - Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr | (169,804) | (1,085) | (170,889) | (190,080) | (1,211) | (191,291) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau buddion** | **(237,376)** | **(1,085)** | **(238,461)** | **(267,195)** | **(1,211)** | **(268,406)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 259,802 | - | 259,802 | 284,886 | - | 284,886 |
| **Statws ariannu** | **22,426** | **(1,085)** | **21,341** | **17,691** | **(1,211)** | **16,480** |

Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd ar gael i Ofcom yn sgil hynny. Priodolir yr holl warged i'r Cynllun Buddion wedi'u Diffinio a'r Cyfrif Bwydo y mae iddo werth economaidd, gan fod modd i Ofcom ei adfer.

## Covid-19

Mae Covid-19 wedi arwain at sefyllfa anwadal iawn yn y farchnad sy'n effeithio ar werthoedd asedau a chynnyrch y farchnad, sydd yn ei dro wedi effeithio ar y pensiynau yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Yn benodol, ar gyfer Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom, mae anghysondeb rhwng y newid mewn rhwymedigaethau oherwydd newidiadau yng nghyfradd disgownt bondiau corfforaethol IAS19, a symudiad asedau'r cynlluniau dros y flwyddyn.  Ysgogwyd hyn yn bennaf gan y cynnydd mewn lledaeniad credyd ar fondiau corfforaethol.

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020

| | Rhwymedig-aethau o ran buddion wedi'u diffinio | Asedau | Cynllun pensiwn a ariennir | Pensiynau na chânt eu hariannu | Cyfanswm pensiwn |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2019** | **(267,195)** | **284,886** | **17,691** | **(1,211)** | **16,480** |
| **Costau gweinyddu** | **-** | **(686)** | **(686)** | **-** | **(686)** |
| **Cost gwasanaeth** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(6,127)** | **6,536** | **409** | **(27)** | **382** |
| **Cyfraniadau cyflogwyr** | **-** | **555** | **555** | **-** | **555** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 13,012 | (13,012) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 76 | 76 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **13,012** | **(13,012)** | **-** | **76** | **76** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | **22,934** | **(18,477)** | **4,457** | **77** | **4,534** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2020** | **(237,376)** | **259,802** | **22,426** | **(1,085)** | **21,341** |

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019

| | Rhwymedig-aethau o ran buddion wedi'u diffinio | Asedau | Cynllun pensiwn a ariennir | Pensiynau na chânt eu hariannu | Cyfanswm pensiwn |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2018** | **(265,558)** | **283,727** | **18,169** | **(1,142)** | **17,027** |
| **Costau gweinyddu** | **-** | **(668)** | **(668)** | **-** | **(668)** |
| **Cost gwasanaeth** | **(675)** | **-** | **(675)** | **-** | **(675)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(6,628)** | **7,095** | **467** | **(28)** | **439** |
| **Cyfraniadau cyflogwyr** | **-** | **553** | **553** | **-** | **553** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 11,341 | (11,341) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **11,341** | **(11,341)** | **-** | **-** | **-** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | **(5,675)** | **5,520** | **(155)** | **(41)** | **(196)** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2019** | **(267,195)** | **284,886** | **17,691** | **(1,211)** | **16,480** |

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr:

| 31 Mawrth 2020 | Pensiwn a ariennir | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu | Cyfanswm pensiynau |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cost gwasanaeth | - | - | - |
| Incwm/(cost) llog | 409 | (27) | 382 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr** | **409** | **(27)** | **382** |
| Costau gweinyddu | (686) | - | (686) |
| **Incwm net/(cost) a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr** | **(277)** | **(27)** | **(304)** |

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel (Gwariant)/Incwm Cynhwysfawr Arall:

| 31 Mawrth 2020 | Pensiwn a ariennir | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu | Cyfanswm pensiynau |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 21,480 | 77 | 21,557 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (187) | - | (187) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | 1,641 | - | 1,641 |
| **Cyfanswm enillon/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **22,934** | **77** | **23,011** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (18,477) | - | (18,477) |
| **Enillion/(colledion) net** | **4,457** | **77** | **4,534** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr:

| 31 Mawrth 2019 | Pensiwn a ariennir | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu | Cyfanswm pensiynau |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cost gwasanaeth | (675) | - | (675) |
| Incwm/(cost) llog | 467 | (28) | 439 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr** | **(208)** | **(28)** | **(236)** |
| Costau gweinyddu | (668) | - | (668) |
| **Incwm net/(cost) a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr** | **(876)** | **(28)** | **(904)** |

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel (Gwariant)/Incwm Cynhwysfawr Arall:

| 31 Mawrth 2019 | Pensiwn a ariennir | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu | Cyfanswm pensiynau |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (12,660) | (41) | (12,701) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 13,128 | - | 13,128 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (6,143) | - | (6,143) |
| **Cyfanswm enillon/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **(5,675)** | **(41)** | **(5,716)** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | 5,520 | - | 5,520 |
| **Enillion/(colledion) net** | **(155)** | **(41)** | **(196)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

## Dyma brif gategorïau asedau'r cynlluniau fel canran o gyfanswm asedau'r cynlluniau:

| | 31 Mawrth 2020 (%) Cyfanswm | 31 Mawrth 2019 (%) Cyfanswm |
|---|---|---|
| Ecwitïau byd-eang (ddim yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 2 | 2 |
| Ecwitïau byd-eang (yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 2 | 2 |
| Bondiau corfforaethol | 6 | 3 |
| Bondiau'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â'r Mynegai | 5 | 4 |
| Cronfa dwf wedi'i harallgyfeirio | 4 | 4 |
| Portffolio buddsoddiadau a ysgogir gan rwymedigaethau | 6 | 7 |
| Blwydd-daliadau | 73 | 75 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 2 | 3 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg buddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisïau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau ac mae gan Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giltiau a bondiau, pan ellir fforddio gwneud hynny.

## Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth 2020 (%) Cyfanswm | 31 Mawrth 2019 (%) Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 2.45 | 2.35 |
| Chwyddiant Prisiau Adwerthu | 2.65 | 3.25 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI) | 2.65 | 3.25 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%) | 1 .70 | 2.00 |

## Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân ac mae'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn:

| | Y Cynllun DB | Y Cynllun DB | Y Cynllun ITC | Y Cynllun ITC |
|---|---|---|---|---|
| Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n... | 40 oed ar hyn o bryd | 60 oed ar hyn o bryd | 40 oed ar hyn o bryd | 60 oed ar hyn o bryd |
| Gwryw | 29 | 27 | 29 | 28 |
| Benyw | 31 | 30 | 31 | 30 |

## Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd

| | Effaith ar | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y Cynllun DB | | | Y Cynllun ITC | | |
| | Rhwymed -igaethau o ran y buddion wedi'u diffinio | Asedau | Gwarged statws ariannu | Rhwymed -igaethau o ran y buddion wedi'u diffinio | Asedau | Gwarged statws ariannu |
| **Newid mewn rhagdybiaethau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cyfradd ddisgownt** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | gostyngiad o £5,244 | gostyngiad o £5,264 | gostyngiad o £20 | gostyngiad o £10,229 | gostyngiad o £10,229 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | codiad o £5,986 | codiad o £6,103 | codiad o £117 | codiad o £11,359 | codiad o £11,359 | Dim newid |
| **Chwyddiant Prisiau Adwerthu** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | codiad o £5,684 | codiad o £5,257 | codiad o £427 | codiad o £9,329 | codiad oy £9,329 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | gostyngiad o £4,931 | gostyngiad o £4,536 | gostyngiad o £395 | gostyngiad o £8,294 | gostyngiad o £8,294 | Dim newid |
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed** | | | | | | |
| Yn codi - blwyddyn | codiad o £2,253 | codiad o £653 | decrease by £1,600 | codiad o £9,248 | codiad o £9,248 | Dim newid |
| Yn gostwng - blwyddyn | gostyngiad o £2,174 | gostyngiad o £647 | codiad o £1,527 | gostyngiad o £8,784 | gostyngiad o £8,784 | Dim newid |

### Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio


Mae'r siartiau isod yn dangos y buddion y disgwylir eu talu o dan y Cynlluniau perthnasol adeg y prisiad actiwaraidd mwyaf diweddar (Mawrth 2018) dros yr 80 mlynedd nesaf.

Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr.

Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian wrth ymddeol.


### Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 19 mlynedd



### Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt)

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 13 mlynedd




## 21. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32, Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg o'i gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi gwargedion o gronfeydd. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth cario ymlaen y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, caiff symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 22. Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth reoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Datgeliadau Partïon Cysylltiedig.

Nid yw Aelodau'r Bwrdd wedi datgan bod ganddynt fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaethau fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodion rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Darperir manylion yr holl refeniw grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nodyn 2, 3, 11 ac 14 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 20 am ddatgeliad pellach.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd y symiau derbyniadwy canlynol yn cael eu dal yng nghyswllt cymorth grant a oedd yn ddyledus gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Clirio sbectrwm – £2,590k (2018/19: swm derbyniadwy £310k)

Ni chafwyd dim trafodion partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 23. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2020 roedd ymrwymiadau cyfalaf o £1,323k (2018/19: £1,453k) yn berthnasol i ymrwymiad cyfalaf y landlord wedi'i ariannu ar gyfer y gwaith adnewyddu ei eiddo ei hun.

## 24. Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r/o'r Gronfa Gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £10,985k (2018/19: £8,493k) o Daliadau ychwanegol yn ymwneud â'r Ddeddf Darlledu, Rhifau Daearyddol a Dirwyon i'r Gronfa Gyfunol.

Yn unol ag Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, cadwodd Ofcom £56,828k (2018/19: £54,305k) o dderbyniadau WTA i dalu am ei wariant perthnasol sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm.

Cafodd ffioedd trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr o £312,800k (2018/19: £239,942k) eu hanfon i'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol. Nid oes unrhyw elw Arwerthiant y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2018/19: £1,370,354k).

## 25. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

## 26. Busnes byw

Bydd ariannu rhwymedigaethau Ofcom yn y dyfodol yn cael ei wneud drwy dariffau sector blynyddol gan randdeiliaid sy'n cael eu rheoleiddio a drwy gadw derbyniadau WTA a gesglir drwy'r cyfrifon Adran 400 ac a gedwir gan Ofcom i dalu am weithgareddau sy'n ymwneud â sbectrwm ynghyd â gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu drwy dariffau, fel y nodir yn Adran 401 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cytuno ar gap gwariant Ofcom, ac mae cymeradwyaeth ar gyfer y symiau sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn 2020/21 eisoes wedi cael ei rhoi. Felly ystyriwyd ei bod hi'n briodol mabwysiadu dull busnes byw er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

Ers dechrau argyfwng COVID-19, mae Ofcom wedi addasu i drefniadau gweithio eraill. Mae Ofcom yn credu nad yw COVID-19 yn cael unrhyw effaith ar sail busnes byw.



ADRAN D

# Atodiadau

# A1. Adran 400

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau gan gynnwys ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA). Nid yw'r derbyniadau hyn yn rhan o'r refeniw sy'n cael ei gofnodi gan Ofcom ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y refeniw yn Natganiadau Ariannol Ofcom.

Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a geir mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan WTA i dalu am ei swyddogaethau cyffredinol i reoli sbectrwm, ac i dalu am gostau gwaith ei swyddogaethau eraill na chaiff godi ffioedd na thaliadau ar eu cyfer.

Mae gweddill y refeniw a gesglir yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél - Gogledd Iwerddon (DFPNI), Trysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey a Beilïaeth Guernsey, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Yn 2019/20 roedd Ofcom wedi derbyn £373m (2018/19: £1,689m).

O blith y derbyniadau hyn, cafodd £56.8m (2018/19: £54m) ei gadw i dalu am ran o wariant Ofcom, gan gynnwys dyletswyddau rheoli sbectrwm a chostau cyfreithiol (£1.1m) mewn perthynas â ffioedd trwyddedau blynyddol, yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl ym mis Tachwedd 2017.

Talodd Ofcom £313m (2018/19: £1,610m) sy'n ymwneud â ffioedd trwyddedau o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, ffioedd sbectrwm gan adrannau'r Llywodraeth a'r llog a gafwyd ar falansau arian i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n cael eu talu i'r Cronfeydd Cyfunol.

Ar ben hynny, roedd Ofcom wedi trosglwyddo £11m (2018/19: £8.0m) yn uniongyrchol i'r Cronfeydd Cyfunol a oedd yn ymwneud â derbyniadau a oedd yn deillio o daliadau ychwanegol, cosbau ariannol a thaliadau am rifau ffôn daearyddol.

Bydd gweddill y balans, sef £14.9m, yn cael ei roi i'r Trysorlys ym mis Ebrill 2020/21.

# A2. Datganiadau rheoleiddio

**Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2019/20, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid.**

## Darlledu

| | |
|---|---|
| A | Adolygiad o'r Canllawiau ar Gynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol ar gyfer y Teledu |
| A | 'Deunyddiau dan gyfyngiadau arbennig' a Chanllawiau Dilysu Oed ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (diweddariad) |
| B | Radio Faza – Cais i newid ei Brif Ymrwymiadau |
| B | Asesiad o sylwedd y newid yn sgil BritBox |
| B | Cais i newid Fformat – Banbury Sound, Rugby FM a Touch FM |
| B | Adolygiad o drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig tymor byr |
| B | Jack FM2 (Rhydychen) – Cais i newid Fformat |
| B | Bradford Asian Radio – Cais i newid ei Brif Ymrwymiadau |
| B | XS Manceinion – Cais i newid Fformat |
| B | Nation Radio (Ceredigion) – Cais i newid Fformat |
| B | Asesiad o Gystadleuaeth BBC iPlayer: datganiad ar benderfyniad terfynol Ofcom |
| B | talkSPORT – Cynigion i leihau darpariaeth AM |
| B | Digwyddiadau Rhestredig – Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan Rygbi'r Byd 2019 |
| B | Sheffield Live – Cais i Amrywio |
| B | Gorsafoedd radio Communicorp yn Nwyrain Canolbarth Lloegr a Peterborough – Cais i greu ardal gymeradwy newydd |
| B | Connect FM (Kettering, Corby a Wellingborough) – Cais i newid Fformat |
| B | Connect FM (Peterborough) – Cais i newid Fformat |
| B | Rhwydwaith Teledu Lleol – Ceisiadau i Amrywio ar ran 17 o drwyddedeion teledu lleol |
| B | Love Sport a Panjab Radio – Ceisiadau i newid Fformat |
| C | Diwygio Codau Technegol Radio Digidol |
| C | Cynnig i ymestyn cylch gwaith y Pwyllgor Cynghori ar Hysbysebu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd | C | Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio |
| B | Cymysg/dim newid/parhaus | D | Llai o reoleiddio |

## Post

| | |
|---|---|
| A | Adolygu'r broses o ddarparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol - Cam II |
| B | Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post |

## Sbectrwm

| | |
|---|---|
| A | Ffioedd Trwyddedau Blynyddol ar gyfer sbectrwm 3.4 GHz a 3.6 GHz UK Broadband |
| B | Galluogi arloesi di-wifr drwy drwyddedau lleol |
| B | Hysbysiad o gynnig i amrywio trwyddedau sbectrwm radio 3.4 GHz |
| B | Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz |
| B | Gwneud rheoliadau penodol mewn perthynas â dyfarnu sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz – Hysbysiad o wneud gorchymyn cyfyngu a diwygio'r rheoliadau cofrestr a'r rheoliadau masnachu symudol |
| D | Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Dyfeisiau Mwyhau ar gyfer Ffonau Symudol) (Esemptiad) (Diwygio) 2019 |

## Telegyfathrebiadau

| | |
|---|---|
| A | Uwchraddio cwsmeriaid band eang i gynnyrch cyflym iawn |
| A | Darparu'r Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang |
| B | Adroddiadau ariannol rheoleiddiol BT |
| B | Gwneud i farchnadoedd cyfathrebiadau weithio'n dda i gwsmeriaid – Fframwaith i asesu tegwch o ran band eang, ffonau symudol, ffonau cartref a theledu drwy dalu |
| B | Mesurau i gefnogi treialon Openreach yng Nghaersallog a Mildenhall |
| B | Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r seilwaith ffisegol ac o farchnadoedd cysylltedd busnes |
| D | Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr – Mesurau i gefnogi treial Openreach yng Nghaersallog |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd | C | Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio |
| B | Cymysg/dim newid/parhaus | D | Llai o reoleiddio |

**Ymgyngoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2019/20 a oedd yn cynnwys asesiad o effaith a lle na chyhoeddwyd datganiad terfynol erbyn 31 Mawrth 2020**

| |
|---|
| Trwyddedu DAB ar raddfa fach – Sut bydd Ofcom yn defnyddio ei swyddogaethau newydd |
| Treialu atebion i ddefnyddwyr |
| Canllaw arfaethedig ar drin defnyddwyr bregus yn deg |
| Secklow Sounds (Milton Keynes) – Cais i newid ei Brif Ymrwymiadau |
| Hysbysiad o gynigion Ofcom i ddiwygio rheoliadau cofrestr a rheoliadau masnachu sbectrwm |
| Digolledu darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol |
| Newyddion y BBC ar gyfer plant a rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf |
| Adolygiad o God Ofcom ar gyfer Gwasanaethau Hwyluso'r Defnydd o Deledu, a Chanllawiau ynghylch Hygyrchedd y BBC |
| Hysbysiad o gynigion Ofcom ar newidiadau i eithriad trwydded Dyfeisiau Telegraffiaeth Ddi-wifr |
| Triniaeth deg i gwsmeriaid gwasanaethau band eang a symudol, a'i gwneud yn haws iddyn nhw newid darparwr – Cynigion i gyflwyno'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd |
| Gwella mynediad i sbectrwm ar gyfer wifi – Defnyddio sbectrwm yn y bandiau 5 a 6 GHz |
| Cefnogi arloesedd yn yr ystod 100-200 GHz |
| Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr – Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol BT |
| Hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol 2021-26 |
| Mesurau arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu cysylltiad â meysydd electromagnetig (EMF) |

**Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2019/20 lle roedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith**

| |
|---|
| Diwygio Codau Technegol Radio Digidol |
| Adolygiad o'r Canllawiau ar Gynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol ar gyfer y Teledu |
| Hysbysiad o gynnig i amrywio trwyddedau sbectrwm radio 3.4 GHz |
| Adroddiadau ariannol rheoleiddiol BT |
| Adolygu'r broses o ddarparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol - Cam II |
| Galluogi arloesi di-wifr drwy drwyddedau lleol |
| Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Dyfeisiau Mwyhau ar gyfer Ffonau Symudol) (Esemptiad) (Diwygio) 2019 |
| Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz |
| Asesiad o Gystadleuaeth BBC iPlayer: datganiad ar benderfyniad terfynol Ofcom |
| Gwneud rheoliadau penodol mewn perthynas â dyfarnu sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz – Hysbysiad o wneud gorchymyn cyfyngu a diwygio'r rheoliadau cofrestr a'r rheoliadau masnachu symudol |
| 'Deunyddiau dan gyfyngiadau arbennig' a Chanllawiau Dilysu Oed ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (diweddariad) |
| Darparu'r Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang |
| Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr – adolygiad o'r seilwaith ffisegol ac o farchnadoedd cysylltedd busnes |
| Mesurau arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu cysylltiad â meysydd electromagnetig (EMF) |

# A3. Rhaglen ymchwiliadau

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom yn cynnal asesiadau cychwynnol ac ymchwiliadau yn ystod 2019/20. Mae'n adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020.

Mae rhagor o fanylion am achosion yr ymchwiliwyd iddynt o dan y rhaglen ymchwiliadau wedi'u nodi yn Mwletin Competition and Enforcement Ofcom sydd ar gael yn:

https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/competition-bulletins

Mae'r data yn y tabl isod yn ymdrin â Thîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth a'r Tîm Gorfodi Defnyddwyr, ac mae'n gysylltiedig ag asesiad cychwynnol.

| | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm sydd wedi'u derbyn i'w hymchwilio | Cyfanswm heb eu derbyn | Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/20) |
|---|---|---|---|---|
| Anghydfodau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraith cystadleuaeth | 5 | 2 | 1 | 4 |
| Cwynion | 5 | 1 | 2 | 2 |
| Liwt ein hunain | 11 | 10 | 1 | 0 |

Mae'r tabl canlynol yn ymwneud ag achosion a agorwyd yn ffurfiol:

| | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm a agorwyd | Cyfanswm sy'n parhau | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/20) |
|---|---|---|---|---|---|
| Anghydfodau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraith Cystadleuaeth | 3 | 2 | 1 | 1 | 2 |
| Ymchwiliadau eraill | 17 | 11 | 6 | 9 | 8 |
| Rhaglenni gorfodi | 5 | 0 | 5 | 3 | 2 |

# A4. Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan wrandawyr a gwylwyr, a'u datrys, am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gennym ni, ac S4C. Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Siarter a Chytundeb y BBC i osod gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a gyfeirir atom am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC.

Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwr yn cydymffurfio neu beidio â rheolau'r Cod Darlledu, neu godau eraill Ofcom. Yn ogystal â lansio ymchwiliadau ar ôl asesu cwynion, gallwn wneud hynny ar ein liwt ein hunain hefyd. Rydym yn delio ag ymchwiliadau yn sgil cwynion ac ymchwiliadau a roddwyd ar waith gennym ni ein hunain o dan yr un gweithdrefnau.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu cael yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu mater neu raglen benodol, a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Caewyd cyfanswm o 8,003 achos (a oedd yn cynnwys 34,719 o gwynion) yn y cyfnod dan sylw.

## Safonau cynnwys

Mae cwynion am safonau cynnwys yn cael sylw o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. Mae cwynion am safonau cynnwys y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

## Asesiad cychwynnol o gwynion

Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn, ystyriaeth o'r cynnwys teledu neu radio perthnasol ac unrhyw ddeunydd perthnasol arall, bydd Ofcom yn ystyried a yw'r achos yn codi materion a allai fod yn sylweddol o dan y Cod Darlledu (neu godau eraill Ofcom) a fydd yn cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom. Os na, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn ei Fwletin Broadcast and On Demand.

Aseswyd 7,829 o achosion (34,545 o gwynion) yn y ffordd hon yn ystod y cyfnod adrodd. Canfu Ofcom:

- bod 130 o achosion (3,622 o gwynion) wedi codi materion a allai fod yn sylweddol a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach; a
- bod 7,699 o achosion (30,923 o gwynion) nad oedd angen ymchwilio ymhellach iddynt neu a oedd y tu allan i gylch gwaith Ofcom.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 11.2 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion a allai fod yn sylweddol, byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

Cafodd cyfanswm o 121 o achosion ymchwilio eu cwblhau rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Canfu Ofcom:

- bod 79 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi arwain at gofnodi bod amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri;
- bod 13 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu datrys; ac
- nad oedd 29 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi torri amodau'r codau neu na pharhawyd â hwy.

Anelwn at gwblhau'r achosion hynny y penderfynwn ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 56.4 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Roedd llawer iawn o'r ymchwiliadau a gafodd eu cau eleni wedi cynnwys rhai materion gweithdrefnol a chyfreithiol cymhleth iawn. Yn anffodus, mae hyn wedi golygu ein bod wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gwblhau ein hymchwiliadau.

## Tegwch a Phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn gwynion am driniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt). Bydd y cwynion hyn yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu yn eu cylch. Bydd cwynion am degwch a phreifatrwydd ar raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

## Asesu a Phwyso a Mesur

Mae Ofcom yn asesu pob cwyn Tegwch a Phreifatrwydd mae'n ei chael i benderfynu a ddylid pwyso a mesur y gŵyn. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y canlynol: ai'r sawl sy'n cwyno yw'r "sawl yr effeithir arno" ac a yw'n gallu cwyno; a yw'r mater y cwynir amdano yn destun achos mewn llys barn yn y DU; neu a yw'r gŵyn yn ddisylwedd.

Cafodd cyfanswm o 174 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd eu hasesu yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. O'r rhain:

- cafodd 32 achos eu derbyn i'w pwyso a'u mesur; ac
- yng nghyswllt 142 o gwynion penderfynwyd peidio â'u pwyso a'u mesur neu ni fwriwyd ymlaen â hwy cyn eu pwyso a'u mesur.

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am bwyso a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, asesodd a phenderfynodd Ofcom cyn pen 16.8 diwrnod gwaith ar gyfartaledd a ddylid pwyso a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd.

## Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei phwyso a'i mesur gan Ofcom, bydd yn ymchwilio i'r mater ymhellach i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri. Bydd Ofcom wedyn yn gwneud ei ddyfarniad terfynol.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o 32 o gwynion yn y cyfnod dan sylw. O'r rhain:

- roedd 3 o gwynion wedi'u cadarnhau;
- roedd 1 gŵyn wedi'i chadarnhau yn rhannol;
- roedd 22 o gwynion heb eu cadarnhau; ac
- roedd 6 o gwynion wedi'u datrys (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol).

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, o fewn 90 diwrnod gwaith i bwyso a mesur y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 118.2 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Mae ein tîm wedi asesu ac ymchwilio i fwy nag erioed o'r blaen o achosion Tegwch a Phreifatrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae llawer o'r rhain wedi cynnwys rhai materion gweithdrefnol a chyfreithiol cymhleth iawn. Yn anffodus, mae hyn wedi golygu ein bod wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gwblhau ein dyfarniadau.

## Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri amodau'r Cod Darlledu neu un o godau eraill Ofcom, ac yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gall ystyried a yw am roi sancsiwn statudol i'r darlledwr.

Mae gan Ofcom amrywiaeth o sancsiynau ar gael, gan gynnwys: cyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb; cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom; rhoi cosb ariannol[1] cwtogi trwydded neu ei hatal; a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, penderfynodd Ofcom roi'r sancsiynau statudol canlynol:

- City News Network (SMC) Pvt Ltd mewn perthynas â'i wasanaeth Channel 44 – cosb ariannol o £75,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.
- Trace UK World Ltd mewn perthynas â'i wasanaeth Starz – cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.
- TV Novosti, Sefydliad Dim-er-elw Ymreolaethol, mewn perthynas â'i wasanaeth RT – cosb ariannol o £200,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.
- Greener Technology Limited mewn perthynas â'i wasanaeth BEN TV – cosb ariannol o £25,000, cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom, a chyfarwyddyd i beidio ag ailadrodd y rhaglen.
- Big City Radio CIC mewn perthynas â'i wasanaeth Big City Radio – cosb ariannol o £500.
- Talksport Ltd mewn perthynas â'i wasanaeth Talk Radio – cosb ariannol o £75,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.
- Baltic Media Alliance Limited mewn perthynas â'i wasanaeth NTV Mir Baltic – cosb ariannol o £20,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.

1 Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EM i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.

## Cwynion yng nghyswllt safonau cynnwys y BBC

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf'. Mae hyn yn golygu os oes gan rywun gŵyn am rywbeth maen nhw wedi'i weld neu ei glywed ar raglen deledu, radio neu ar-alw gan y BBC, mae'n rhaid iddyn nhw fel rheol gwyno wrth y BBC yn gyntaf fel rheol. Mae modd i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom os byddant yn anfodlon ar ymateb y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. Mae modd cyfeirio cwyn hefyd os ydy'r sawl sy'n cwyno'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn yn erbyn y BBC.

O'r 34,545 o gwynion am safonau a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, roedd 233 o gwynion yn ymwneud â rhaglenni'r BBC. O'r 233 o gwynion hynny, cafodd un ei chyfeirio ar gyfer ymchwiliad.

Roeddem hefyd wedi cael 2,826 o gwynion ychwanegol am raglenni'r BBC pan, yn yr asesiad cychwynnol, roeddem wedi canfod nad oedd y sawl a oedd yn cwyno wedi cwblhau proses gwyno'r BBC cyn cyflwyno eu cwyn i Ofcom, neu roeddem wedi canfod nad oedd y gŵyn yn dod o dan ein cylch gwaith. Yn yr achosion hyn roeddem wedi cyfeirio'r gŵyn yn ôl i'r BBC. Caiff y cwynion hyn eu cyhoeddi ar wahân o dan 'BBC yn Gyntaf' yn ein Bwletin Darlledu ac Ar-Alw.

## Deunydd ar-lein y BBC

O dan Siarter a Chytundeb y BBC, a osodir gan Lywodraeth a Senedd y DU, mae'r BBC yn gyfrifol am safonau golygyddol ei ddeunydd ar-lein. Mae gan Ofcom gyfrifoldeb i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefannau ac apiau'r BBC, fel erthyglau, delweddau a fideos. Nid yw'n cynnwys rhaglenni ar y BBC iPlayer sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau Cod Darlledu Ofcom.

Rydym yn delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC.

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, roeddem wedi cau cyfanswm o 47 o gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC. Cyfeiriwyd un o'r achosion hyn er mwyn cael Barn. Roedd 184 o gwynion eraill wedi cael eu hailgyfeirio at y BBC o dan y dull 'BBC yn Gyntaf', neu y tu allan i'n cylch gwaith.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 12.2 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, rhoddodd Ofcom ei Farn ynghylch a oedd y BBC wedi glynu wrth ei ganllawiau golygyddol ei hun ar gynnwys un erthygl ar-lein. Cafodd yr achos hwn ei gau mewn 55 diwrnod gwaith.

# A5. Gorfodi a pheirianneg sbectrwm

## Dangosydd perfformiad allweddol

### Prif Weithgareddau

| Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad | April 19 - March 20 | April 18 - March 19 |
|---|---|---|
| Cwynion a gafwyd am Ymyriant[1] | 1,585 | 1,937 |
| Gwirio cydymffurfiad â thrwyddedau systemau radio[2] | 2,211 | 2,392 |
| Nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd[3] | 21 | 17 |
| Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm[4] | 3 | 2 |

### Targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cwynion a gafwyd am ymyriant

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Blaenoriaeth Achos | Targed | Targed wedi'i gyflawni | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ebrill 19 – Mawrth 20 | Ebrill 18 – Mawrth 19 |
| **Amser cyn yr ymweliad cyntaf:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes). | 1 | 8 awr | 100% | 100% |
| | 2 | 18 awr | 100% | 100% |
| | 3 | 2 ddiwrnod gwaith | 99% | 100% |
| | 4 | 5 diwrnod gwaith | 98% | 100% |
| | 5 | 15 diwrnod gwaith | 98% | 100% |
| | 6 | Dim targed | - | - |
| **Datrysiad:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys. | 1 | 2 ddiwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 2 | 3 diwrnod calendr | 100% | 99% |
| | 3 | 6 diwrnod gwaith | 99% | 99% |
| | 4 | 20 diwrnod gwaith | 96% | 99% |
| | 5 | 40 diwrnod gwaith | 96% | 98% |
| | 6 | 60 diwrnod gwaith | 99% | 99% |

1 Achosion ymyriant a nodwyd gan y cyhoedd a busnesau
2 Gwaith gan Ofcom i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau neu nad oes defnydd didrwydded yn digwydd
3 Fel arfer rhoddir Hysbysiadau Cosb Benodedig os yw rhybudd cychwynnol gan Ofcom yn cael ei anwybyddu. Gall peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig arwain at gymryd camau cyfreithiol
4 Erlyniadau yng nghyswllt gorsafoedd radio anghyfreithlon neu fethiant i dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig

# A6. Trwyddedu sbectrwm

## Categori A

| Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 – Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|
| Business Radio Light – Simple UK (dim gorsaf ganolog) | 2,030 | 2,036 | 15,226 | 14,790 |
| Radio Busnes – safle syml | 1,227 | 1,201 | 8,969 | 9,225 |
| Cyflenwyr Radio Busnes – ysgafn | 135 | 231 | 1,301 | 1,286 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 61 | 65 | 408 | 403 |
| Ailadroddwr GNSS | 16 | 79 | 353 | 339 |
| Heddlu a Thân | 0 | 2 | 123 | 124 |
| Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes | 3,469 | 3,614 | 26,380 | 26,167 |
| Medrydd Lefel Radar | 0 | 0 | 124 | 124 |
| Amatur a Morol | 30,167 | 27,426 | 268,117 | 258,821 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **33,636** | **31,040** | **294,621** | **285,112** |
| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | - | - |
| DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 100% | 100% | - | - |

## Categori B

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 - Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | | 15 | 97 | 385 | 373 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | | 5 | 6 | 396 | 401 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | | 11 | 17 | 339 | 350 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | | 10 | 16 | 401 | 408 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | | 31 | 47 | 477 | 453 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | | 1 | 1 | 84 | 83 |
| Radar a Chymhorthion Llywio Morol | | 4 | 14 | 118 | 120 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS) | | 0 | 2 | 6 | 6 |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Isel)[1] | | 124 | - | 786 | - |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Canolig)[2] | | 6 | - | 2 | - |
| Is-gyfanswm ar gyfer dadreoleiddio a gosod cynnyrch dan gontract | | 207 | 200 | 2,994 | 2,194 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | | 2,438 | 2,631 | 24,630 | 25,074 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | | 25 | 28 | 309 | 301 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) wedi'i diffinio fesul Ardal | | 4 | 3 | 12 | 8 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) wedi'i diffinio fesul Ardal | | 1 | 0 | 8 | 8 |
| Radar Profi'r Tir | | 24 | 24 | 218 | 224 |
| Telemetreg Sganio | | 0 | 1 | 28 | 30 |
| Cysylltiadau hunangydlynol | | 23 | 26 | 170 | 160 |
| Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes | | 2,515 | 2,713 | 25,375 | 25,805 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | | **2,722** | **2,913** | **28,369** | **27,999** |
| DPA ar gyfer Categori B | 90% mewn 21 diwrnod | 87% | 87% | | |
| | 100% mewn 42 diwrnod | 97% | 97% | | |

1 Cynnyrch trwydded newydd
2 Cynnyrch trwydded newydd

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 - Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | | 1,359 | 1,618 | 19,806 | 23,009 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | | 5 | 22 | 148 | 150 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | | 58 | 78 | 112 | 116 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | | 7 | 13 | 69 | 70 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog) | | 4 | 4 | 11 | 10 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | | | **1,735** | | **23,355** |
| DPA ar gyfer Categori C | 90% mewn 42 diwrnod | 99% | 98% | | |
| | 100% mewn 60 diwrnod | 99% | 99% | | |

## Trwyddedau awyrenegol[1]

| Trwyddedau ar gyfer gwasanaethau awyrenegol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 - Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau Awyrenegol | 5,298 | 6,436 | 15,954 | 15,719 |
| Cyfanswm ar gyfer Awyrenegol | 5,298 | 6,436 | 15,954 | 15,719 |
| DPA ar gyfer Awyrenegol (100% mewn 7 niwrnod) | 77% | 82% | - | - |

1 Trwyddedau a roddwyd gan yr Awdurdod Hedfan Sifil ar ran Ofcom hyd at 31 Hydref 2018. Ar ôl y dyddiad hwnnw dyfarnwyd trwyddedau gan Ofcom.

## Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 - Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau PMSE | 36,130 | 62,222 | 7,974 | 8,144 |
| **Cyfanswm ar gyfer PMSE** | **36,130** | **62,222** | **7,974** | **8,144** |
| DPA ar gyfer PMSE (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | - | - |

## Trwyddedau Profi a Datblygu

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 - Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded Ymchwil ac Arloesi | 402 | 426 | 335 | 354 |
| Trwydded Treialu ac Arddangos | 358 | 345 | 155 | 130 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **760** | **771** | **490** | **484** |
| DPA ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod) | 100% | 100% | - | - |

## Trwyddedau band eang di-wifr a symudol[1]

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 - Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800 MHz | -1 | 1[2] | 4 | 5 |
| Mynediad i Sbectrwm: 2100 MHz | 0 | 0 | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: Twnnel y Sianel[3] | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Mynediad i Sbectrwm: 800 MHz, 2.6 GHz | 0 | 0 | 5 | 5 |
| Mynediad i Sbectrwm: 412 – 414 MHz | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1452 – 1492 MHz | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Mynediad Cydamserol i Sbectrwm: 1781-1785 MHz | -12[4] | 0 | 0 | 12 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 2.3, 3.4-3.6, 3.6-3.8, 10, 28, 32, 40 GHz | 0 | 5[5] | 25 | 25 |
| Mynediad i Sbectrwm ar y Môr | 1 | 0 | 8 | 7 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **0** | **6** | **52** | **64** |

1 Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd yn llawn o un cwmni i'r llall, wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.
2 Dal trwydded, ar y cyd, ar gyfer amleddau Vodafone a Telefonica yn ystod y cyfnod pontio er mwyn dad-ddarnio sbectrwm – wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2019.
3 Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU.
4 Trwyddedau sydd naill ai wedi cael eu hildio neu eu symud i ddosbarth trwydded newydd, 'Rhannu Mynediad i Sbectrwm'.
5 Dyfarnu bandiau sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz, Ebrill 2018.

## Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 – Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|
| Ffonau Symudol 3G, Ynysoedd y Sianel | -1 | 0 | 0 | 1 |
| Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 1 | 0 | 33 | 32 |
| Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28 GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 0 | 0 | 9 | 9 |
| **Y cyfanswm ar gyfer Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | **0** | **0** | **42** | **42** |

## Trwyddedau Sbectrwm y Difidend Digidol

Y sbectrwm a ryddhawyd i'w ddefnyddio mewn ffyrdd newydd yn sgil y newid i'r digidol

| Trwyddedau DDR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 – Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm trwyddedau'r Difidend Digidol** | **0** | **0** | **2** | **2** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Nifer y Trwyddedau – Pob Categori** | **79,979** | **105,123**[1] | **367,650** | **360,921**[2] |

1 Ffigurau wedi'u newid ar gyfer 2018/19, o 105,076 i 105,123
2 Ffigurau wedi'u newid ar gyfer 2018/19, o 360,468 i 360,921

# A7. Cynaliadwyedd

**Mae'r adran hon yn rhoi data am gynaliadwyedd a'r costau ariannol yn fanylach.**

| | | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tunelli CO2e) | Cwmpas 1 | Nwy | 158 | 161 | 187 | 148 | 22 |
| | | Olew | 18 | 19 | 22 | 11 | 0 |
| | | Tanwydd Fflyd | 180 | 185 | 192 | 168 | 163 |
| | Cwmpas 2 | Trydan | 1,214 | 1,090 | 809 | 528 | 308 |
| | Cwmpas 3 | Teithiau Busnes | 250 | 312 | 519 | 555 | 594 |
| | | Hedfan | 144 | 188 | 410 | 449 | 477 |
| | | Domestig | 47 | 76 | 156 | 160 | 185 |
| | | Teithiau byr | 30 | 79 | 164 | 160 | 136 |
| | | Teithiau hir | 67 | 34 | 91 | 129 | 156 |
| | | Trên/bws/tanddaearol | 59 | 78 | 66 | 67 | 73 |
| | | Car/Beic Modur/Beic | 44 | 43 | 41 | 36 | 41 |
| | | Tacsis | 3 | 3 | 2 | 2 | 3 |
| Data defnydd cysylltiedig | Cwmpas 1 | Nwy (kWh) | 855,056 | 874,478 | 1,014,202 | 802,709 | 120,016 |
| | | Nwy fesul FTE (kWh) | 1,070 | 1,012 | 1,136 | 891 | 125 |
| | | Olew (litrau) | 7,001 | 7,500 | 8,500 | 4,501 | 0 |
| | | Tanwydd Fflyd (litrau) | 69,596 | 71,024 | 73,659 | 64,710 | 62,665 |
| | Cwmpas 2 | Trydan (kWh) | 2,425,743 | 2,426,666 | 2,103,652 | 1,720,333 | 1,112,349 |
| | | Trydan fesul FTE (kWh) | 3,036 | 2,808 | 2,356 | 1,910 | 1,162 |
| Dangosyddion Ariannol | Cwmpas 1 | Nwy | £27,786 | £22,293 | £19,465 | £23,494 | £10,852 |
| | | Olew | £3,504 | £2,128 | £5,530 | £3,347 | £0 |
| | | Tanwydd Fflyd | £78,996 | £87,398 | £93,911 | £90,292 | £85,269 |
| | Cwmpas 2 | Trydan | £334,677 | £293,991 | £340,333 | £287,074 | £158,351 |
| | Cwmpas 3 | Teithiau Busnes | £569,099 | £663,705 | £705,602 | £742,876 | £837,982 |
| | | Hedfan | £197,408 | £253,733 | £333,723 | £367,844 | £402,945 |
| | | Trên/bws/tanddaearol | £264,211 | £299,929 | £266,725 | £273,338 | £315,574 |
| | | Car/Beic Modur/Beic | £67,721 | £65,077 | £64,329 | £57,428 | £66,212 |
| | | Tacsis | £39,759 | £44,966 | £40,826 | £44,266 | £52,421 |

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

### Cwmpas 1

Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnyddio tanwydd yng ngheir fflyd Ofcom.

Mae'r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Haydock (a wnaeth gau yn 2018) a Livingston (a wnaeth gau yn 2017). Caiff costau nwy ar gyfer swyddfeydd Caeredin, Warrington a Chaerdydd eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r defnydd o nwy yn dibynnu ar y tywydd.

Bydd Ofcom yn talu am danwydd diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi.

### Cwmpas 2

Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Haydock (a wnaeth gau yn 2018), Warrintgon a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y DU. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

### Cwmpas 3

Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o'n system cofnodi SAP ac mae'n cynnwys teithio gan bob cydweithiwr ni waeth ble maent wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithiau mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithiau mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae'r data am hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig, teithiau byr a theithiau hir yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am y defnydd o wastraff ar hyd y blynyddoedd yn ymwneud â phrif swyddfa Ofcom yn Llundain. Nid oes data cywir am y defnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi'u cynnwys. O fis Mehefin 2017, mae cost gwastraff wedi'i gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae ein hasiant rheoli'n gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

| | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli)** | Cyfanswm gwastraff | 173 | 172 | 76 | 198 | 189.21 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchu/ ailddefnyddio | 111 | 91 | 52 | 71 | 91.69 |
| | Gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni | 41 | 63 | 20 | 127 | 97.52 |
| | Cyfanswm gwastraff fesul FTE | 0.216 | 0.199 | 0.086 | 0.220 | 0.198 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Cyfanswm gwastraff | £32,023 | £37,984 | £7,004 | £43,805 | £35,000 |

## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham a Haydock (a wnaeth gau yn 2018). Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r costau yn 2017/18 yn cynnwys nodiadau credyd gan gyflenwyr oherwydd biliau a oedd wedi codi gormod yn ystod blynyddoedd blaenorol. Caiff defnydd o ddŵr ei gyfyngu i ddefnydd gweithredol, gan gynnwys cyfleuster arlwyo ym mhrif swyddfa Ofcom yn Llundain.

Gwelwyd cynnydd bach o ran y defnydd o ddŵr yn ystod 2019/20 oherwydd bod dŵr wedi bod yn gollwng yn ein swyddfa yn Baldock, ac mae'r broblem wedi cael ei datrys erbyn hyn.

| | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | Defnydd dŵr (m3) | 10,767 | 11,282 | 9,379 | 13,988 | 18,874 |
| | Defnydd dŵr fesul FTE | 13.48 | 13.06 | 10.50 | 15.53 | 19.71 |
| | Rimiau papur | 7,545 | 6,317 | 3,915 | 2,579 | 2,411 |
| | Rimiau A3 | 80 | 92 | 50 | 127 | 106 |
| | Rimiau A4 | 7,465 | 6,225 | 3,865 | 2,452 | 2,305 |
| | Rimiau A5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Dŵr | £16,784 | £22,248 | £6,929 | £19,583 | £23,321 |

**Nodiadau**

1. Mae'r tablau uchod wedi cael eu paratoi yn unol â chanllawiau a osodwyd gan y Trysorlys: https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-annual-reports-sustainability-reporting-guidance-2019-to-2020
2. Mae'r holl wybodaeth yn cydymffurfio â blwyddyn ariannol arferol y sector cyhoeddus, sef 1 Ebrill–31 Mawrth.
3. Mae ffactorau trosi Defra wedi cael eu defnyddio i gyfrifo ffigurau allyriadau carbon.
4. Ni chaiff allyriadau eu cywiro yn ôl y tywydd.
5. Pan nad oedd biliau cyfleustodau wedi cyrraedd eto, roedd y data ar gostau a defnydd wedi cael eu hamcangyfrif ar sail data'r blynyddoedd blaenorol.

# A8. Clirio 700 MHz

## Diben

Er mwyn helpu i fodloni'r galw cynyddol ymysg defnyddwyr am ddata symudol, cyhoeddodd Ofcom yn 2014 ei fod wedi penderfynu adleoli amleddau rhwng 694 MHz a 790 MHz ("y band 700 MHz").

Ar ôl i'r rhaglen gael ei chwblhau, ni fydd y sbectrwm hwn ar gael mwyach ar gyfer Teledu Daearol Digidol (DTT), gwasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE) na Dyfeisiau Gofod Gwyn (WSDs) sy'n defnyddio'r band 700 MHz ar hyn o bryd.

## Nodau

Dyma nodau'r rhaglen i glirio'r band 700 MHz:

- clirio a rhyddhau'r band 700MHz cyn gynted ag sy'n bosibl yn ymarferol;
- darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus;
- osgoi amharu ar wylwyr; a
- diogelu parhau i ddarparu manteision DTT a PMSE.

## Gweithgareddau

Mae'r rhaglen i glirio'r band 700 MHz yn galw am newidiadau sylweddol i'r rhwydwaith teledu daearol digidol, wrth i sianelau symud i amleddau newydd. Mae hyn yn cynnwys gwaith mawr gan Arqiva ar y seilwaith – yn yr awyr ac ar y tir. Mae'r gwaith o glirio'r band 700 MHz yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig hefyd. Bydd angen iddyn nhw newid rhywfaint o offer nad yw'n gweithio mwyach yn yr amleddau sydd ar gael i wasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig. Mae'r rhaglen i glirio'r band 700 MHz yn cynnwys cyllid gan y llywodraeth i helpu perchnogion offer y mae hyn yn effeithio arnynt.


## Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae angen i rai gwylwyr teledu daearol digidol wneud newidiadau i'w setiau teledu. Mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd angen i 14-20 miliwn o gartrefi ail-diwnio'r offer teledu pan fydd newidiadau i drosglwyddyddion yn cael eu rhoi ar waith yn eu hardal. Mae'n bosib y bydd angen i oddeutu 100,000 – 160,000 o gartrefi eraill newid yr erial yn sgil y newidiadau.

Ar ddyddiad y newidiadau a fydd yn effeithio arnyn nhw, defnyddir hysbysebion yn y wasg a chapsiynau ar y sgrin cyn pob digwyddiad clirio i roi gwybod i wylwyr teledu bod angen iddyn nhw aildiwnio eu setiau teledu. Weithiau mae digwyddiadau clirio'n digwydd mewn mwy nag un cam, ac mae'n bosib y bydd angen aildiwnio fwy nag unwaith mewn achosion o'r fath.

Mae Freeview yn rhoi cymorth i wylwyr drwy ei wefan a'i linell gyngor. Hyd yn hyn, mae Digital UK wedi rhoi cyngor i wylwyr drwy 200,000 a mwy o alwadau, negeseuon e-bost, sgyrsiau ar y we a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae cymorth yn y cartref, a ddarperir gan y sefydliad DMSL, ar gael i rai gwylwyr pan nad yw aildiwnio yn llwyddo i adfer sianeli. Mae DMSL wedi cynnal dros 30,000 o ymweliadau â chartrefi hyd yma.




## Amserlen

Roedd y rhaglen i glirio'r band 700 MHz wedi datblygu'n dda ac ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau'n brydlon ym mis Ebrill 2020, er y bu rhywfaint o risg o oedi drwy gydol y rhaglen oherwydd digwyddiadau o bwys cenedlaethol.

Mae'r sefyllfa o ran COVID-19 wedi datblygu'n gyflym, gyda goblygiadau difrifol i fywyd yn y DU, gan gynnwys cyfyngiadau ar deithio a'r angen i bobl hunanynysu.

O ganlyniad i'r sefyllfa eithriadol hon, penderfynwyd gohirio'r ddau ddigwyddiad olaf ynghylch clirio'r band 700 MHz, a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill. Felly, bydd y rhaglen i glirio'r band 700 MHz yn cael ei dal yn ôl nes bydd perygl COVID-19 wedi lleihau.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid y rhaglen i benderfynu ar amserlen ddiwygiedig ar gyfer clirio'r band 700 MHz.

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**


Ofcom
Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Switsfwrdd
+44 (0)300 123 3000
+44 (0)20 7981 3000

Ffôn testun
+44 (0)20 7981 3043

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom
+44 (0)300 123 3333 neu
+44 (0)20 7981 3040

Yr Alban
25 Princes Street
Caeredin EH2 4AD
**T** 0131 220 7300

Cymru
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd
**T** 029 2046 7200

Gogledd Iwerddon
Landmark House
The Gasworks
Ormeau Road
Belfast BT 2JD
**T** 028 9041 7500



**ofcom.org.uk**
Of592 Gorffennaf 2020

CCS0320313510
978-1-5286-2043-7